Cyngor Sir Ddinbych

Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant

Adroddiad Drafft

Preifat a Chyfrinachol

Mawrth 2022

DRAFT

Tabl Cynnwys

Crynodeb Gweithredol 3

Canfyddiadau Allweddol 10

1. Cyflwyniad 14

2. Methodoleg 18

3. Nodi Materion Demograffeg ac Economaidd-gymdeithasol Allweddol 22

4. Trosolwg o'r Ddarpariaeth Gofal Plant Bresennol a Chanlyniadau'r Arolygon i Ddarparwyr a Gwarchodwyr Plant 42

5. Canlyniadau'r Grwpiau Ffocws ac Arolwg i Rieni.....68

6. Canlyniadau'r Arolygon i Ysgolion 90

7. Canlyniadau o'r Arolygon i Fudd-ddeiliaid a Chyflogwyr 108

8. Dadansoddiad o'r Bylchau a Meysydd ar gyfer Gwella.....125

9. Cynllun Gweithredu.....127

Atodiad.....128

DRAFT

Crynodeb Gweithredol

Cynhaliodd Cyngor Sir Ddinbych Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant o fis Tachwedd 2021 i fis Mawrth 2022, gyda chefnogaeth gan Grŵp Cynghori Premier. Cafodd yr asesiad ei danategu gan ymchwil sylfaenol a gynhaliwyd drwy sawl math o ymgynghori, yn cynnwys data Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Cymru a gwblhawyd gan ddarparwyr gofal plant, arolwg i rieni gan Lywodraeth Cymru, grwpiau ffocws i rieni ac arolygon ar-lein gyda chyflogwyr, budd-ddeiliaid ac ysgolion, yn cynnwys disgyblion a phenaethiaid.

Mae'r adroddiad hwn ar yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn adlewyrchu'r cyd-destun penodol ar gyfer darpariaeth gofal plant yn Sir Ddinbych, yn unol â'r 30 ward a'r 3 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Uwch sy'n ffurfio'r sir. Ceir crynodeb llawn o ganfyddiadau allweddol yr ymgynghoriadau a'r ymchwil demograffeg isod.

Trosolwg o ddemograffeg ALl a chyd-destun economaidd

Mae Sir Ddinbych yn sir wledig yn bennaf sy'n cwmpasu trefi glan môr y Rhyl a Phrestatyn yn y gogledd, lle cwblhawyd cyfres o brosiectau adfer, adnewyddu ac adfywio'n ddiweddar, yn cynnwys ychwanegu darpariaeth chwarae o ansawdd uchel i blant. Mae trefi marchnad Rhuthun, Corwen a thref dwristaidd boblogaidd Llangollen yn y de. Mae rhan ganolog y sir yn cynnwys trefi hanesyddol Rhuddlan, Dinbych a Llanelwy.

Mae'r data diweddaraf gan Nomis yn dangos bod cyfradd y genedigaethau byw a phoblogaeth plant 0-4 mlwydd oed yn Sir Ddinbych wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf, yn ogystal â nifer y plant yn yr un grŵp ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig ehangach a disgwylir iddo barhau i ostwng. Fodd bynnag, disgwylir i'r boblogaeth gyffredinol o unigolion 0-18 mlwydd oed gynyddu, yn bennaf yn y grŵp oedran 12-18 mlwydd oed. Mae llawer mwy o blant 3-4 mlwydd oed yn Sir Ddinbych sy'n derbyn gofal plant yn yr ALl na phlant o grwpiau oedran eraill, a phlant 0-2 oed yn dilyn hynny. Felly, mae'r galw am ofal plant yn Sir Ddinbych i'w weld yn fwy mewn rhai grwpiau oedran nag eraill ar hyn o bryd.

Mae gan rai clystyrau lefelau llawer uwch o ran diweithdra a phlant mewn aelwydydd ag hawlwyr budd-daliadau diweithdra, nag eraill. Er enghraifft, yn 2017 cofnododd Gorllewin y Rhyl gymaint â 615 o unigolion 0-15 mlwydd oed yn ei ward a oedd yn byw mewn aelwydydd ag hawlwyr budd-daliadau diweithdra, tra bod eraill, megis Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal, ddim ond wedi cofnodi 5. Gallai hyn olygu fod gan rhai wardiau lefel uwch o anghyfartaledd economaidd rhyngddynt nag eraill, ac felly bydd rhai wardiau â nifer uwch o deuluoedd a fydd yn cael trafferth wrth geisio dod o hyd i ofal plant fforddiadwy.

Mae'r mewnlif o fewnfudwyr rhyngwladol wedi cynyddu yn Sir Ddinbych rhwng 2013-2020, tra bod yr all-lif wedi lleihau. O ran mudo mewnol, mae'r mewnlif wedi aros yn sefydlog ar y cyfan, tra bod

yr all-lif wedi lleihau'n fawr o 2013-2020. Ar y cyfan, gallai'r tueddiadau hyn awgrymu y gallai'r galw am ofal plant gynyddu yn y tymor byr o ganlyniad i fudo.

Gallai effeithiau COVID-19 a Brexit arwain at ostyngiad yn nifer y bobl sy'n dod i Gymru a gallai arwain at fwy o bobl yn gadael yn hytrach na dod i mewn, gan arwain at fudo net negyddol. Mae sawl rheswm posibl am hyn. Yn gyntaf, mae Arsyllfa Mudo Prifysgol Rhydychen yn nodi oherwydd bod System Fewnfudo Newydd y DU sy'n seiliedig ar Bwyntiau, yn gosod mwy o gyfyngiadau ar nifer y gweithwyr â llai o sgiliau o'r UE sy'n cael dod i'r DU, bydd hyn yn debygol o gyfrannu at ostyngiad o ran y nifer sy'n mudo a allai effeithio ar Awdurdodau Lleol megis Sir Ddinbych.

Mae gan 2.8% o ddisgyblion yn Sir Ddinbych ddatganiad AAA, ac mae gan 19.7% fath o ADY cydnabyddedig. Roedd hyn yn is na thri o'r pum Awdurdod Lleol cyfagos, ac yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer disgyblion â datganiad AAA.

Cofnodwyd bod 22,236 o bobl yn gallu siarad Cymraeg yn 2011, ond fe nodwyd bod 31,200 o bobl yn yr un categori, sef preswylwyr a oedd yn siarad Cymraeg, yn y data oedd ar gael ar gyfer 2021. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd mawr o 8,964 o bobl yn Sir Ddinbych a oedd yn ystyried eu bod yn gallu siarad Cymraeg, dros gyfnod o 10 mlynedd. Felly, fe allai'r canfyddiadau hyn awgrymu y bydd galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg yn yr ALl yn cynyddu.

Disgwylir y bydd 5,260 o anheddau yn cael eu hadeiladu yn Sir Ddinbych hyd at 2024. Mae'r wardiau neu'r aneddiadau â'r nifer uchaf o anheddau a ddisgwylir eu hadeiladu ym Modelwyddan, De Ddwyrain y Rhyl a Dwyrain Llanelwy, gan awgrymu y bydd y galw am ddarpariaeth gofal plant yn y dyfodol yn fwy yn yr ardaloedd hyn.

Crynodeb o lefel y ddarpariaeth

DRAFT



Pan gwblhawyd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, roedd lefel y ddarpariaeth o ofal plant yn Sir Ddinbych fel a ganlyn:

Math o Ofal Plant	Wedi Cofrestru	Wedi'i Atal	Heb Gofrestru
Lleoliadau Gofal Dydd	50	0	0
Gwarchodwyr Plant	35	4	0
Gofal y Tu Allan i'r	15	1	0
Gofal Dydd Sesiynol	12	0	0
Crèche	0	0	0
Nanis	1	0	0
Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored	0	0	0
Cyfanswm	**113**	**5**	**1**

Y prif bwyntiau o ran defnydd presennol / galw yn y dyfodol

Yn ôl y canfyddiadau o ddata'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth 2021, mae'r niferoedd uchaf o leoedd gwag gofal plant gyda gwarchodwyr plant yn wardiau Gallt Melyd Prestatyn, a Llandrillo. Bu i ddarparwyr gofal dydd llawn gofnodi oddeutu 180 o leoedd gwag ar draws y sir, gyda 46 o'r rhain yn Ne Orllewin y Rhyl ac 20 yn Llangollen. Yn ystod y 12 mis diwethaf, dywedodd 68% o warchodwyr plant, 34% o ddarparwyr gofal dydd llawn, 40% o ddarparwyr gofal dydd sesiynol a 14% o

ddarparwyr gofal y tu allan i'r ysgol, eu bod yn cadw rhestr aros yn ystod y tymor. Dywedodd y mwyafrif o'r gwarchodwyr plant a'r darparwyr gofal dydd bod ganddynt 3-4 plentyn ar eu rhestrau aros yn y gwanwyn, yr haf a'r hydref yn 2021.

Er bod y rhan fwyaf o ddarparwyr yn darparu'r cynnig gofal plant, y wardiau â'r nifer lleiaf o ddarparwyr sy'n cynnig rhan o'r cynnig gofal plant 30 awr neu'r cynnig cyfan, yw Canol Dinbych, Llandrillo a Dwyrain Prestatyn. Yn ôl y data a gasglwyd yng ngwanwyn 2022, ar hyn o bryd, mae 360 o leoedd y Cynnig Gofal Plant heb eu cymryd ar draws Sir Ddinbych. Mae 13 o'r 100 o ddarparwyr gofal plant a gwblhaodd y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth yn cael cyllid i ddarparu lleoedd Dechrau'n Deg, yn cynrychioli 13% o ddarparwyr.

O'r 71 o ddarparwyr gofal dydd a gwblhaodd y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, mae 20 yn darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg yn bennaf ac mae 8 yn darparu gofal plant dwyieithog yn bennaf. O'r 29 o warchodwyr plant sy'n gweithredu yn Sir Ddinbych, mae 2 yn darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg ac mae 3 yn ddwyieithog. Ar hyn o bryd, dim ond 12 ward sydd â darparwyr a gwarchodwyr plant sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Yn yr hydref 2021, roedd 97 o blant ag anabledd neu ADY cofrestredig yn defnyddio lle gofal plant cofrestredig yn Sir Ddinbych, gyda 39 yn U001, 39 yn U002 a 19 yn U003.

O'r gwanwyn 2022 ymlaen, yr oriau agor mwyaf cyffredin yn ystod yr wythnos i ddarparwyr gofal dydd llawn, yn gweithio yn Sir Ddinbych, oedd 7:30am – 6:00pm, ac 8:00am – 5:30pm i warchodwyr plant. Ar hyn o bryd, mae 11 o wardiau gyda darparwyr sy'n cynnig gofal plant cyn 8am ac un ward sy'n cynnig gofal plant ar ôl 6pm - Llangollen.

Mae Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar wasanaethau yn gyffredinol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda busnesau dianghenraid yn cau a phobl yn gweithio o adref. Bu i lawer o ddarparwyr gofal plant gau yn ystod y pandemig ac er eu bod bellach wedi ailagor, bydd y galw a'r niferoedd gostyngedig yn ystod y cyfnod hwn yn dal i effeithio ar y rhai sy'n darparu gwasanaethau am beth amser eto. Roedd 41% o'r ymatebwyr a oedd yn ddarparwyr gofal dydd llawn a sesiynol, 53% a oedd yn warchodwyr plant a 57% a oedd yn ddarparwyr gofal y tu allan i'r ysgol, yn credu bod COVID-19 wedi effeithio ar gynaliadwyedd eu busnes, gyda llawer wedi gorfod cau ar ddechrau'r pandemig.

Y prif rwystrau i ddarpariaeth gofal plant a mynediad at ofal plant

O ran y rhwystrau i ofal plant a wynebir gan rieni sy'n gweithio, nodwyd ystod o resymau fel y manylir yn y siart isod.

DRAFT



O ran rhieni sy'n chwilio am waith neu hyfforddiant, nodwyd diffyg gofal plant fforddiadwy fel y prif rwystr i ofal plant, a soniwyd hefyd am ddiffyg hyblygrwydd. Y prif resymau a nodwyd oedd diffyg lleoedd a rotas hyblyg, a hefyd y ffaith nad yw gofal plant am ddim ar gael i rieni sydd dan hyfforddiant.

Y rhwystrau a wynebir gan rieni di-waith yw diffyg fforddiadwyedd yn bennaf, gydag un ymatebydd yn nodi nad yw rhieni'n gallu fforddio talu am ofal plant oherwydd incwm aelwyd isel neu ddibyniaeth ar fudd-daliadau. Roedd yr ymatebion a ddarparwyd yn amlinellu'r angen i adolygu Dechrau'n Deg, ochr yn ochr â diffyg cyfathrebu'n gyffredinol ynghylch y dewisiadau ar gael i rieni.

O ran y rhwystrau a wynebir gan deuluoedd incwm isel, nodwyd fforddiadwyedd a diffyg darpariaethau gofal plant gwahanol fel y prif faterion gan yr ymatebwyr (gweler isod), gyda'r ymatebwyr yn nodi bod llawer o weithwyr ar incwm is yn aml yn gweithio patrymau sifftiau annodweddiadol, ac felly gall diffyg argaeledd gofal plant cofrestredig yn ystod yr oriau hyn barhau hyn. O ran teuluoedd unig rieni, fforddiadwyedd a hyblygrwydd oedd y prif rwystrau a nodwyd gan ymatebwyr (gweler isod), gyda llawer o'r rhesymau a nodwyd uchod yn berthnasol i deuluoedd unig rieni, megis bod ar incwm isel, neu fod angen gofal mwy hyblyg oherwydd dim ond rhiant sengl sydd yn y cartref.

O ran teuluoedd o leiafrifoedd ethnig, roedd ystod o ymatebion yn nodi mathau a graddau amrywiol o rwystrau i ofal plant. Fodd bynnag, nodwyd hefyd nad oedd llawer o broblemau, os o gwbl, yn cael eu hwynebu gan deuluoedd o leiafrifoedd ethnig, gydag un budd-ddeiliad yn datgan nad oedd erioed wedi cael unrhyw gyswllt gan deulu o leiafrif ethnig mewn perthynas â gofal plant.

O ran teuluoedd gyda phlant ag ADY neu anableddau, nodwyd fforddiadwyedd a diffyg darpariaeth gofal plant gwahanol fel y prif rwystrau i ofal plant. Dywedodd un ymatebydd fod angen rhoi mwy o

gefnogaeth i'r sector gofal plant, i gynorthwyo â phlant sydd angen gofal un i un, gydag ymatebydd arall yn nodi nad oedd nifer digonol o staff i ddarparu'r gofal angenrheidiol i ddiwallu anghenion yr holl blant ag ADY. Roedd anallu i ddarparu cymorth un i un yn thema gyffredin drwy'r holl ymatebion .

Yn ôl canfyddiadau'r arolwg i rieni, mae 22.9% o rieni yn cael gofal plant cyfrwng Cymraeg, a 41.9% o rieni yn cael gofal plant drwy gyfrwng arall. I'r rhai hynny a nododd 'Na', dywedodd 59.5% y byddent yn hoffi cael mynediad i ofal plant cyfrwng Cymraeg.

Cafwyd 227 o ymatebion gan rieni / gofalwyr ar draws Cyngor Sir Ddinbych, a oedd yn cynrychioli 2.63% o'r holl ymatebwyr ar draws Cymru. Roedd nifer yr ymatebion gan rieni / gofalwyr wedi gostwng o 40% ers yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf. Hefyd, dim ond cyfran fach o rieni / gofalwyr y sir a gynrychiolir gan yr ymatebwyr i'r arolwg ar-lein, ac felly dylid cydnabod cyfyngiadau'r data a ddadansoddir isod.

Bylchau / anghenion nas diwallwyd

O'r ymchwil a gynhaliwyd drwy gydol yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, nodwyd y bylchau canlynol yn y sector gofal plant yn Sir Ddinbych. Bydd Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu ar ôl y cyfnod ymgynghori er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau hyn a bydd crynodeb o'r camau arfaethedig yn cael ei gynnwys yn fersiwn derfynol yr adroddiad hwn.

Gofal plant o ansawdd uchel, ond fe allai hygyrchedd fod yn well

Ar y cyfan, roedd rhieni a budd-ddeiliad yn ystyried ansawdd gofal plant ar draws Sir Ddinbych yn uchel. Fodd bynnag, nododd y rhieni hefyd nad oedd gofal plant yn addasu i ddiwallu eu hanghenion o ran cynyddu oriau gwaith oherwydd bod llawer o rieni sengl a theuluoedd â dau riant yn gweithio yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at ofal plant a oedd yn caniatáu iddynt weithio'n llawn amser.

Nifer isel yn manteisio ar hawliau a ariennir

Ar draws Sir Ddinbych, dywed darparwyr eu bod wedi cynnig dros 600 o leoedd y Cynnig Gofal Plant, fodd bynnag, dim ond 314 o'r rhain oedd wedi'u llenwi yng ngwanwyn 2022. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn cynnig lleoedd y Cynnig Gofal Plant, ac mae dros 10% o ddarparwyr yn cynnig lleoedd Dechrau'n Deg. Dylid rhoi ystyriaeth i sut mae'r cynigion hyn yn cael eu marchnata i rieni a sut mae rhieni yn cael eu hannog i fanteisio ar y cynigion hyn. Cyfeiriodd sawl darparwr at y nifer cynyddol o deuluoedd mewn gwaith a theuluoedd ar incwm isel a oedd yn defnyddio eu gwasanaethau a allai elwa o'r mathau hyn o ofal plant a ariennir.

Canfyddiad o ddiffyg darpariaeth Gymraeg

Nodwyd gan ddarparwyr a rhieni bod canfyddiad o ddiffyg darpariaeth Gymraeg ar draws rhannau o'r sir, yn enwedig y tu allan i ardal y Rhyl. Nodwyd hefyd ei bod yn anodd cael mynediad i hyfforddiant yn Gymraeg neu i gefnogi plant sy'n siarad Cymraeg, a'u bod yn cael anhawster wrth recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg.

DRAFT

Angen cymorth gyda recriwtio a chadw staff

Dywedodd nifer o ddarparwr gofal dydd bod eu staff wedi gadael yn ystod cyfnodau clo'r COVID, ar ôl mynd ar ffyrlo neu i newid gyrfaoedd. Soniodd y darparwyr hefyd am fwy o alw am ofal plant oherwydd bod gwarchodwyr plant yn ymddeol neu'n newid proffesiwn, a'u bod yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff o ansawdd uchel. Dylid rhoi ystyriaeth i hysbysebu swyddi a strategaeth gadw i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol da y Blynyddoedd Cynnar yn aros yn y swydd.

Un thema a oedd yn codi dro ar ôl tro drwy gydol y cyfnod ymgynghori oedd canfyddiad o ddiffyg cyllid i ddarparwyr gofal plant. Er i lawer gydnabod bod y grantiau a gynigiwyd yn ystod COVID-19 wedi bod o gymorth mawr, nid oeddent, yn gyffredinol, yn ddigon i gefnogi'r rhan fwyaf o leoliadau i gynnal lefelau staff neu gynyddu nifer y plant y gallent ofalu amdanynt. Nodwyd yn benodol gan leoliadau bod diffyg arian ar gyfer plant ag ADY neu anghenion meddygol cymhleth, gan arwain at anallu i ddarparu cymorth 1:1 i blant sydd ei angen.

Darpariaeth annigonol mewn perthynas ag ADY

Roedd rhieni a darparwyr o'r farn bod diffyg cymorth 1-1 a darpariaeth yn gyffredinol i blant ag ADY, gyda diffyg hyblygrwydd, fforddiadwyedd a lleoedd ar gael. Roedd rhieni o'r farn bod y ddarpariaeth yn anhygyrch, ac nid oedd yr ALl yn rhoi digon o ystyriaeth i anghenion plant. Dywedwyd bod angen buddsoddi mwy i ddiwallu anghenion plant ag ADY, yn enwedig o ran cynnig darpariaeth 1-1 ddigonol.

DRAFT

Canfyddiadau Allweddol

1.1 Canfyddiadau Allweddol o Ymchwil Demograffeg

- Tueddiadau poblogaeth amrywiol: ar y cyfan, disgwylir i'r boblogaeth o unigolion 0-18 mlwydd oed gynyddu yn Sir Ddinbych rhwng 2020-2023 o 20,509 yn 2020 i 20,683 yn 2023 cyn gostwng i 20,495 yn 2026. Disgwylir gweld y cynnydd mwyaf yn y grŵp oedran 12-18 mlwydd oed, ond disgwylir gweld gostyngiad yn niferoedd y grwpiau oedran eraill, yn cynnwys 0-4 oed. Gallai hyn awgrymu y bydd y galw am ofal plant y Blynyddoedd Cynnar yn lleihau yn Sir Ddinbych yn ystod y blynyddoedd i ddod, tuedd a adlewyrchir mewn ALl eraill yng Nghymru, megis Powys.
- Gwahaniaethau mewn meintiau poblogaethau wardiau ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Uwch (yn cynnwys wardiau amrywiol Sir Ddinbych, gweler yr Atodiad, Tabl 1): mae U001 ac U002 yn fwy nag U003, er enghraifft. Yn yr un modd, Gogledd Prestatyn, De Ddwyrain y Rhyl, De Orllewin y Rhyl a Gorllewin y Rhyl yw'r wardiau mwyaf yn Sir Ddinbych, ac Efenechtyd, Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal, Tremeirchion a Llandrillo yw'r lleiaf o ran y boblogaeth 0-4 oed. Yn ogystal, mae llawer mwy o blant 3-4 oed sy'n byw yn Sir Ddinbych ac yn derbyn gofal plant yn yr ALl na phlant o grwpiau oedran eraill, megis plant 0-2 oed. Felly, mae'r galw am ofal plant yn Sir Ddinbych i'w weld yn fwy mewn rhai grwpiau oedran nag eraill ar hyn o bryd.
- Anghyfartaledd economaidd rhwng clystyrau: mae gan rai clystyrau lefelau llawer uwch o ran diweithdra a phlant mewn aelwydydd ag hawlwyr budd-daliadau di-waith, nag eraill. Er enghraifft, yn 2017 cofnododd Gorllewin y Rhyl gymaint â 615 o unigolion 0-15 mlwydd oed yn ei ward a oedd yn byw mewn aelwydydd ag hawlwyr budd-daliadau diweithdra, tra bod eraill, megis Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal, ddim ond wedi cofnodi 5. Gallai hyn olygu fod gan rhai wardiau lefel uwch o anghyfartaledd economaidd rhyngddynt nag eraill, ac felly bydd rhai wardiau â nifer uwch o deuluoedd a fydd yn cael trafferth wrth geisio dod o hyd i ofal plant fforddiadwy.
- Tueddiadau mudo: mae'r mewnlif o fewnfudwyr rhyngwladol wedi cynyddu yn Sir Ddinbych rhwng 2013-2020, tra bod yr all-lif wedi lleihau. O ran mudo mewnol, mae'r mewnlif wedi aros yn sefydlog ar y cyfan, tra bod yr all-lif wedi lleihau'n fawr o 2013-2020.
- Nifer y disgyblion ag Anghenion Addysg Arbennig (AAA) / Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): Canfuwyd bod gan Sir Ddinbych gyfradd is na thri o'r pum Awdurdod Lleol cyfagos, a'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer disgyblion â datganiad AAA. At ei gilydd, mae gan Sir Ddinbych 3,151 o ddisgyblion ag Anghenion Addysg Arbennig, a 452 gyda Datganiad Anghenion Addysg Arbennig.

1.2 Canfyddiadau allweddol o'r arolwg i ddarparwyr gofal plant

- O'r gwanwyn 2022, yr oriau agor mwyaf cyffredin yn ystod yr wythnos i ddarparwyr gofal dydd llawn, yn gweithio yn Sir Ddinbych, oedd 7:30am – 6:00pm, ac 8:00am – 5:30pm i warchodwyr plant. Ar hyn o bryd, mae 11 o wardiau gyda darparwyr sy'n cynnig gofal plant cyn 8am ac un ward sy'n cynnig gofal plant ar ôl 6pm - Llangollen.
- Mae 13 allan o 100 o ddarparwyr yn cael cyllid i ddarparu lleoedd Dechrau'n Deg. Mae hyn yn cynrychioli 13% o ddarparwyr. O'r darparwyr hyn, mae 3 sy'n darparu darpariaeth

DRAFT

Dechrau'n Deg yn unig. Mae darparwyr Dechrau'n Deg wedi'u lleoli mewn 9 ward, ym Mhrestatyn a'r Rhyl yn bennaf.

- Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddarparwyr yn cynnig gofal dros nos yn Sir Ddinbych, gydag un gwarchodwr plant yn nodi eu bod yn cynnig gofal plant ar ddyddiau Sadwrn.
- Yn ystod y 12 mis diwethaf, dywedodd 68% o warchodwyr plant, 34% o ddarparwyr gofal dydd llawn, 40% o ddarparwyr gofal dydd sesiynol a 14% o ddarparwyr gofal y tu allan i'r ysgol, eu bod yn cadw rhestr aros yn ystod y tymor. Nodwyd bod rhestrau aros ar gyfer gwyliau ysgol yng: Nghanol Dinbych, Dinbych Isaf, Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern, Gallt Melyd Prestatyn, De Orllewin Prestatyn, De Ddwyrain y Rhyl, De Orllewin y Rhyl, Dwyrain Llanelwy.
- Yn y gwanwyn 2022, roedd 15 o leoedd gwag gyda gwarchodwyr plant ar gyfer gofal dydd llawn, ar draws y sir. Yng Ngallt Melyd Prestatyn a Llandrillo oedd yr achosion uchaf o leoedd gwag gyda gwarchodwyr plant. Bu i ddarparwyr gofal dydd llawn gofnodi oddeutu 180 o leoedd gwag ar draws y sir, gyda 46 o'r rhain yn Ne Orllewin y Rhyl ac 20 yn Llangollen.
- Nodwyd ariannu annigonol, anallu i ddarparu cymorth 1:1 a diffyg staff hyfforddedig a / neu unigolion â chymwysterau arbenigol fel y prif resymau a oedd yn wynebu darparwyr o ran y ddarpariaeth i blant ag ADY a / neu anableddau. Roedd y canfyddiad o ddiffyg cyllid ar gyfer plant ag ADY ac anableddau yn thema a oedd yn codi dro ar ôl tro drwy gydol y cyfnod ymgynghori, ynghyd â darparwyr yn nodi mwy o angen am staff cymwys a hyfforddiant addas i staff. Teimlwyd hefyd bod y ddarpariaeth i blant ag ADY yn annigonol.
- O ran y tueddiadau a welwyd, nodwyd gan y darparwyr, ers 2017, bod mwy o rieni sy'n gweithio, teuluoedd BAME a theuluoedd o ardaloedd gwahanol, yn ogystal â mwy o deuluoedd incwm isel a theuluoedd o gefndiroedd difreintiedig. Nodwyd hefyd bod mwy o rieni eisiau oriau hirach, gyda gostyngiad yn y galw cyffredinol oherwydd bod mwy o rieni yn gweithio gartref. Mae hefyd mwy o angen am ddarpariaeth estynedig ac yn ystod y gwyliau. Nodwyd gan rai, oherwydd bod gwarchodwyr plant yn gadael y proffesiwn, bod galw, yn enwedig galw am ddarpariaeth Gymraeg, wedi cynyddu.
- O ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg, o'r 71 o ddarparwyr gofal dydd a gwblhaodd y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, mae 20 yn darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg ac mae 8 yn darparu gofal plant dwyieithog. O'r 29 o warchodwyr plant, mae 2 yn darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg ac mae 3 yn ddwyieithog.
- O ran tueddiadau ehangach, nid yw'r mwyafrif o ddarparwyr gofal dydd llawn, darparwyr gofal dydd sesiynol a gwarchodwyr plant yn credu bod digon o leoedd ar gyfer plant 0-2 oed yn eu hardal ddaearyddol. Nid yw'r mwyafrif o warchodwyr plant o'r farn bod digon o leoedd i blant 3-4 oed.
- Yn ôl ymatebion y darparwyr, ymddengys bod llawer o wasanaethau, darpariaeth Gymraeg a'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant ar gael yn ardal y Rhyl yn bennaf, yn enwedig U002 Sir Ddinbych, sy'n cyfyngu'r hyn y gall darparwyr gofal plant o ardaloedd eraill gael mynediad ato.

1.3 Canfyddiadau allweddol o'r arolwg i rieni a'r grwpiau ffocws

- Mae rhieni'n hapus dros ben â'u darparwr gofal plant presennol; fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch fforddiadwyedd gofal plant, yn ogystal â chyfyngiadau o ran hyblygrwydd a hygyrchedd.
- Mae diffyg darpariaeth a chymorth 1-1 yn gyffredinol i blant ag ADY, gyda rhieni yn teimlo fel nad ydynt yn gallu cael mynediad at y ddarpariaeth, ac nad yw eu hanghenion yn cael sylw digonol gan yr awdurdod lleol.
- Mae fforddiadwyedd yn broblem fawr, mewn sawl achos mae'n rhwystro merched rhag dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod mamolaeth.
- Mae daearyddiaeth Sir Ddinbych yn gwneud gofal plant yn anhygyrch iawn oherwydd y pellter sy'n rhaid teithio i gyrraedd hyd yn oed y lleoliad agosaf sydd ar gael.

1.4 Canfyddiadau allweddol gan ysgolion

- Mae clybiau ar ôl ysgol yn boblogaidd ac mae llawer o ddisgyblion cynradd ac uwchradd yn bresennol.
- Mae'r clwb ar ôl yr ysgol yn hanfodol i blant cynradd, gyda llawer o rieni yn dibynnu ar y ddarpariaeth hon er mwyn gallu gweithio.
- Mae rhai plant wedi sylwi ar effaith COVID-19 ar ddarpariaeth, er dim ond ychydig o blant oedran ysgol gynradd, a phenaethiaid hefyd yn cydnabod y straen y mae hyn wedi'i gael ar adnoddau.
- Darperir clybiau brecwast am ddim mewn nifer fawr o leoliadau, ochr yn ochr â bron i ddau draean o ysgolion sy'n darparu gofal ar ôl ysgol.
- Mae Penaethiaid, ar y cyfan, yn credu bod digon o ddarpariaeth ar gael yn lleol i fodloni'r galw am ofal plant; fodd bynnag, mae llawer o benaethiaid yn dal i gael rhieni yn dod atynt yn chwilio am ddarpariaeth ychwanegol.

1.5 Canfyddiadau allweddol gan fudd-ddeiliaid a chyflogwyr

- Ar y cyfan, caiff y ddarpariaeth o ofal plant ei hystyried yn gadarnhaol gan fudd-ddeiliaid, yn enwedig o ran ansawdd y ddarpariaeth a'r ystod o ddarparwyr. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch darpariaeth Gymraeg Ddwyieithog a fforddiadwyedd y ddarpariaeth.
- Mae fforddiadwyedd, ynghyd â hyblygrwydd, yn rhwystrau allweddol i deuluoedd incwm isel a rhieni di-waith sy'n chwilio am ofal plant yn benodol.
- Mae angen i sicrhau bod trefniadau ariannu mwy cadarn ar waith i rieni a theuluoedd incwm isel, ochr yn ochr â chymorth i ddarparwyr eu hunain, er mwyn sicrhau nad yw costau'n parhau i gynyddu. Mae hefyd angen mwy o hyblygrwydd (megis gofal dros nos ac ar benwythnosau).
- Mae angen i'r ALl fod yn fwy gweithredol o ran hybu recriwtio ym maes gofal plant, gyda phwyslais penodol ar warchod plant.
- Mae staffio, yn enwedig o ran recriwtio a chadw staff, yn broblem fawr sydd angen ei datrys gan CSDd; mae prinder staff, ynghyd ag ymgyrchoedd recriwtio aflwyddiannus yn cael effaith niweidiol ar y ddarpariaeth sydd ar gael.

DRAFT

DRAFT

1. Cyflwyniad

Comisiynwyd Grŵp Cynghori Premier i gyflawni Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ar gyfer Sir Ddinbych yn yr hydref 2021. Comisiynwyd yr Asesiad hwn i ddiweddaru canfyddiadau'r Asesiad a gynhaliwyd yn 2017, yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ddiweddaru eu Hasesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant bob pum mlynedd. Cafodd yr asesiad ei danategu gan ymchwil a gynhaliwyd drwy sawl math o ymgynghori, yn cynnwys data Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Cymru a gwblhawyd gan ddarparwyr gofal plant, Arolwg a gwblhawyd gan rieni, cyfweliadau ychwanegol dros y ffôn gyda darparwyr, grwpiau ffocws gyda rhieni ac arolygon ar-lein gyda budd-ddeiliaid, cyflogwyr ac ysgolion.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r cyd-destun penodol ar gyfer darpariaeth gofal plant yn Sir Ddinbych o dymor yr hydref 2021. Mae'r galw gan rieni am ofal plant yn cynyddu, gan nad yw pob darpariaeth yn gallu darparu'r oriau hirach a'r gofal yn ystod y gwyliau y mae rhieni sy'n gweithio eu hangen. O ystyried hyn, mae'r adroddiad hwn yn ystyried y cyd-destun lleol yn Sir Ddinbych yn benodol, ac yn ceisio deall angen lleoliadau gofal plant, yn ogystal â'r galw gan rieni am leoedd ar lefel leol.

1.1 Y cyd-destun strategol ar gyfer digonolrwydd gofal plant

Mae Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesu Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016 , a wnaed o dan adran 26 o Ddeddf Gofal Plant 2006, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi asesiadau o ddigonolrwydd darpariaeth gofal plant (Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant) yn eu hardal bob pum mlynedd a pharhau i adolygu'r rhain. Mae'r Ddeddf hon yn egluro ac yn ehangu, mewn deddfwriaeth, ar y rhan hanfodol mae awdurdodau lleol yn ei chwarae fel arweinwyr strategol yn narpariaeth gofal plant yn lleol. Mae Deddf 2006 yn ategu'r fframwaith y mae awdurdodau lleol eisoes yn gweithio ynddo - mewn partneriaeth â'r sector preifat, gwirfoddol, annibynnol, cymunedol a'r sector a gynhelir - i siapio a sicrhau gwasanaethau plant ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar ddarpariaeth gofal plant hyblyg, cynaliadwy a digonol sy'n ymateb i anghenion rhieni.

Mae Deddf Gofal Plant 2006 yn tanategu Cynllun Gofal Plant presennol Llywodraeth Cymru, *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair*, ac yn gosod y sail statudol ar gyfer:

- Disgwyliad dilys y rhieni o ofal plant hygyrch ac o ansawdd uchel i blant a'u teuluoedd; a
- Chyfrifoldebau Awdurdodai Lleol i ddarparu gwybodaeth i rieni a darpar rieni i'w cefnogi yn eu rôl fel rhiant.

Mae hwn yn gam angenrheidiol i sicrhau darpariaeth gofal plant ddigonol, gan alluogi awdurdodau lleol i nodi bylchau a sefydlu cynlluniau gweithredu i ddiwallu anghenion gofal plant rhieni yn eu hardaloedd lleol. Mae'r canllawiau manwl cyfredol sy'n ymwneud â'r ddyletswydd hon wedi'u nodi yn y Canllawiau Statudol Gofal Plant (2016). Bydd hyn yn hysbysu awdurdodau lleol ynghylch unrhyw newidiadau i drefniadau a gofynion mewn perthynas ag Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

Ers i'r cyfyngiadau cenedlaethol gael eu llacio tua diwedd 2021, mae llawer o ddarparwyr gofal plant wedi dychwelyd yn ofalus at eu swyddogaethau rheolaidd yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Dros

y 6 i 12 mis nesaf, bydd y prif gwestiynau yn y sector gofal plant yn cynnwys, i ba raddau fydd y galw am ofal plant yn gwella, a pha mor gyflyn y gall ddychwelyd at synnwyr o normalrwydd, wrth i'r cymorth gan y llywodraeth gael ei dynnu'n ôl. Mae'n bwysig cydnabod y gallai llawer o ddarparwyr godi eu ffioedd ac addasu eu model busnes i leihau costau, neu mewn rhai achosion, gadael y farchnad yn gyfan gwbl i ddelio â'r risgiau tymor byr a thymor canolig hyn.

Mae arwyddion bod y sector yng Nghymru bellach yn sefydlogi ac yn adfer ar ôl y gwaethaf o'r pandemig. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd yn cymryd peth amser i'r sector adfer yn llwyr a disgwylir y bydd Covid-19 yn cael effaith barhaol ar wasanaethau gofal plant wrth iddynt ymateb i batrymau newydd o alw am ofal plant, a gymhellir gan y newidiadau ehangach i bob agwedd ar fywyd teuluol yn sgil y pandemig.

Mae'r asesiad wedi hysbysu Cyngor Sir Ddinbych ynghylch y sefyllfa bresennol o ran y cyflenwad a'r galw yn y sector gofal plant ac mae unrhyw feysydd i'w gwella wedi ffurfio sail y cynllun gweithredu y bydd yr awdurdod yn ei roi ar waith i ddatblygu'r sector gofal plant.

1.2 Asesiad digonolrwydd diweddaraf Sir Ddinbych

Cwblhawyd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant llawn diwethaf yn 2017. Roedd y fethodoleg ymchwil a'r data a gasglwyd yn seiliedig yn bennaf ar ddarparwyr gofal plant yn Sir Ddinbych yn cwblhau eu Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, a oedd yn ofynnol ar gyfer cofrestru gydag AGGCC. Roedd yn rhaid i bob lleoliad gwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth yn ystod 2 wythnos ddynodedig, un yn ystod y tymor ac un yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn gywir ar gyfer eu gwasanaeth ar yr adegau dynodedig hyn:

- 11 i 15 Gorffennaf 2016 ar gyfer darparwyr gofal plant yn ystod y tymor
- 1 - 5 Awst 2016 ar gyfer darparwyr gofal plant yn ystod gwyliau yn unig

Roedd yn rhaid cyflwyno'r data erbyn 17 Awst 2017. Cafodd y wybodaeth ei chasglu gan AGGCC a'i dosbarthu i Awdurdodau Lleol at ddiben cwblhau Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, i fod yn rhan o'r gronfa ddata erbyn 8 Tachwedd 2017. Cafodd y wybodaeth ei rhannu i'r atodiadau er mwyn dadansoddi'r cyflenwad a'r galw am ofal plant yn y sir. Cymerodd y broses hon 12 wythnos i'w chwblhau oherwydd y swm uchel o wybodaeth a dderbyniwyd.

Yn ystod y cyfnod hwn, bu i 76% o ddarparwyr gofal plant gwblhau'r Datganiad yn genedlaethol ac o fewn Sir Ddinbych gwelsom 74.9% o ddarparwyr gofal plant yn ei gwblhau. O'r 138 o ddarparwyr gofal plant yn Sir Ddinbych, bu i 105 ohonynt gwblhau eu Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth i'w adolygu; mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu'r 105 o ddarparwyr a gyflwynodd eu gwybodaeth.

Casglwyd data pellach i sicrhau bod safonau'r sector gofal plant yn diwallu anghenion rhieni yn Sir Ddinbych. Cafodd holiadur rhieni ei ddylunio gan Lywodraeth Cymru i gasglu gwybodaeth allweddol ynglŷn â'r cyflenwad a'r galw am ofal plant. Roedd copïau o'r holiadur ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac fe gawsant eu dosbarthu drwy ddatganiad i'r wasg a chyfryngau cymdeithasol, drwy ysgolion, rhaglenni estyn allan, grwpiau rhieni a babanod, busnesau lleol a darparwyr gofal plant. Cwblhawyd 317 o holiaduron ac maent wedi cyfrannu at y canfyddiadau.

Roedd prif argymhellion yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017 yn cynnwys:

- Gellid ehangu darpariaeth Dechrau'n Deg, a'i hymestyn i gynnwys gwarchodwyr plant yn cyflwyno'r cynllun. Mae nifer y lleoliadau sydd â'r hawl i gyflwyno darpariaeth Dechrau'n Deg ar hyn o bryd, yn cyfyngu dewis y rhieni. Mae 96% yn manteisio ar y cynllun, ac felly mae darparwyr y cynllun yn ei chael hi'n anodd ateb y galw â'r dyraniadau. Dylid ystyried opsiynau i ymestyn hygyrchedd y ddarpariaeth i'r sector gofal dydd llawn a gofal sesiynol.
- Nid oes yr un darparwr yn cynnig gofal plant y tu allan i oriau, gyda'r nos neu ar benwythnosau. Mae angen asesu'r galw i ddatblygu'r ddarpariaeth hon er mwyn sefydlu anghenion pob ardal. Mae angen cydnabod bod ystyriaeth o ran cynaliadwyedd i'r gwarchodwyr plant a'r meithrinfeydd yn gyfyngiad sy'n cyfrannu at ddarparu gofal plant y tu allan i oriau.
- Rhaid asesu'r galw am ddarpariaeth ymhellach, i benderfynu a oes angen cymorth i sefydlu darpariaeth Nani, gan nad oes darpariaeth o fewn yr awdurdod ar hyn o bryd. Mae hyn wedi cael ei amlygu wrth fynd i'r afael â'r diffyg darpariaeth o ofal plant y tu allan i oriau, dylid rhoi ystyriaeth i'r cymunedau sy'n datblygu a'r cyfleoedd cyflogaeth posibl yn y dyfodol.
- Rhaid cael gwybodaeth ychwanegol i ddarparwyr er mwyn rhoi eglurder i ddarparwyr gofal plant ynglŷn â'r cynnig gofal plant am ddim 30 awr. Bydd manylion clir ynglŷn â'r cynllun yn cael eu cyhoeddi i esbonio sut y bydd yn cael ei gyflawni.
- Gellid gwella'r ymgysylltiad rhwng y cyngor, rhieni a theuluoedd. Byddai mwy o gyfathrebu â rhieni yn cynorthwyo â chynllunio a datblygu gofynion y ddarpariaeth gofal plant yn Sir Ddinbych. Yn ogystal, gellid gwella ymgysylltiad gan y darparwyr a'r cyngor sir. Dylid rhoi argymhellion i AGGCC i sicrhau dealltwriaeth a hyder y darparwr yn y ddogfen Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, gan gynyddu cyfraddau ymateb.
- Mae angen gwneud gwaith ychwanegol i annog teuluoedd i fanteisio ar unrhyw gyllid neu gymorth y maent yn gymwys ar eu cyfer. Mae angen i'r wybodaeth fod yn fwy clir i helpu teuluoedd i ddeall eu hawl i gyllid gofal plant neu fudd-daliadau perthnasol i gael mynediad at leoliadau gofal plant. Bydd ffrydiau cyllido clir yn ymwneud â chredydau treth, credydau cynhwysol, gofal plant a gefnogir gan y cyflogwr, a gofal plant di-dreth yn cael eu harchwilio i gefnogi hyn yn bellach.

Mae'r data hwn wedi hysbysu'r awdurdod ynghylch y sefyllfa ddiweddaraf o ran y cyflenwad a'r galw yn y sector gofal plant ac wedi pwysleisio unrhyw feysydd sydd angen eu gwella. Yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn, mae cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu a bydd y cyngor yn ei fabwysiadu i ddatblygu gofal plant o fewn ei ffiniau.

1.3 Y farchnad gofal plant o'i chymharu â'r asesiad digonolrwydd diwethaf

Ers yr asesiad digonolrwydd diwethaf, mae gan Sir Ddinbych y darparwyr cofrestredig canlynol sy'n darparu gwasanaethau yn y sector:

- Meithrinfeydd gofal dydd llawn: 50
- Gwarchodwyr plant: 35
- Darparwyr y tu allan i oriau ysgol: 15

- Gofal dydd sesiynol: 12
- Crèche: 0
- Nanis: 1
- Darpariaeth chwarae mynediad agored 0

Mae gostyngiad wedi bod yn nifer y lleoliadau sy'n darparu gofal plant ers 2017. Mae data'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth o 2021 yn awr yn nodi bod 30 o warchodwyr plant yn weithredol, o'i gymharu â'r 46 a gofrestrwyd yn 2017, gyda gostyngiad mawr yn y ddarpariaeth y tu allan i oriau ysgol o 20 i 13, a gofal sesiynol o 27 i 10. Fodd bynnag, mae cynnydd bach wedi bod o ran darpariaethau gofal dydd llawn o 42 i 48.

DRAFT

2. Methodoleg

Cynhaliwyd y gwaith maes a'r ymchwil a lywiodd Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Cyngor Sir Ddinbych yn ystod y cyfnod Tachwedd 2021 - Ionawr 2022. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ar ofal plant o'r gwanwyn 2022. Cynhaliwyd sawl math o ymchwil a dadansoddiad:

- Ymchwil pen desg
- Arolwg i Rieni gan Lywodraeth Cymru
- Data'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru
- Cyfweliadau Ffôn â Chymorth Cyfrifiadur (CATI) gyda darparwyr gofal plant
- Grwpiau ffocws a chyfweliadau manwl gyda rhieni
- Holiadur ar-lein gyda budd-ddeiliaid allweddol
- Holiadur ar-lein gyda chyflogwyr
- Holiadur ar-lein gydag ysgolion, yn cynnwys penaethiaid, disgyblion cynradd a disgyblion uwchradd

2.1 Nodi materion demograffeg ac economaidd-gymdeithasol allweddol

Cynhaliwyd ymchwil pen desg strwythuredig er mwyn nodi ffactorau demograffeg ac economaidd-gymdeithasol a fydd yn cael dylanwad amlwg ar ddigonolrwydd ac addasrwydd darpariaeth gofal plant Blynyddoedd Cynnar a hawliau a ariennir drwy Sir Ddinbych ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Roedd yr ymchwil hwn yn canolbwyntio ar:

- Cyfanswm nifer y plant rhwng 0 a 4 oed sy'n cael gofal plant ym mhob ward ac amcangyfrif o nifer y plant rhwng 0 a 4 oed sy'n byw yn Sir Ddinbych
- Nifer y plant y rhagwelir y byddant yn byw yn Sir Ddinbych erbyn 2026 a chyfraddau geni lleol
- Tueddiadau mudo rhyngwladol a mudo mewnol i mewn ac allan
- Nifer yr achosion o gyflogaeth a diweithdra ar draws holl wardiau Sir Ddinbych
- Nifer yr achosion o blant yn Sir Ddinbych sy'n byw mewn aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra ac aelwydydd incwm isel
- Nifer yr achosion o deuluoedd â dim ond un rhiant
- Incwm cyfartalog aelwydydd yn ôl ward ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol
- Ethnigrwydd plant dros 5 oed
- Nifer yr achosion o blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
- Data iaith Gymraeg.

Defnyddiwyd amrywiaeth o ffynonellau i gynnal ymchwil, gan gynnwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Stats Cymru, yr Adran Addysg, yr Adran Gwaith a Phensiynau.

2.2 Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth a Chyfweliadau Ffôn â Chymorth Cyfrifiadur gyda Darparwyr

Mae gofyn i ddarparwyr gofal plant a chwarae yng Nghymru gwblhau Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Cymru ar-lein bob blwyddyn. Mae'r darparwyr yn cwblhau'r hunanasesiad yn yr haf, a chynhelir adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal yn eu gwasanaeth yn

DRAFT

ddiweddarach yn ystod y flwyddyn. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio gan AGC i ddeall y darparwyr ar draws Cymru a'r systemau sydd ganddynt ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a ddarperir i blant.

Cynhaliwyd arolygon Cyfweliad Ffôn â Chymorth Cyfrifiadur (CATI), gyda darparwyr gofal plant y Blynyddoedd Cynnar sy'n gweithredu ar draws Sir Ddinbych. Cyfwelwyd dau fath o ddarparwr gofal plant y Blynyddoedd Cynnar:

- Cynrychiolwyr darparwyr gofal dydd plant ar gyfer y sector Blynyddoedd Cynnar yn Sir Ddinbych, gan gynnwys meithrinfeydd a lleoliadau cyn ysgol
- **Gwarchodwr plant** cofrestredig

Bu i 38 o ddarparwyr gofal dydd llawn, 5 o ddarparwyr gofal dydd sesiynol, 9 o glybiau y tu allan i oriau ysgol a 19 o warchodwyr plant gwblhau'r arolwg. Roedd hyn yn sicrhau darpariaeth lawn ar draws y sir i gydbwyso'r data drwy gydol y broses.

Roedd yr arolwg yn gofyn cwestiynau penodol ynghylch digonolrwydd tra hefyd yn caniatáu trafodaeth fwy agored a oedd yn rhoi cyfle i ddarparwyr fynegi eu profiadau, eu meddyliau a'u pryderon. Roedd y cwestiynau'n ymdrin â'r cyflenwad a'r galw am ofal plant dros y cyfnod o 5 mlynedd ers yr Adolygiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf, gan gynnwys y lleoedd gwag a'r rhestrau aros ar gyfer gwahanol fathau o leoedd, yn ogystal â:

- Thueddiadau a arsylwyd a thueddiadau a ragwelir o ran y cyflenwad a'r galw am ofal plant y Blynyddoedd Cynnar dros y cyfnod o 5 mlynedd ers yr Adolygiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf
- Sut mae darparwyr gofal plant y Blynyddoedd Cynnar yn credu y gallai'r cyngor eu cefnogi orau/yn well, gan gynnwys o safbwynt cynaliadwyedd, cymorth ariannol a hyfforddiant
- Y cyflenwad o leoedd sy'n cynnig gofal plant yn ogystal â dosbarth meithrin y cyfnod sylfaen a Dechrau'n Deg
- Nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu llenwi a'u darparu, ynghyd â gwybodaeth am ddarpariaeth gofal plant mewn ieithoedd eraill
- Yr amseroedd y mae gofal plant ar gael a nifer y darparwyr gofal plant sy'n cynnig oriau gofal plant hyblyg
- Yr ystod o wasanaethau a gynigir gan ddarparwyr gofal plant e.e., gallai darpariaeth gofal dydd llawn ddarparu amrywiaeth o wasanaethau er enghraifft meithrinfa dydd llawn, gofal estynedig mewn grwpiau chwarae ac ati.
- Yr ystod o hyd sesiynau ac ystod y taliadau a gynigir gan ddarparwyr.

Ar gyfer darparwyr gofal dydd nad oedd yn gallu cwblhau'r arolwg ffôn , oherwydd galw cynyddol neu ddiffyg staff ar gael oherwydd COVID-19, neu methu â chysylltu â nhw dros y ffôn, cynigiwyd Cyfweliad Gwe â Chymorth Cyfrifiadur (CAWI) fel dewis amgen. Roedd hyn yn dilyn yr un fformat cyfweliad a chwestiynau â'r cyfweliad CATI, drwy gyswllt gwe y gallai darparwyr ei ddefnyddio a'i gwblhau yn eu hamser eu hunain.

2.3 Arolwg Llywodraeth Cymru a Grwpiau Ffocws gyda Rhieni

DRAFT

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom hefyd ystyried y galw am ofal plant drwy ddadansoddi anghenion rhieni/gofalwyr, a nodwyd drwy arolwg a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru fel Arolwg Clyfar ar lefel ALl .

Ategwyd hyn gan grwpiau ffocws a chyfweliadau manwl yn cynnwys rhieni/gofalwyr a allai wynebu rhwystrau i ofal plant. Cynhaliwyd y sesiynau hyn gyda'r grwpiau canlynol:

- Rhieni sy'n gweithio a rhieni sy'n chwilio am waith neu gyfleoedd hyfforddi, gan sicrhau sylw i ystod eang o alwedigaethau
- Aelwydydd di-waith, teuluoedd incwm isel
- Teuluoedd rhieni sengl
- Teuluoedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol
- Teuluoedd gyda phlant sydd ag ADY
- Teuluoedd sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Gwnaeth pob sesiwn grŵp ffocws bara tua 45 munud ac roeddent yn cynnwys pedwar i ddeg o gyfranogwyr fesul grŵp. Roedd hyn yn sicrhau bod gan bob cyfranogwr yr amser i gyfrannu a rhannu eu meddyliau.

Cynlluniwyd y grwpiau ffocws mewn ffordd a oedd yn annog rhieni/gofalwyr i drafod eu profiadau gofal plant tra hefyd yn casglu nifer o bwyntiau data demograffeg allweddol yn canolbwyntio ar:

- Rhwystrau canfyddedig a gwirioneddol i'r nifer sy'n manteisio arnynt
- Dewisiadau rhieni o ran y lleoliadau lle maent yn lleoli eu plant
- Pam nad yw rhieni/gofalwyr cymwys yn defnyddio eu hawliau a ariennir
- Darpariaeth gofal plant lleol i blant ag ADY.

2.4 Arolwg Ar-lein gyda Phrifathrawon a Disgyblion

Yn ogystal ag ymgynghori â rhieni/gofalwyr, gwnaethom lunio arolwg ar-lein a oedd yn addas i blant ar gyfer plant a phobl ifanc, ac arolygon ysgolion cynradd ac uwchradd ar wahân. Roedd yr arolygon yn gofyn i blant a phobl ifanc am ddarpariaeth ar ôl ysgol, gan ganolbwyntio'n benodol ar fynediad, argaeledd ac a oedd eu hoff ddewisiadau ar gael. Darparwyd arolygon hefyd ar gyfer penaethiaid yr ysgolion, yn cynnwys cwestiynau am ofal estynedig gan gynnwys clybiau brecwast a darpariaeth ar ôl ysgol.

2.5 Arolwg Ar-lein gyda Budd-ddeiliaid a Chyflogwyr

Ymgynghorodd Grŵp Cynghori Premier ag amrywiaeth o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys pobl â diddordeb mewn gofal plant a'u cynrychiolwyr, cyflogwyr lleol a'r bobl yn eu cynrychioli nhw a sefydliadau cyflogwyr ac ALlau cyfagos, i gasglu eu barn ar yr economi leol, rhwystrau i ofal plant a allai effeithio ar y gweithlu a thueddiadau a ddaeth i'r amlwg dros y blynyddoedd diwethaf. Buom yn ymgynghori ag amrywiaeth o gyflogwyr ar draws gwahanol ddiwydiannau i ddarparu'r sampl mwyaf cynrychioliadol posibl o fewn yr amserlen.

Cynhaliwyd ymgynghoriad â budd-ddeiliaid a chyflogwyr drwy arolwg ar-lein a oedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dyluniwyd yr arolwg ar-lein yn defnyddio Survey Monkey a'i e-bostio at fudd-ddeiliaid a chyflogwyr a nodwyd drwy ymarfer mapio budd-ddeiliaid.

2.6 Dadansoddi Bylchau ac Argymhellion

Ar ôl cwblhau'r cam ymgynghori, ysgrifennodd Grŵp Cynghori Premier grynodeb o'n canfyddiadau ynghylch digonolrwydd lleoedd ar draws Sir Ddinbych. Gwnaethom ddefnyddio technegau amrywiol i gael adroddiad cywir ar y bylchau presennol mewn digonolrwydd gofal plant ledled yr awdurdod drwy fapio'r cyflenwad i'r galw. Wedi hynny, yn ôl grwpiau oedran penodol/priodol, dadansoddwyd ystod ac amrywiaeth y ddarpariaeth sydd ar gael yn y sir.

Yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, mae Grŵp Cynghori Premier wedi darparu argymhellion strategol pellach ar gyfer sut y gallai Sir Ddinbych fynd i'r afael â bylchau yn y cyflenwad neu'r galw a mynd i'r afael ag effaith COVID-19. Bydd Grŵp Cynghori Premier yn drafftio cynllun gweithredu manwl ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych, y bydd yr awdurdod yn gallu ei weithredu ar unwaith. Bydd hyn yn cynnwys cyfres o argymhellion sy'n nodi camau gweithredu cyraeddadwy a realistig yn seiliedig ar werth am arian y gallant eu gweithredu.

DRAFT

3. Nodi Materion Demograffeg ac Economaidd-gymdeithasol Allweddol

Mae'r adran ganlynol yn cyflwyno dadansoddiad, o'r gwanwyn 2022, sy'n canolbwyntio ar sut y gallai ffactorau demograffeg ac economaidd-gymdeithasol effeithio ar y galw sydd i ddod ac yn lleol am leoedd gofal plant.

Mae'r setiau data a'r metrigau perthnasol wedi'u halinio â Sir Ddinbych gan gynnwys:

- Poblogaethau presennol 0 – 4 oed ac amcanestyniadau/rhagolygon
- Cyfraddau geni ar draws yr ALl ers 2017 er mwyn helpu i lywio'r dyraniad gofal plant sydd i ddod
- Nifer yr achosion o deuluoedd sy'n gweithio (sy'n gymwys i fanteisio ar y cynnig gofal plant 30 awr) ac incwm cyfartalog aelwydydd
- Nifer yr achosion o blant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel
- Nifer yr achosion o blant ag ADY.

Amcan y dadansoddiad canlynol yw ystyried i ba raddau y gallai fod angen i gynllunwyr gofal plant yn Sir Ddinbych barhau i flaenoriaethu eu galluoedd i helpu i sefydlu neu ysgogi rhagor o leoedd gofal plant mewn ardaloedd daearyddol penodol wedi'u targedu. Archwiliwyd amrywiaeth o feysydd, er enghraifft tueddiadau mudo, nifer y plant sy'n byw yn Sir Ddinbych yn ôl grŵp oedran a nifer y plant ag ADY.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu trosolwg o'r tueddiadau poblogaeth newidiol yn Sir Ddinbych i nodi sut y bydd y galw am ofal plant yn cael ei effeithio. Bydd amrywiaeth o feysydd yn cael eu harchwilio, er enghraifft tueddiadau mudo, nifer y plant sy'n byw yn Sir Ddinbych yn ôl grŵp oedran a nifer y plant ag Anghenion Addysg Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae prif ganfyddiadau'r adroddiad wedi'u crynhoi isod:

- Tueddiadau poblogaeth amrywiol: ar y cyfan, disgwylir i'r boblogaeth o unigolion 0-18 mlwydd oed gynyddu yn Sir Ddinbych rhwng 2020-2023 o 20,509 yn 2020 i 20,683 yn 2023 cyn gostwng i 20,495 yn 2026. Disgwylir gweld y cynnydd mwyaf yn y grŵp oedran 12-18 mlwydd oed, ond disgwylir gweld gostyngiad yn niferoedd y grwpiau oedran eraill, yn cynnwys 0-4 oed. Gallai hyn awgrymu y bydd y galw am ofal plant y Blynyddoedd Cynnar yn lleihau yn Sir Ddinbych yn ystod y blynyddoedd i ddod, tuedd a adlewyrchir mewn ALl eraill yng Nghymru, megis Powys.
- Gwahaniaethau mewn meintiau poblogaethau wardiau ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Uwch (yn cynnwys wardiau amrywiol Sir Ddinbych, gweler yr Atodiad, Tabl 1): mae U001 ac U002 yn fwy nag U003, er enghraifft. Yn yr un modd, Gogledd Prestatyn, De Ddwyrain y Rhyl, De Orllewin y Rhyl a Gorllewin y Rhyl yw'r wardiau mwyaf yn Sir Ddinbych, ac Efenechtyd, Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal, Tremeirchion a Llandrillo yw'r lleiaf o ran y boblogaeth 0-4 oed. Yn ogystal, mae llawer mwy o blant 3-4 oed sy'n byw yn Sir Ddinbych ac yn derbyn gofal plant yn yr ALl na phlant o grwpiau oedran eraill, megis plant 0-2 oed. Felly, mae'r galw am ofal plant yn Sir Ddinbych i'w weld yn fwy mewn rhai grwpiau oedran nag eraill ar hyn o bryd.

DRAFT

- Anghyfartaledd economaidd rhwng clystyrau: mae gan rai clystyrau lefelau llawer uwch o ran diweithdra a phlant mewn aelwydydd ag hawlwyr budd-daliadau di-waith, nag eraill. Er enghraifft, yn 2017 cofnododd Gorllewin y Rhyl gymaint â 615 o unigolion 0-15 mlwydd oed yn ei ward a oedd yn byw mewn aelwydydd ag hawlwyr budd-daliadau diweithdra, tra bod eraill, megis Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal, ddim ond wedi cofnodi 5. Gallai hyn olygu fod gan rhai wardiau lefel uwch o anghyfartaledd economaidd rhyngddynt nag eraill, ac felly bydd rhai wardiau â nifer uwch o deuluoedd a fydd yn cael trafferth wrth geisio dod o hyd i ofal plant fforddiadwy.
- Tueddiadau mudo: mae'r mewnlif o fewnfudwyr rhyngwladol wedi cynyddu yn Sir Ddinbych rhwng 2013-2020, tra bod yr all-lif wedi lleihau. O ran mudo mewnol, mae'r mewnlif wedi aros yn sefydlog ar y cyfan, tra bod yr all-lif wedi lleihau'n fawr o 2013-2020.
- Nifer y disgyblion ag Anghenion Addysg Arbennig (AAA) / Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): Canfuwyd bod gan Sir Ddinbych gyfradd is na thri o'r pum Awdurdod Lleol cyfagos, a'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer disgyblion â datganiad AAA. At ei gilydd, mae gan Sir Ddinbych 3,151 o ddisgyblion ag Anghenion Addysg Arbennig, a 452 gyda Datganiad Anghenion Addysg Arbennig.

3.1 Amcanestyniad o Boblogaeth Sir Ddinbych

Map ward etholiadol o Sir Ddinbych



Tabl 1 - Amcanestyniadau poblogaeth Sir Ddinbych (ar draws yr ALl) ar gyfer y pum mlynedd nesaf ac ar gyfer y tair blynedd flaenorol (Ffynhonnell: Stats Cymru 2018)[1]

[1] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2018-based/populationprojections-by-localauthority-year

Blwyddyn	Poblogaeth
2018	95,330
2019	95,490
2020	95,655
2021	95,836
2022	96,021
2023	96,198
2024	96,358
2025	96,500
2026	96,636
2027	96,750

Mae'r boblogaeth yn Sir Ddinbych wedi cynyddu'n raddol yn y tair blynedd cyn 2021 o 95,330 yn 2018 i 95,836 yn 2021, sy'n cynrychioli cynnydd o 506 o bobl. Rhagwelir y bydd y duedd hon o ran poblogaeth gynyddol yn parhau am bum mlynedd o 2022 i 2027, a disgwylir y bydd nifer y trigolion yn y sir yn cyrraedd oddeutu 96,750 yn y flwyddyn honno. Felly, mae'r ffigyrau hyn yn dangos, er i dwf y boblogaeth barhau i gynyddu yn araf yn Sir Ddinbych, nid oes unrhyw dystiolaeth o ddirywiad ym mhoblogaeth y sir.

3.2 Plant sy'n cael gofal plant yn Sir Ddinbych

Fel y dangosir yn Siart 1 (gweler yr Atodiad , Tabl 2) U003 Sir Ddinbych oedd â'r nifer mwyaf o blant a oedd yn cael gofal plant, sef 1,004 o blant, ac yna U001 Sir Ddinbych oedd â'r nifer lleiaf o blant yn defnyddio gwasanaethau gofal plant. Roedd 1,517 o blant 3-4 oed yn cael gofal plant yn Sir Ddinbych, sef y nifer mwyaf o blant 0-4 oed a oedd yn cael gofal plant o fewn yr ALl. Yna 619 o blant dwy oed a 475 o blant 0-1 oed.

DRAFT

Siart 1 - Nifer y plant sy'n cael gofal plant ym mhob Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Uwch yn ôl y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth



3.3 Poblogaeth bresennol ac amcanestynedig plant a phobl ifanc sy'n byw yn Sir Ddinbych

Siart 2 -Nifer bras y plant a phobl ifanc rhwng 0 a 4 oed sy'n byw yn Sir Ddinbych ers canol 2020 (ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Medi 2021)[2]

[2] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/wardlevelmidyearpopulationestimatesexperimental



Mae Siart 2 (gweler yr Atodiad, Tabl 3) yn amlinellu nifer amcangyfrifedig y plant sy'n byw yn Sir Ddinbych, yn unol ag amcangyfrifiadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2020, gan gyd-fynd â'r grwpiau oedran canlynol: O dan 2 oed, 2 oed, 3-4 oed. Sir Ddinbych U002 yw'r ardal fwyaf a Sir Ddinbych U001 yw'r ardal leiaf. De Ddwyrain y Rhyl, Gorllewin y Rhyl a De Orllewin y Rhyl oedd y wardiau â'r nifer mwyaf o blant 0-4 oed, sef 490, 414 a 403 yn y drefn honno. Ar y llaw arall, Efenechtyd, Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal, Tremeirchion a Llandrillo yw'r lleiaf o ran poblogaeth plant 0-4 oed.

Tabl 2 - Nifer y plant y rhagwelir y byddant yn byw yn Sir Ddinbych erbyn 2026 (ffynhonnell: StatsCymru, 2018)[3]

Carfan Oedran	Poblogaeth Breswyl 2020	Poblogaeth Breswyl 2023	Newid yn y Nifer 2020 – 2023	Poblogaeth Breswyl 2026	Newid yn y Nifer 2020 – 2026
0 – 1 oed	1942	1849	-93	1812	-130
2 oed	960	954	-6	927	-33
3 – 4 oed	2039	1942	-97	1899	-140
5 – 7 oed	3305	3091	-214	2975	-330
8 - 11 oed	4626	4563	-63	4353	-273
12 – 18 oed	7682	8284	+602	8529	+847
Cyfanswm	20554	20683	+129	20495	-59

[3] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2018-based/populationprojections-by-localauthority-year

0 - 18					

Rhagwelir y bydd y grŵp oedran 12–18 oed yn gweld y cynnydd mwyaf o'r grwpiau i gyd, tra disgwylir i'r gostyngiad mwyaf yn y niferoedd gael ei weld ymysg plant 5-7 oed. Yn gyffredinol, mae nifer yr unigolion 0-18 oed yn debygol o gynyddu o 129 o blant rhwng 2020 a 2023. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y nifer yn gostwng eto erbyn 2026, gyda gostyngiad cyffredinol o 59 o blant rhwng 0 a 18 oed rhwng 2020 a 2026.

3.4 Cyfraddau Geni yn Sir Ddinbych

Tabl 3 - Cyfraddau Geni yn Sir Ddinbych rhwng 2018-2020 (Ffynhonnell: NOMIS a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021)[4][5]

Dyddiad	Genedigaethau Byw
2018	908
2019	979
2020	897

Mae'r data yn Nhabl 3 yn dangos bod cyfradd y genedigaethau byw wedi gostwng rhwng 2019 a 2020, tra ei bod yn flaenorol wedi cynyddu o 71 o enedigaethau byw rhwng 2018 a 2019. Er bod cyfradd y genedigaethau byw yn 2019 yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, gostwng a wnaeth eto yn 2020.

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae nifer y genedigaethau yn y flwyddyn hyd at ganol 2020 ledled y DU wedi gostwng i'w lefel isaf ers 2003, sy'n awgrymu nad Sir Ddinbych yw'r unig un sy'n gweld gostyngiad yn y gyfradd o enedigaethau byw. Nodwyd gostyngiadau mewn cyfraddau ffrwythlondeb ledled y DU fel rheswm dros hyn ar lefel genedlaethol, tra bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn nodi na ellir priodoli'r gostyngiad yn nifer y genedigaethau i COVID-19. Y rheswm am hyn yw bod yr holl enedigaethau a gofnodwyd hyd at ganol 2020 yn deillio o feichiogi a ddigwyddodd cyn y pandemig ym mis Mawrth 2020.

Tabl 4 - Genedigaethau Byw i Drigolion Cymru yn ôl y Bwrdd Iechyd Lleol ac Oedran y Fam (Ffynhonnell: StatsCymru 2017)[6]

Oedran y Fam	Nifer
Cyfanswm	979
19 neu iau	53
20-24	200
25-29	300
30-34	277
35-39	124

[4] https://www.nomisweb.co.uk/query/asv2htm.aspx

[5] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/annualmidyearpopulationestimates/mid2020

[6] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Primary-and-Community-Activity/Community-Child-Health/livebirthstowelshresidents-by-localhealthboard-mothersage

40+	25
Heb ei nodi	Heb ei restru (heb ei gynnwys yn y cyfanswm terfynol)

Mae'r ffigyrau uchod yn ymwneud â mamau sy'n rhoi genedigaeth o fewn Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, oherwydd y Bwrdd sy'n darparu'r unig ystadegau sydd ar gael ar gyfer Sir Ddinbych. Mae'r data yma'n dangos, o'r 979 o famau yn Sir Ddinbych a gofnodwyd yn 2017 (y flwyddyn â'r data diweddaraf), mae'r grŵp oedran mwyaf cyffredin ymhlith y mamau yn Sir Ddinbych oedd y grŵp 25-29 oed gyda 300 o famau. I'r gwrthwyneb, dim ond 25 o famau 40 oed a hŷn a gofnodwyd fel mamau a roddodd enedigaeth o fewn y Bwrdd Iechyd Lleol. Un casgliad y gellid dod iddo wrth edrych ar yr ystadegau hyn, yw bod y rhan fwyaf o'r mamau sy'n rhoi genedigaeth yn Sir Ddinbych rhwng 20-34 oed, ac felly mae'n debygol y bydd y galw am ofal plant yn y sir yn dod gan deuluoedd iau.

3.5 Mudo

Tabl 5 - Tueddiadau (a) mudo rhyngwladol a (b) mudo mewnol i mewn ac allan o Sir Ddinbych a welwyd ers 2013 - 2014 hyd at 2018 – 2020 (ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020) [7]

Blwyddyn	2013 – 2014	2014 – 2015	2015 – 2016	2016 – 2017	2017 – 2018	2018 – 2019	2019 - 2020
Mudo Rhyngwladol							
Mewn							
Sir Ddinbych	201	234	217	203	336	302	292
Allan							
Sir Ddinbych	143	145	105	148	178	143	107
Mudo Net	58	89	112	55	158	159	185
Mudo Mewnol							
Mewn							
Sir Ddinbych	4714	4340	4394	4346	4358	4577	4565
Allan							
Sir Ddinbych	4361	4271	4201	4000	4052	4099	3379
Mudo Net	353	69	193	346	306	478	1186

[7] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/migrationwithintheuk/datasets/localareamigrationindicatorsunitedkingdom

O ran mudo rhyngwladol, mae Tabl 5 yn dangos cynnydd cyson o ran mudo i mewn rhwng 2013 a 2020, ac ar y cyfan, patrwm cyson o ran mudo allan sydd wedyn yn gostwng erbyn 2020.

Mae'r patrwm mudo mewnol i mewn i Sir Ddinbych wedi gostwng rhywfaint rhwng 2013 a 2020 ond mae hefyd yn dangos arwyddion y gallai fod yn cynyddu'n araf. Mae'r patrwm mudo mewnol allan yn dangos gostyngiad mwy amlwg o ran niferoedd. Felly, mae mudo i mewn i Sir Ddinbych yn cynyddu'n raddol a lefel y mudo allan yn gostwng. Gallai'r cynnydd o ran mudo rhyngwladol a mewnol i mewn awgrymu y bydd y galw am ofal plant yn cynyddu yn Sir Ddinbych yn y blynyddoedd i ddod.

Gallai effeithiau COVID-19 a Brexit arwain at ostyngiad yn nifer y bobl sy'n dod i Gymru a gallai arwain at fwy o bobl yn gadael yn hytrach na dod i mewn, gan arwain at fudo net negyddol. Mae sawl rheswm posibl am hyn. Yn gyntaf, mae Arsyllfa Mudo Prifysgol Rhydychen yn nodi oherwydd bod System Fewnfudo Newydd y DU sy'n seiliedig ar Bwyntiau, yn gosod mwy o gyfyngiadau ar nifer y gweithwyr â llai o sgiliau o'r UE sy'n cael dod i'r DU, bydd hyn yn debygol o gyfrannu at ostyngiad o ran y nifer sy'n mudo a allai effeithio ar Awdurdodau Lleol megis Sir Ddinbych.[8]

Yn ail, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi bod cyfradd mudo mewnol wedi gostwng ledled y DU yn y cyfnod hyd at ganol 2020, a oedd yn ostyngiad o 11.5% o 2019. Y rheswm a awgrymwyd am hyn oedd bod y cyfnod clo cenedlaethol a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2020 wedi arwain at lai o bobl yn gallu symud cartref a allai fod wedi cyfrannu'n rhannol at y gostyngiadau a welwyd yn lefelau mudo i mewn ac allan o Sir Ddinbych yn 2020. Nid yw effaith lawn y ddau ffactor yn hysbys eto, fodd bynnag, dylid ystyried y ddau wrth amcangyfrif nifer y lleoedd gofal plant sydd eu hangen yn Sir Ddinbych.

Mae'r mudo net, y cyfeirir ato yn adrannau Mudo Rhyngwladol a Mudo Mewnol Tabl 5, yn cyfeirio at gyfradd y mudo i mewn wedi tynnu nifer y mudiadau allan.

3.6 Ethnigrwydd

Tabl 6 - Nifer y disgyblion 5 oed neu hŷn yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth ac ethnigrwydd ar gyfer 2020/21 (Ffynhonnell: StatsCymru, 2021)[9]

Ethnigrwydd	Nifer y disgyblion 5 oed neu hŷn
Gwyn Prydeinig	12,995
Teithiwr	10
Unrhyw gefndir gwyn arall	250
Gwyn a Du Caribïaidd	70
Gwyn a Du Affricanaidd	40
Gwyn ac Asiaidd	100
Unrhyw gefndir cymysg arall	170
Indiaidd	35

[8] https://migrationobservatory.ox.ac.uk/resources/commentaries/calculating-the-bill-the-projected-impacts-of-the-points-based-immigration-system-after-brexit/

[9] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Ethnicity-National-Identity-and-Language/pupils5andover-by-localauthority-ethnicbackground

Pacistanaidd	20
Bangladeshaidd	50
Unrhyw gefndir Asiaidd arall	20
Caribïaidd	Heb ei nodi
Affricanaidd	Heb ei nodi
Unrhyw gefndir du arall	Heb ei nodi
Tsieineaidd neu Brydeinig Tsieineaidd	10
Unrhyw gefndir ethnig arall	110
Anhysbys neu heb ei nodi	45

Mae'r ffigyrau uchod yn dangos mai Gwyn Prydeinig yw mwyafrif y disgyblion yn Sir Ddinbych, gyda 12,995 wedi'u cofnodi yn 2020/21. I'r gwrthwyneb, nodwyd y nifer lleiaf o ddisgyblion yn y grwpiau o gefndiroedd Teithwyr Gwyn neu Dsieinïaidd neu Brydeinig Tsieinïaidd, gyda 10 o ddisgyblion 5 oed neu hŷn ym mhob grŵp.

3.7 Cyflogaeth

Mae Siart 3 (gweler yr Atodiad, Tabl 4) yn dangos amlder oedolion sydd (neu a oedd) yn 'economaidd weithgar' sy'n awgrymu eu bod mewn cyflogaeth. Gan fod y data diweddaraf sydd ar gael yn dod o 2011, mae'n bosibl bod yr ystadegau cyflogaeth wedi newid, yn enwedig gyda'r effaith y mae COVID-19 wedi'i gael ar lefelau cyflogaeth ledled y DU. Mae'r data'n dangos mai Llandrillo oedd y ward â'r ganran uchaf o bobl a oedd mewn cyflogaeth neu'n 'economaidd weithgar', ar 82.8%. Fodd bynnag, dim ond 62.6% a nodwyd yn economaidd weithgar yng Ngorllewin y Rhyl.

Mae data diweddaraf Nomis sy'n cwmpasu cyfraddau cyflogaeth fesul awdurdod lleol rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Mehefin 2021 yn dangos bod gan Sir Ddinbych 74.2% o'i phoblogaeth a oedd yn cael ei hystyried yn economaidd weithgar, a oedd ychydig yn is na'r 75.4% a gofnodwyd ledled Cymru yn yr un cyfnod. Roedd hyn hefyd yn is na'r gyfradd o 78.4% a gofnodwyd ar gyfer y DU yn yr un cyfnod. Felly, mae'r data hwn yn dangos fod canran is o boblogaeth Sir Ddinbych wedi'i chofnodi'n economaidd weithgar, o gymharu â Chymru a'r DU. Gallai hyn olygu efallai y bydd y galw am leoedd gofal plant gan rieni sy'n gweithio, ychydig yn is yn Sir Ddinbych o gymharu â gweddill Cymru.

DRAFT

Siart 3 - Nifer yr achosion o gyflogaeth a diweithdra yn Sir Ddinbych fesul ward (NOMIS 2020 gan ddefnyddio data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol 2011)[1011]



[10] https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/ward2011/1140858536/report.aspx
[11] https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157386/report.aspx

Siart 4 - Nifer yr achosion o blant sy'n byw mewn aelwydydd ag hawlwyr budd-daliadau diweithdra ym mis Mai 2017 (Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau 2019)[12]



[12] https://www.gov.uk/government/statistics/children-in-out-of-work-benefit-households-31-may-2017

Fel y dangosir yn Siart 4 (gweler yr Atodiad, Tabl 5), De Orllewin y Rhyl a Gorllewin y Rhyl oedd â'r nifer uchaf o blant yn byw mewn aelwydydd ag hawlwyr budd-daliadau diweithdra yn 2017, sef 660 a 690 yn y drefn honno, gyda'r nifer lleiaf, sef 5 o blant, yn Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal.

Mae llawer mwy o blant mewn aelwydydd ag hawlwyr mewn rhai wardiau nag eraill, er mae'n bosib bod y data diweddaraf o 2017 wedi newid oherwydd effaith economaidd COVID-19. Mae'n bosib y bydd wardiau â niferoedd uwch o blant yn y categori hwn â llai o alw am ddarpariaeth gofal plant o'u cymharu â wardiau eraill sydd llai o blant sy'n byw mewn aelwydydd ag hawlwyr budd-daliadau diweithdra. Y rheswm am hyn yw bod rhieni sy'n gweithio fel arfer angen gofal plant yn fwy na rhieni sy'n ddi-waith.

3.8 Nifer y teuluoedd â phlant dibynnol

Tabl 7 - Nifer y teuluoedd â phlant dibynnol (Ffynhonnell: Data Cyfrifiad y DU 2011)[13]

Categori	Nifer
Pob categori: plant dibynnol yn y teulu	27,547
Dim plant dibynnol yn y teulu	16,515
Un plentyn dibynnol 0 i 4 oed yn y teulu	1,574
Un plentyn dibynnol 5 i 11 oed yn y teulu	1,108
Un plentyn dibynnol 12 i 18 oed yn y teulu	2,368
Dau blentyn dibynnol yn y teulu; yr ieuengaf rhwng 0 a 4 oed	1,545
Dau blentyn dibynnol yn y teulu; yr ieuengaf rhwng 5 ac 11 oed	1,586
Dau blentyn dibynnol yn y teulu; yr ieuengaf rhwng 12 a 18 oed	997
Tri neu fwy o blant dibynnol yn y teulu; yr ieuengaf rhwng 0 a 4 oed	1,009
Tri neu fwy o blant dibynnol yn y teulu; yr ieuengaf rhwng 5 ac 11 oed	698
Tri neu fwy o blant dibynnol yn y teulu; yr ieuengaf rhwng 12 a 18 oed	147
Cyfanswm y plant dibynnol	**19,726**

Mae'r data a nodwyd uchod ar gyfer y categori hwn o ddata yn awgrymu nad oedd gan y rhan fwyaf o deuluoedd yn Sir Ddinbych unrhyw blant dibynnol (16,515 o deuluoedd). O'r teuluoedd hynny ag un neu fwy o blant dibynnol, y math mwyaf cyffredin o deulu, gyda 2,368 o deuluoedd yn y categori, oedd y rhai hynny ag un plentyn dibynnol rhwng 12 a 18 oed.

O'r teuluoedd hynny â phlant dibynnol iau rhwng 0 a 4 oed, y math mwyaf cyffredin a gofnodwyd oedd teuluoedd ag un plentyn dibynnol (1,574 o deuluoedd). Felly, fe allai hyn awgrymu bod y galw

[13] http://www.ukcensusdata.com/denbighshire-w06000004/families-with-dependent-children-qs118ew#sthash.anpPUsgX.IcS9MuoC.dpbs

am ofal plant yn Sir Ddinbych gan deuluoedd gyda phlant dibynnol yn debygol o ddod gan y teuluoedd hynny â dim ond un plentyn dibynnol. Gan fod y data mwyaf diweddar sydd ar gael yn y maes hwn o 2011, mae'n bosib bod yr ystadegau wedi newid ers hynny.

3.9 Incwm Cyfartalog Aelwydydd

Tabl 8 - Incwm gros cyfartalog aelwydydd fesul Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2018)[14]

Ward	Enw'r Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganol	Incwm aelwydydd blynyddol gros cyfartalog (£) fesul Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganol	Incwm aelwydydd blynyddol gros cyfartalog (£) fesul ward
Bodelwyddan	Sir Ddinbych 009	42,400	42,400
Corwen	Sir Ddinbych 015	45,300	43,700
	Sir Ddinbych 016	42,100	
Canol Dinbych	Sir Ddinbych 011	34,300	34,300
Dinbych Isaf	Sir Ddinbych 012	42,800	42,800
Dinbych Uchaf / Henllan	Sir Ddinbych 011	34,300	34,300
Dyserth	Sir Ddinbych 008	41,700	41,700
Efenechtyd	Sir Ddinbych 015	45,300	45,300
Llanarmon-yn-Iâl / Llandegla	Sir Ddinbych 013	50,600	50,600
Llanbedr Dyffryn Clwyd / Llangynhafal	Sir Ddinbych 013	50,600	50,600
Llandrillo	Sir Ddinbych 016	42,100	42,100
Llandyrnog	Sir Ddinbych 013	50,600	50,600
Llanfair Dyffryn Clwyd / Gwyddelwern	Sir Ddinbych 015	45,300	45,300
Llangollen	Sir Ddinbych 016	42,100	42,100
Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	Sir Ddinbych 012	42,800	42,800
Canol Prestatyn	Sir Ddinbych 003	33,300	34,200
	Sir Ddinbych 002	35,100	

[14] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/smallareaincomeestimatesformiddlelayersuperoutputareasenglandandwales

Dwyrain Prestatyn	Sir Ddinbych 002	35,100	35,100
Gallt Melyd Prestatyn	Sir Ddinbych 008	41,700	41,700
Gogledd Prestatyn	Sir Ddinbych 001	29,500	29,500
De Orllewin Prestatyn	Sir Ddinbych 003	33,300	33,300
Rhuddlan	Sir Ddinbych 009	42,400	42,400
Dwyrain y Rhyl	Sir Ddinbych 004	26,800	26,800
De'r Rhyl	Sir Ddinbych 017	31,100	31,100
De Ddwyrain y Rhyl	Sir Ddinbych 017	31,100	31,100
De Orllewin y Rhyl	Sir Ddinbych 006	27,700	27,700
Gorllewin y Rhyl	Sir Ddinbych 004	26,800	26,800
Rhuthun	Sir Ddinbych 014	41,000	41,000
Dwyrain Llanelwy	Sir Ddinbych 010	44,300	44,300
Gorllewin Llanelwy	Sir Ddinbych 010	44,300	44,300
Trefnant	Sir Ddinbych 010	44,300	44,300
Tremeirchion	Sir Ddinbych 008	41,700	41,700

Mae'r data ar gyfer Sir Ddinbych yn dangos bod y wardiau â'r incwm aelwyd blynyddol gros cyfartalog uchaf (£) fesul Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganol yn Sir Ddinbych 013: Llanarmon-yn-lâl / Llandegla, Llanbedr Dyffryn Clwyd / Llangynhafal a Llandyrnog, sef £50,600 y flwyddyn. I'r gwrthwyneb, nodwyd yr incwm aelwyd cyfartalog isaf, sef £26,800 y flwyddyn, yn Nwyrain y Rhyl a Gorllewin y Rhyl. Y wardiau hyn yw'r rhai mwyaf tebygol o fod â theuluoedd ag incwm isel.

3.10 Mynegai o Aelwydydd ar Incymau Isel

Mae'r data o Siart 5 (gweler yr Atodiad, Tabl 6) yn dangos mai Gorllewin y Rhyl oedd â'r canran uchaf, (26.3%) o blant yn byw mewn aelwydydd incwm isel absoliwt, ac yna Corwen, De'r Rhyl, De Orllewin Prestatyn. I'r gwrthwyneb, Llanbedr Dyffryn Clwyd / Llangynhafal, Rhuthun, Tremeirchion a Llanarmon-yn-lâl / Llandegla oedd â'r canran isaf o blant yn yr un grŵp. Mae hyn hefyd yn awgrymu bod llai o blant sy'n byw mewn teuluoedd ar incwm isel absoliwt mewn wardiau neu ardaloedd lle mae'r incwm aelwyd blynyddol yn uwch.

DRAFT

Siart 5 - Canran y Plant (o dan 16 oed) sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel absoliwt (Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau 2020).[15]



[15] https://www.gov.uk/government/statistics/children-in-low-income-families-local-area-statistics-201415-to-201819

3.11 Nifer yr achosion o blant ag ADY

Dangosodd Cyfrifiad ysgolion Sir Ddinbych 2020/21 fod 15,990 o ddisgyblion yn mynychu ysgolion yn Sir Ddinbych, ac roedd gan 452 o'r disgyblion hynny a oedd yn mynychu ysgolion Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig a nodwyd bod gan 3151 o ddisgyblion ryw fath o AAAA neu ADY - h.y. 2.8% ar gyfer y cyntaf a 19.7% ar gyfer yr ail. [16][17] Roedd hyn yn is na thri o'r pum Awdurdod Lleol cyfagos, a'r cyfartaledd cenedlaethol (ar gyfer disgyblion â datganiad AAAA):

- ALl Cyfagos 1: Sir y Fflint = 688 o ddisgyblion â datganiad AAAA a chyfanswm o 4065 o ddisgyblion ag anghenion arbennig
- ALl Cyfagos 2: Wrecsam = 704 o ddisgyblion â datganiad AAAA a chyfanswm o 3003 o ddisgyblion ag anghenion arbennig
- ALl Cyfagos 3: Conwy = 359 o ddisgyblion â datganiad AAAA a chyfanswm o 3430 o ddisgyblion ag anghenion arbennig
- ALl Cyfagos 4: Gwynedd = 474 o ddisgyblion â datganiad, cyfanswm o 3276 o ddisgyblion ag AAAA
- ALl Cyfagos 5: Powys = 423 o ddisgyblion â datganiad, cyfanswm o 3764 o ddisgyblion ag AAAA
- Cyfartaledd Cenedlaethol (datganiad o AAA) = 3.7% (Ffynhonnell: Gov.uk, 2020)
- Cyfartaledd Cenedlaethol (cyfanswm AAA) = 12.2% (Ffynhonnell: Gov.uk, 2020)

3.12 Datblygiadau tai newydd i ddod yn Sir Ddinbych

Mae Tabl 9 yn seiliedig ar ddatblygiadau tai cymeradwy gan Gyngor Sir Ddinbych ac yn nodi nifer yr anheddau newydd y bwriedir eu hadeiladu a'u meddiannu yn y pen draw yn Sir Ddinbych, gan ddisgwyl y bydd cyfanswm o 5,260 o anheddau yn cael eu hadeiladu yn Sir Ddinbych hyd at 2024. Mae'r wardiau neu'r aneddiadau â'r nifer uchaf o anheddau a ddisgwylir eu hadeiladu ym Modelwyddan, De Ddwyrain y Rhyl a Dwyrain Llanelwy, gan awgrymu y bydd y galw am ddarpariaeth gofal plant yn y dyfodol yn fwy yn yr ardaloedd hyn.

Tabl 9 - Nifer y datblygiadau tai newydd y bwriedir eu hadeiladu ym mhob un o wardiau'r ardaloedd lleol hyd at 2024 (Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych)[18]

Ward	Cyfeirnod (Cyfeirnod ACLl)	Enw'r Datblygiad / Cyfeiriad y Safle	Cyfanswm yr Anheddau (Cyfanswm Capasiti'r Unedau)
Bodelwyddan	3616	KSS B	1715
Bryneglwys	3196	Trem y Foel,	19
Corwen	3639	Tir ger Maes Sidan	15

[16] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Special-Educational-Needs/pupilssen-by-localauthorityregion-provision

[17] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Pupils/pupils-by-localauthorityregion-agegroup

[18] https://www.denbighshire.gov.uk/en/documents/planning-and-building-regulations/ldp/evidence-monitoring-and-information/local-development-plan-2006-2021-annual-monitoring-report-2020.pdf

DRAFT

	3	Ysgol Caer Drewyn	89
	3632	Depo'r Cyngor, Clawdd Poncen	128
	3645	Tir y tu ôl i Res New Inn	30
Canol Dinbych	11	Ger yr Eglwys Gatholig	25
	3807	Hen Ysgol Baratoi Howells	12
	3959	Lôn Ganol	70
Dinbych Isaf	3628	Tir rhwng Hen Ffordd Rhuthun a Ffordd Newydd Rhuthun	64
	3629	Cae Topyn	75
Dinbych Uchaf / Henllan	3377	Gorsaf Wasanaeth Ffordd y Ffair	12
	3627	Tir ger Ysgol Heulfre	99
	3640	Tir ger Crud yr Awel	10
	3626	Tir ar Fferm Lodge	22
	3646	Tir i'r de o Tan y Graig	10
	3310	Ffermdy Tŷ Coch - safle EC Evans	15
	3249	Canol Henllan	37
Dyserth	3643	Cysgod y Graig cam 1	63
	3643	Cysgod y Graig cam 2	36
	3899	Anglia House	25
Efenechtyd	3875	Pool Park	68
	3660	Tir i'r de o'r A494	15
	3661	Tir ym Minffordd	20
Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla	3648	Tir y tu ôl i Maes Garmon	34
	3062	Gwalia House	17
	3647	Tir i'r de o Cam yr Alyn	12
Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	3649	Gerllaw Troed y Fenlli	10
	3650	Tir y tu ôl i Llwyn Derw	10
	3651	I'r gogledd orllewin o Maes Derwen	18
	3657	Tir y tu ôl i Bod Eryl	10
	3644	Tir ym Mheniarth	10
	3798	Neuadd Llanbedr	11
	3652	Tir ger yr Hen Reithordy	38
Llandrillo	3642	Tir ger Bryn Gwynt	15
	3653	Tir y tu ôl i Bodowen	20
Llandyrnog	3654	Ger Maes Llan	40
	3663	Tir y tu ôl i Rhyd y Byll	20
	3663	Tir y tu ôl i Rhyd y Byll	20
	3635	Maes Parcio Dinorben Arms	14
	3636	Tir y tu ôl i Bryn Orme	15

Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	3637	Tir y tu ôl i Bryn Awel	10
	3668	Tir y tu ôl i Res Beuno	12
	18	Cae'r Ficerdy	25
	14	Bryn Llan	12
	13	Tir i'r de o'r ysgol	26
	3656	Tir y tu ôl i Bron y Clwyd	63
Llangollen	22	Tir ger Trem y Gwernant	14
	3914	Tir oddi ar Ffordd y Ficerdy (Maes Helyg)	95
Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	2248	Fferm Pennant	12
	3658	Tir y tu ôl i Faeshwylfa	15
	3659	Tir y tu ôl i Ddolwar	33
Canol Prestatyn	3977	The Dell	15
Dwyrain Prestatyn	3619	Midnant Farm	65
	3929	74 Ffordd Gronant	11
Gallt Melyd Prestatyn	3620	Tir y tu ôl i Maes Meurig	30
	3621	Tir y tu ôl i Ffordd Hendre	154
	31	Tir oddi ar Cefn y Gwrych	18
	3093	Maes Carafanau Plas Deva	41
Gogledd Prestatyn	3947	Hen Lys Ynadon	41
Rhuddlan	3634	Rhuddlan (Macbrydes)	48
	3634	Rhuddlan (Anwyl)	51
Dwyrain y Rhyl	37	Hen Faes Carafanau Brooklands	25
	75	Ysgol Northgate	22
De Ddwyrain y Rhyl	3617	Tir oddi ar Ffordd Trellwelyn / Bro Deg	100
	47	De Ddwyrain y Rhyl	377
De Orllewin y Rhyl	3864	Tir ger Ffordd Brookdale	18
	73	Ffordd Fictoria	18
Gorllewin y Rhyl	3222	85-90 Rhodfa'r Gorllewin a Ffordd Sandringham	20
	3618	Cornel Sydenham Avenue/Rhodfa'r Gorllewin	12
	3116	36 Ffordd Russell	15
	3865	Gwesty'r Grange	44
	62	Tir ger Westbourne Avenue	20
Rhuthun	3630	Cam 2 Glasdir	45
	3631	Tir ger Maes Hafod a Llys Famau	69
	3638	Tir gerllaw'r Fynwent	12
	3641	Tir y tu ôl i Paradwys	10
	32	Glasdir	178

Dwyrain Llanelwy	3623	Tir ychwanegol yn HM Stanley	201
	3624	Tir oddi ar The Paddock	16
	3622	Livingstone Place	158
	3625	Tir oddi ar Bryn Gobaith	14
Trefnant	44	Tir ger Maes Gruffydd	15
	3666	Tir y tu ôl i Maes yr Erwain	25
	3698	Tir ger Trefnant Inn	13
Tremeirchion	3667	Tir y tu ôl i Llys y Tywysog	10
	3195	Tir y tu ôl i Dyffryn Teg	13
	3664	Tir i'r gorllewin o Dyffryn Teg	12
	3665	Tir i'r de o Dyffryn Teg	19
Cyfanswm ALl			**5,260**

3.13 Siaradwyr Cymraeg

Tabl 10 - Sgiliau iaith Gymraeg trigolion Sir Ddinbych, Mawrth 2011 (ledled yr ALl) (Ffynhonnell: Data Cyfrifiad y DU, 2011)[19]

Categori Sgiliau	Nifer â'r sgil a enwir
Holl breswylwyr arferol 3 oed a throsodd	90,527
Yn gallu deall Cymraeg llafar	28,296
Yn gallu siarad Cymraeg	22,236
Yn gallu darllen Cymraeg	20,830
Yn gallu ysgrifennu Cymraeg	17,803
Yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg	24,425

Tabl 11 - Gallu siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn (Ffynhonnell: StatsCymru, 2021)[20]

Manylion iaith	Niferoedd poblogaeth
Pawb 3 oed neu hŷn	91,200
Ia, yn gallu siarad Cymraeg	31,200
Na, ddim yn gallu siarad Cymraeg	59,800
Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg	34.3%

Mae'r data a ddengys yma yn y ddau dabl a restrwyd uchod yn ymwneud â sgiliau iaith Gymraeg preswylwyr arferol Sir Ddinbych. Yn ôl Tabl 11 nodwyd bod 22,236 o bobl yn gallu siarad Cymraeg yn 2011, ond fe nodwyd bod 31,200 o bobl yn yr un categori, sef preswylwyr a oedd yn siarad Cymraeg, yn y data oedd ar gael ar gyfer 2021.

[19] http://www.ukcensusdata.com/denbighshire-w06000004/welsh-language-skills-qs206wa#sthash.1q6aqF2F.CadDArdY.dpbs

[20] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/annualpopulationsurveyestimatesofpersonsaged3andoverwhosaytheycanspeakwelsh-by-localauthority-measure

Mae hyn yn cynrychioli cynnydd mawr o 8,964 o bobl yn Sir Ddinbych a oedd yn ystyried eu bod yn gallu siarad Cymraeg, dros gyfnod o 10 mlynedd. Felly, fe allai'r canfyddiadau hyn awgrymu bod y galw am leoedd gofal plant mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn annhebygol o ostwng yn y blynyddoedd i ddod. Os unrhyw beth, fe allai olygu bod y galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg yn yr ALl yn fwy tebygol o gynyddu.

3.1 Yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac Asesiad o Anghenion Lles Lleol

Cynhaliodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych Asesiad o Anghenion Lles Lleol wedi'i ddiweddaru yn 2021, sydd ar gael ar hyn o bryd yn ei ffurf drafft[21]. Ar yr adeg cynnal yr asesiad lles lleol, nid oedd y DU wedi mynd i gyfnod adfer Covid-19 yn llawn eto ac roedd plant, pobl ifanc a theuluoedd yn dal i wynebu amhariadau o ran cael mynediad at wasanaethau arferol ac addysg o ganlyniad i'r pandemig. Oherwydd hyn, nid yw'r effaith hirdymor ar iechyd a lles plant, oherwydd oedi o ran datblygu lleferydd ac iaith er enghraifft, yn hysbys ar hyn o bryd. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod rhai dangosyddion ac ymchwil yn dangos amhariadau, oherwydd Covid-19 yn enwedig, sy'n gwneud cynllunio ar adeg o ansicrwydd yn arbennig o anodd. Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn adolygu eu dadansoddiadau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu tueddiadau cyfredol ac yn y dyfodol wrth i wybodaeth newydd neu fwy dibynadwy ddod ar gael.

O'r ymchwil a gynhaliwyd, mae yno grynswth o dystiolaeth o bwysigrwydd y mil o ddiwrnodau cyntaf mewn bywyd plentyn; gall mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac ymyrryd yn gynnar i atal problemau iechyd helpu pobl i wneud y dewisiadau gorau ynglŷn â'u hiechyd presennol eu hunain ac iechyd eu plant yn y dyfodol. Ceir dealltwriaeth dda o'r cysylltiad rhwng profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chanlyniadau gwael wedi tyfu'n oedolyn, a gall y canlyniadau hynny (iechyd meddwl gwael, dewisiadau ynglŷn â ffordd o fyw sy'n effeithio ar iechyd a lles) gyfrannu at les gwaeth na'r cyfartaledd. Mae yno hefyd ddadl economaidd gref o blaid buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar. Mae'r elw a geir o'r buddsoddiad hwn yn llawer uwch yn y cyfnod cyn ysgol nac ar unrhyw gyfnod arall yn y system addysg, sy'n amlygu pwysigrwydd gofal plant digonol, o ansawdd uchel ac addysg y Blynyddoedd Cynnar.

[21] https://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/home/english-wellbeing-assessment/

4. Trosolwg o'r Ddarpariaeth Gofal Plant Bresennol a Chanlyniadau'r Arolygon i Ddarparwyr a Gwarchodwyr Plant

Mae'r adran hon wedi cael ei llywio gan yr arolygon / ymchwil canlynol:

1. Arolwg Darparwyr Gofal Plant Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Cyngor Sir Ddinbych - a gynhaliwyd gan Grŵp Cynghori Premier drwy Gyfweliadau dros y Ffôn gyda Chymorth Cyfrifiadur o fis Tachwedd 2021 i fis Ionawr 2022.
2. Cyfraniad darparwyr gofal plant Cyngor Sir Ddinbych i'r ymarfer casglu data / adroddiad y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth yn yr haf 2021.

Bu i 71 o ddarparwyr gofal plant gwblhau Arolwg i Ddarparwyr Gofal Plant yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Cyngor Sir Ddinbych2021-22. Mae'r dadansoddiad o'r mathau o ddarparwyr a gwblhaodd yr arolwg i'w weld isod

- Gofal dydd llawn - 24%[22]
- Gwarchodwr plant cofrestredig - 48%
- Gofal dydd sesiynol - 23%
- Gofal y Tu Allan i'r Ysgol (yn cynnwys Clwb ar ôl Ysgol, Clwb Brecwast, Clybiau Gwyliau a Chynllun Chwarae Gwyliau) - 5.0%

Bu i 100 o ddarparwyr gwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, yn cynnwys 48 o ddarparwyr gofal dydd llawn, 10 o ddarparwyr gofal dydd sesiynol, 29 o warchodwyr plant cofrestredig a 13 o ddarparwyr y tu allan i'r ysgol, sef cyfradd ymateb o 91%.

4.1 Nifer y darparwyr gofal plant a'r math o wasanaeth

Yn gweithredu'n Sir Ddinbych ar hyn o bryd, mae yna:

- Gofal dydd llawn: 50
- Gwarchodwyr plant: 35
- Gofal dydd sesiynol: 12
- Darparwyr y tu allan i oriau ysgol: 15
- Nanis: 1

At ei gilydd, ac o'r hydref 2021, mae'r darparwyr cofrestredig a ymatebodd, wedi cofrestru i ofalu am 3139 o blant[23].

Mae cyfrannau'r mathau penodol o ofal a ddarperir wedi'u nodi yn y siart isod:

[22]Mae'r canrannau yn yr adran hon wedi cael eu crynhoi i'r rhif llawn agosaf. Mae'n bosib na fydd y canrannau yn adio i roi 100% gan eu bod wedi cael eu crynhoi.

[23]Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys y X o leoliadau na gwblhaodd y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth.



Nid oes darpariaeth Nani, darpariaeth Chwarae Mynediad Agored na darpariaeth Creche yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd.

Nifer y plant ar lyfrau darparwyr gofal plant, yn yr hydref 2021,yn ôl grŵp oedran:

	0-1 oed	1-2 oed	2 oed	3 oed	4 oed	5-7 oed	8-11 oed	12-14 oed	15-17 oed
Nifer y plant sy'n cael gofal plant ar hyn o bryd	91	384	619	899	631	932	783	1	0

Mae Tabl 2 yn yr Atodiad yn dangos nifer y plant sy'n cael gofal plant ym mhob grŵp oedran, yn ôl pob ward.

Nifer y plant sy'n cael gofal plant ar sail llawn amser, rhan amser ac ad hoc, o'r hydref 2021, yn ôl ward ac Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Uwch

Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Uwch	Ward	Cyfanswm nifer y plant ar y llyfrau	Nifer y plant sy'n mynychu ar sail llawn amser	Nifer y plant sy'n mynychu ar sail rhan amser	Nifer y plant sy'n mynychu ar sail ad hoc
Sir Ddinbych U001	Dwyrain Llanelwy	97	14	49	34
	Gorllewin Llanelwy	30	12	10	8
	Canol Prestatyn	75	40	25	10
	Dwyrain Prestatyn	233	85	103	45

	Gallt Melyd Prestatyn	277	24	211	42
	Gogledd Prestatyn	88	16	70	2
	De Orllewin Prestatyn	213	84	89	40
	Dyserth	74	8	65	1
	Tremeirchion	41	2	26	13
	Trefnant	65	17	33	15
	Dwyrain y Rhyl	259	23	222	14
	Cyfanswm	**1452**	**325**	**903**	**224**
Sir Ddinbych U002	De'r Rhyl	91	26	56	9
	De Ddwyrain y Rhyl	96	6	89	1
	De Orllewin y Rhyl	663	225	366	72
	Gorllewin y Rhyl	160	15	128	17
	Bodelwyddan	94	14	33	37
	Rhuddlan	194	56	101	37
	Canol Dinbych	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Cyfanswm	**1298**	**342**	**773**	**173**
Sir Ddinbych U003	Dinbych Isaf	428	21	399	8
	Dinbych Uchaf / Henllan	79	6	73	0
	Llandymog/Llandyrnog	21	6	14	1
	Corwen	76	2	74	0
	Rhuthun	377	45	206	126
	Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	126	19	107	0
	Llangollen	185	32	134	19
	Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	84	7	73	4
	Efenechtyd	79	4	75	0
	Llanarmon-yn-lâl/Llandegla	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	57	15	38	4
	Llandrillo	31	6	10	15
	Cyfanswm	**1543**	**163**	**1203**	**177**

Ar draws bron i bob un ward, roedd y rhan fwyaf o'r plant a oedd yn cael gofal plant yn ei gael ar sail rhan amser.

4.2 Cyflenwad a Galw am Bob Math o Ofal Plant

Mae'r tabl isod yn cyflwyno, yn ôl math o ddarparwr / sector;

- Nifer y lleoedd a gynigir amlaf ar ddiwrnod arferol yn ystod y tymor
- Nifer cyfartalog y lleoedd a gynigir ar ddiwrnod arferol yn ystod y tymor

- Nifer y lleoedd a gynigir amlaf ar ddiwrnod arferol yn ystod y gwyliau
- Nifer cyfartalog y lleoedd a gynigir ar ddiwrnod arferol yn ystod y gwyliau.

Y Math o Ddarparwr / Sector	Nifer y lleoedd a gynigir amlaf yn ystod y tymor	Nifer y lleoedd a gynigir amlaf yn ystod y gwyliau	Nifer cyfartalog y lleoedd yn ystod y tymor	Nifer cyfartalog y lleoedd yn ystod y gwyliau
Gofal Dydd Llawn	19	0	44	42
Gofal Dydd Sesiynol	19	0	15	1
Gwarchodwr Plant Cofrestredig	3	10	6	7
Clwb Ar Ôl Ysgol	16	0	16	6
Arall	14	0	70	21

Nifer y darparwyr sy'n gweithredu ar ddiwrnodau penodol yn ystod gwyliau ysgol, yn ôl y math o ddarparwr:

Gwarchodwyr Plant

	Llun	Mawrth	Mercher	Iau	Gwener	Sadwrn	Sul
Gwyliau'r Haf	4	6	7	7	4	0	0
Hanner Tymor yr Hydref	4	6	7	7	4	0	0
Gwyliau'r Nadolig	3	5	5	5	2	0	0
Hanner Tymor mis Chwefror	4	6	7	7	4	0	0
Gwyliau'r Pasg	4	6	7	7	4	0	0
Hanner Tymor mis Mai	4	6	7	7	4	0	0

Gofal Dydd Llawn

	Llun	Mawrth	Mercher	Iau	Gwener	Sadwrn	Sul
Gwyliau'r Haf	9	9	9	9	9	0	0
Hanner Tymor yr Hydref	8	8	8	8	8	0	0

DRAFT

Gwyliau'r Nadolig	7	7	7	7	7	0	0
Hanner Tymor mis Chwefror	8	8	8	8	8	0	0
Gwyliau'r Pasg	8	8	8	8	8	0	0
Hanner Tymor mis Mai	8	8	8	8	8	0	0

Mae 1 darparwr gofal dydd sesiynol yn gweithredu o ddydd Mawrth i ddydd Iau drwy gydol gwyliau'r ysgol. Nid yw'r un darparwr gofal y tu allan i oriau ysgol a ymatebodd i'r arolwg yn gweithredu yn ystod gwyliau'r ysgol ar hyn o bryd.

Bu i 100% o'r gwarchodwyr plant a arolygwyd gadarnhau eu bod yn parhau i ddarparu gofal plant ar ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd, yn ogystal â 91% o ddarparwyr gofal dydd llawn, 80% o ddarparwyr gofal dydd sesiynol ac 80% o ddarparwyr gofal y tu allan i oriau ysgol, ond nid yw clybiau ar ôl ysgol yn darparu gofal ar y dyddiau hyn.

O'r rhai a arolygwyd, nid oes yr un darparwr yn cynnig gofal dros nos yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd. Nododd un gwarchodwr plant eu bod yn cynnig gofal plant ar ddydd Sadwrn.

4.3 Nifer yr achosion o restrau aros

Yn ystod y 12 mis diwethaf, dywedodd 68% o warchodwyr plant, 34% o ddarparwyr gofal dydd llawn, 40% o ddarparwyr gofal dydd sesiynol a 14% o ddarparwyr gofal y tu allan i'r ysgol, eu bod yn cadw rhestr aros yn ystod y tymor. Dywedodd y mwyafrif o'r gwarchodwyr plant a'r darparwyr gofal dydd bod ganddynt 3-4 plentyn ar eu rhestrau aros yn y gwanwyn, yr haf a'r hydref yn 2021.

Dywedodd 9% o ddarparwyr gofal dydd llawn, 26% o warchodwyr plant ac 20% o ddarparwyr gofal dydd sesiynol, eu bod yn cadw rhestr aros yn ystod gwyliau'r ysgol. Ni adroddodd yr un darparwr gofal y tu allan i oriau ysgol bod ganddynt restr aros ar gyfer gwyliau'r ysgol. Y wardiau gyda darparwyr gofal plant â rhestrau aros ar gyfer gwyliau'r ysgol, oedd:

- Canol Dinbych
- Dinbych Isaf
- Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern
- Gallt Melyd Prestatyn
- De Orllewin Prestatyn
- De Ddwyrain y Rhyl
- De Orllewin y Rhyl
- Dwyrain Llanelwy

4.4 Nifer yr achosion o leoedd gwag

Yn y gwanwyn 2022, roedd 15 o leoedd gwag gyda gwarchodwyr plant ar gyfer gofal dydd llawn, ar draws y sir. Yng Ngallt Melyd Prestatyn a Llandrillo oedd yr achosion uchaf o leoedd gwag gyda

DRAFT

gwarchodwyr plant. Roedd 10 o leoedd gwag am ofal cyn ysgol, 8 o leoedd gwag am ofal ar ôl ysgol, a 5 o leoedd gwag am ofal yn ystod y gwyliau.

Bu i ddarparwyr gofal dydd llawn gofnodi oddeutu 180 o leoedd gwag ar draws y sir, gyda 46 o'r rhain yn Ne Orllewin y Rhyl ac 20 yn Llangollen. Bu i un darparwr gofal dydd llawn nodi y byddent fel arfer ag 20 o leoedd gwag, ond oherwydd prinder staff yn gysylltiedig â COVID, dim ond 2-3 o leoedd gwag oedd ganddynt ar hyn o bryd. Bu i un arall nodi 24 o leoedd gwag ond eu bod hefyd yn cwrdd â'r Cyngor i drafod darparu Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant.

Roedd gan ddarparwyr gofal dydd sesiynol gyfanswm o 8 lle gwag. Roedd 93 o leoedd gwag ar gyfer darpariaeth hanner diwrnod yn ystod y gwyliau.

4.5 Nifer yr achosion o gymorth i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a / neu anghenion meddygol cymhleth

Yn yr hydref 2021, roedd 97 o blant ag anabledd neu ADY cofrestredig yn cael gofal plant cofrestredig yn Sir Ddinbych. Mae cyfanswm nifer y plant ag ADY sy'n cael gofal plant cofrestredig, yn ôl Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Uwch a'r math o ofal plant, i'w weld isod:

Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Uwch	Gofal Dydd Llawn	Gwarchodwyr Plant	Gofal Dydd Sesiynol	Gofal y Tu Allan i'r Ysgol	Cyfanswm fesul Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Uwch
Sir Ddinbych U001	29	1	0	9	**39**
Sir Ddinbych U002	36	0	0	3	**39**
Sir Ddinbych U003	15	0	3	1	**19**

Roedd naw o'r lleoedd a oedd cael eu llenwi gan blant ag ADY gyda darparwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg. Roedd 14 o'r lleoedd a oedd yn cael eu llenwi gan blant ag ADY mewn lleoliadau dwyieithog.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y darparwyr gofal dydd a'r gwarchodwyr plant sy'n darparu cymorth neu'n gallu darparu cymorth ar gyfer gwahanol fathau o ADY.

Math o Angen	Nifer y darparwyr gofal dydd sy'n darparu cymorth	Nifer y gwarchodwyr plant sy'n darparu cymorth
Anawsterau Gwybyddiaeth a Dysgu	47	10
Anawsterau Ymddygiad, Cymdeithasol ac Emosiynol	50	10
Anghenion o Cyfathrebu a Rhyngweithio	56	10
Anghenion Synhwyraidd neu Gorfforol	41	12

Bu i'r darparwyr gofal plant a ymatebodd, nodi, ers y gwanwyn 2022, bod 33 o blant 2 oed ag ADY yn cael mynediad i ddarpariaeth Dechrau'n Deg. Roedd y plant hyn yn byw yn y wardiau canlynol:

- Dinbych Uchaf / Henllan
- Dwyrain y Rhyl
- De Orllewin y Rhyl
- Gorllewin y Rhyl

Roedd 19 o blant 3-4 oed gyda ADY yn cael mynediad i'r cynnig gofal plant 30 awr yn:

- Dinbych Isaf
- Efenechtyd
- De Orllewin Prestatyn
- Rhuddlan
- Dwyrain y Rhyl
- De Orllewin y Rhyl
- Gorllewin y Rhyl
- Dwyrain Llanelwy
- Trefnant

Nodwyd gan 16% o warchodwyr plant, a 25% o ddarparwyr gofal dydd llawn, eu bod yn derbyn ymholiadau gan rieni o leiaf unwaith y tymor ynghylch lle 30 awr i blentyn ag ADY. Gofynnir i 31% o ddarparwyr ddarparu lle blentyn ag ADY o leiaf unwaith y flwyddyn.

Y mathau mwyaf cyffredin o ADY a nodwyd gan ddarparwyr, yn nhrefn eu hamlder, oedd:

1. Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
2. Cyflwr ar y Sbectrwm Awtistiaeth
3. Anabledd Corfforol

Bu i nifer o ddarparwyr hefyd sôn am anghenion ymddygiad ac ADHD.

Gofynnwyd hefyd i ddarparwyr gofal plant a oedd unrhyw faterion a allai ei gwneud yn fwy heriol i'r sector gofal plant yn Sir Ddinbych ddarparu gofal plant yn y ffordd fwyaf effeithiol i blentyn ag ADY neu anableddau. Y materion mwyaf cyffredin a nodwyd, yn nhrefn eu hamlder, oedd:

1. Ariannu annigonol
2. Anallu i ddarparu cymorth 1:1
3. Diffyg staff hyfforddedig a / neu unigolion â chymwysterau arbenigol
4. Diffyg offer arbenigol
5. Problemau o ran mynediad corfforol / symud o amgylch y lleoliad
6. Diffyg cymorth / cyngor gan sefydliadau statudol

Roedd rhai sylwadau nodedig ar hyn yn cynnwys:

"Mae'r holl gymorth rydym yn ei gael yn ystod y tymor. Mae llawer o strategaethau gwahanol yn gwneud pethau'n gymhleth; mae'r cymorth yna ond nid yw bob amser yn syml neu'n effeithlon."

DRAFT

“Nid oedd unrhyw un am ddod ac asesu yn ystod COVID a phan ddaethant o’r diwedd, dim ond 5 munud oeddent yma - ond nid arnyn nhw mae’r bai am COVID.”

“Gormod o gyrsiau, gormod o bethau’n mynd ymlaen. Mae angen symleiddio pethau ar gyfer rhieni.”

“Mae angen i blant gael diagnosis yn gynt ac mae angen dynodi cyllid. Rwyf wedi sylwi ar hyn yn digwydd yn ddiweddar ond mae angen digwydd yn amlach.”

“Mae’r gwaith papur yn rhy hir - bron i 6 wythnos o arsylwi. Erbyn i’r arbenigwyr gyrraedd, mae’r plant wedi symud ymlaen ac mae’r broses yn dechrau eto.”

Gofynnwyd hefyd i ddarparwyr ddisgrifio, beth, yn eu barn nhw, yw’r prif heriau i rieni â phlant ag ADY ac anableddau o ran dod o hyd i ofal plant. Mae rhai o’r prif bwyntiau a nodwyd amlaf wedi’u rhestru isod:

“Teimlaf fod Sir Ddinbych yn cefnogi rhieni’n dda gyda gofal plant. Pan maent yn cyrraedd yr ysgol mae’r broblem.”

“Diffyg staff hyfforddedig a phroblemau â chadw staff.”

“Mae’r pandemig wedi gwneud pethau’n fwy anodd e.e. cael mynediad at weithwyr proffesiynol ADY.”

“Mae rhieni’n cael trafferth cael cymorth 1:1 ar gyfer eu plant ac mae diffyg ymwybyddiaeth a gwybodaeth am ADY i rieni.”

“Y prif beth yw gwneud yn siŵr bod plant yn cael eu hasesu, ond hefyd nad yw’r teuluoedd newydd sydd wedi symud i’r ardal dros gyfnod COVID neu sydd wedi cael plant dros gyfnod COVID, yn cael eu hanghofio. Rydym yn darparu llawer o leoedd Dechrau’n Deg ac rydw i’n poeni, gan nad yw gweithwyr cefnogi yn gallu ymweld â theuluoedd mor aml oherwydd COVID, bod rhai plant yn cael eu hanghofio neu nad yw rhai rhieni’n ymwybodol o’r cymorth sydd ar gael iddynt.”

Roedd y canfyddiad o ddiffyg cyllid ar gyfer plant ag ADY ac anableddau yn thema a oedd yn codi dro ar ôl tro drwy gydol y cyfnod ymgynghori, ynghyd â darparwyr yn nodi mwy o angen am staff cymwys a hyfforddiant addas i staff.

4.6 Cost Gofal Plant

Gofynnwyd i’r ymatebwyr am eu costau cyfartalog yr awr fesul gwasanaeth. Yng ngwanwyn 2022, roedd y costau cyfartalog uchaf yr awr yn cael eu codi gan ddarparwyr gofal dydd llawn. Dylid nodi mai’r gost fwyaf cyffredin am le gofal dydd sesiynol yw £0.00 oherwydd bod y rhan fwyaf o ofal dydd sesiynol yn cael ei ariannu drwy’r rhaglen Dechrau’n Deg

Gellir gweld yr ystod o ffioedd a nodwyd isod:

- Y gyfradd fesul awr isaf a nodwyd am ddarparwr gofal dydd llawn = £2.89
  Y gyfradd fesul awr uchaf a nodwyd am ddarparwr gofal dydd llawn = £6.50
- Y gyfradd fesul awr isaf a nodwyd am warchodwr plant / diwrnod llawn = £2.58
  Y gyfradd fesul awr uchaf a nodwyd am warchodwr plant / diwrnod llawn = £4.60
- Y gyfradd fesul awr isaf a nodwyd am warchodwr plant / hanner diwrnod = £4.00
  Y gyfradd fesul awr uchaf a nodwyd am warchodwr plant / hanner diwrnod = £6.59
- Y gyfradd fesul awr isaf a nodwyd am ddarparwr clwb brecwast / ar ôl ysgol = £3.00
  Y gyfradd fesul awr uchaf a nodwyd am ddarparwr clwb brecwast / ar ôl ysgol = £4.95

Gweler y dadansoddiad o'r costau yn ôl ward ac oedran, fel y nodwyd yn nata'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, yn yr Atodiad, o Dabl 6 ymlaen.

Gwelwyd y gost gyfartalog uchaf fesul sesiwn i blant 0-1 oed yn U003, ac yn benodol yn ward Rhuthun. I'r gwrthwyneb, o ran plant 2-3 oed, er y gwelwyd y gost gyfartalog uchaf fesul sesiwn yn U002, Gogledd Prestatyn oedd â'r gost gyffredinol uchaf ar gyfer yr ystod oedran yma. O ran plant 4 oed, roedd y gwahaniaeth o ran costau ar draws yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Uwch yn fach iawn, gyda'r cyfartaledd ar gyfer U003 ychydig yn uwch. Roedd y gost gyfartalog uchaf am ofal plant 5-11 oed hefyd yn U003. Roedd y costau cyfartalog uchaf, ar draws yr holl grwpiau oedran, yn fwyaf cyffredin yn U001.

Nifer yr achosion o ymatebwyr yn cynnig gostyngiad i frodyr a chwiorydd

Y Math o Ddarparwr / Sector	Ydi – Gostyngiad i Frodyr a Chwiorydd	Nac Ydi – Gostyngiad i Frodyr a Chwiorydd
Gofal Dydd Llawn	44%	56%
Gofal Dydd Sesiynol	20%	80%
Gwarchodwr Plant Cofrestredig	16%	84%
Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol	47%	53%

Y gostyngiadau mwyaf cyffredin a oedd yn cael eu cynnig i frodyr a chwiorydd oedd 5% neu 10% i ffwrdd am bob brawd neu chwaer.

4.7 Oriau Agor

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r amseroedd dechrau a'r amseroedd gorffen mwyaf cyffredin a nodwyd gan ddarparwyr gofal dydd llawn, yn ystod y tymor.

Diwrnod	(Prif) Sesiwn 1		Sesiwn 2	
	Dechrau 🕐	**Gorffen** 🕐	**Dechrau** 🕐	**Gorffen** 🕐
Dydd Llun	7:30	18:00	12:15	14:45
Dydd Mawrth	7:30	18:00	12:15	14:45
Dydd Mercher	7:30	18:00	12:15	14:45
Dydd Iau	7:30	18:00	12:15	14:45
Dydd Gwener	7:30	18:00	12:15	14:45
Dydd Sadwrn	Amherthnasol[24]	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol

[24] Dim ymatebion perthnasol ar gyfer y diwrnod hwn

Dydd Sul	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol

O'r gwanwyn 2022 ymlaen, yr oriau agor mwyaf cyffredin yn ystod yr wythnos i ddarparwyr gofal dydd llawn, yn gweithio yn Sir Ddinbych, oedd 7:30am – 6:00pm.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r amseroedd dechrau a'r amseroedd gorffen mwyaf cyffredin a nodwyd gan ddarparwyr gofal dydd sesiynol, yn ystod y tymor.

Diwrnod	(Prif) Sesiwn 1		Sesiwn 2		Sesiwn 3	
	Dechrau 🕐	**Gorffen** 🕐	**Dechrau** 🕐	**Gorffen** 🕐	**Dechrau** 🕐	**Gorffen** 🕐
Dydd Llun	11:30	15:00	8:00	12:15	Amherthnasol	Amherthnasol
Dydd Mawrth	11:30	15:00	8:00	12:15	Amherthnasol	Amherthnasol
Dydd Mercher	11:30	15:00	8:00	12:15	Amherthnasol	Amherthnasol
Dydd Iau	11:30	15:00	8:00	12:15	Amherthnasol	Amherthnasol
Dydd Gwener	11:30	15:00	8:00	12:15	Amherthnasol	Amherthnasol
Dydd Sadwrn	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Dydd Sul	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol

O'r gwanwyn 2022 ymlaen, yr oriau agor mwyaf cyffredin yn ystod yr wythnos i ddarparwyr gofal dydd sesiynol, yn gweithio yn Sir Ddinbych, oedd 8:00am – 12:15pm ar gyfer sesiynau bore ac 11:30am-3:00pm ar gyfer sesiynau prynhawn.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r amseroedd dechrau a'r amseroedd gorffen mwyaf cyffredin a nodwyd gan warchodwyr plant, yn ystod y tymor.

Diwrnod	(Prif) Sesiwn 1	
	Dechrau 🕐	**Gorffen** 🕐
Dydd Llun	8:00	17:30
Dydd Mawrth	8:00	17:30
Dydd Mercher	8:00	17:30
Dydd Iau	8:00	17:30
Dydd Gwener	8:00	17:30
Dydd Sadwrn	8:45[25]	17:15
Dydd Sul	Amherthnasol	Amherthnasol

O'r gwanwyn 2022 ymlaen, yr oriau agor mwyaf cyffredin yn ystod yr wythnos i warchodwyr plant, yn gweithio yn Sir Ddinbych, oedd 8:00am – 5:30pm.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r amseroedd dechrau a'r amseroedd gorffen mwyaf cyffredin a nodwyd gan glybiau ar ôl ysgol, yn ystod y tymor.

Diwrnod	(Prif) Sesiwn 1	
	Dechrau 🕐	**Gorffen** 🕐
Dydd Llun	15:00	17:30
Dydd Mawrth	15:00	17:30
Dydd Mercher	15:00	17:30
Dydd Iau	15:00	17:30
Dydd Gwener	15:00	17:30
Dydd Sadwrn	Amherthnasol	Amherthnasol
Dydd Sul	Amherthnasol	Amherthnasol

O'r gwanwyn 2022 ymlaen, yr oriau agor mwyaf cyffredin yn ystod yr wythnos i glwb ar ôl ysgol, yn gweithredu yn Sir Ddinbych, oedd 3:00pm – 5:30pm.

Yn ystod y tymor, dywedodd 6 o'r gwarchodwyr plant ac 16 o'r darparwyr gofal dydd llawn a ymatebodd, eu bod yn agor cyn 8am. Dim ond 1 darparwr gofal dydd oedd yn gwneud yn ystod

[25]Nododd un gwarchodwr plant eu bod yn cynnig gofal plant ar ddydd Sadwrn.

gwyliau'r ysgol. Dim ond 1 gwarchodwr plant a ddywedodd eu bod yn darparu gofal plant ar ôl 6pm yn ystod y tymor a gwyliau'r ysgol.

Roedd y darparwyr a oedd yn cynnig gofal plant cyn 8am wedi'u lleoli yn y wardiau canlynol:

- Corwen
- Dinbych Isaf
- Dinbych Uchaf / Henllan
- Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern
- Dwyrain Prestatyn
- Rhuddlan
- Dwyrain y Rhyl
- De Ddwyrain y Rhyl
- De Orllewin y Rhyl
- Gorllewin y Rhyl
- Trefnant

Roedd y darparwr a oedd yn cynnig gofal plant ar ôl 6pm wedi'i leoli yn Llangollen.

4.7 Y Cynnig Gofal Plant a Gofal Plant Di-dreth

Ar hyn o bryd, mae 97 o ddarparwyr wedi'u cofrestru i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant yn Sir Ddinbych, yn cynnwys 26 o warchodwyr plant a 71 o ddarparwyr gofal dydd. O'r rhain, mae 77 (79%) yn cael cyllid gan y Cynnig Gofal Plant, yn cynnwys 21 o warchodwyr plant a 56 o ddarparwyr gofal dydd.

Mae nifer y lleoedd Cynnig Gofal Plant sy'n cael eu cynnig gan y darparwyr a ymatebodd a nifer y lleoedd sydd wedi'u llenwi, yn ôl ward ac o'r gwanwyn 2022 ymlaen, i'w gweld yn y tabl isod:

Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Uwch	Ward	Nifer y Lleoedd Gofal Plant a Gynigiwyd	Nifer y Lleoedd Gofal Plant a Lenwyd
Sir Ddinbych U001	Dwyrain Llanelwy	26	16
	Gorllewin Llanelwy	Amherthnasol	Amherthnasol
	Canol Prestatyn	9	9
	Dwyrain Prestatyn	19	11
	Gallt Melyd Prestatyn	20	12
	Gogledd Prestatyn	19	6
	De Orllewin Prestatyn	46	36
	Dyserth	Amherthnasol	Amherthnasol
	Tremeirchion	22	11
	Trefnant	15	15
	Dwyrain y Rhyl	27	19
	Cyfanswm	**203**	**135**

DRAFT

Sir Ddinbych U002	De'r Rhyl	Amherthnasol	Amherthnasol
	De Ddwyrain y Rhyl	8	5
	De Orllewin y Rhyl	50	39
	Gorllewin y Rhyl	10	1
	Bodelwyddan	3	0
	Rhuddlan	60	21
	Canol Dinbych	0	0
	Cyfanswm	**131**	**66**
Sir Ddinbych U003	Dinbych Isaf	95	7
	Dinbych Uchaf / Henllan	34	3
	Llandymog/Llandyrnog	19	4
	Corwen	25	0
	Rhuthun	21	13
	Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	30	26
	Llangollen	32	23
	Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	26	14
	Efenechtyd	11	6
	Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla	31	15
	Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	16	2
	Llandrillo	0	0
	Cyfanswm	**340**	**113**

O'r data a gasglwyd yn y gwanwyn 2022, ar hyn o bryd, mae 360 o leoedd y Cynnig Gofal Plant heb eu llenwi ar draws Sir Ddinbych.

Y wardiau â'r nifer lleiaf o ddarparwyr sy'n cynnig rhan o'r cynnig gofal plant 30 awr neu'r cynnig cyfan, yw Canol Dinbych, Llandrillo a Dwyrain Prestatyn.

O ran y darparwyr gofal plant nad ydynt yn darparu'r Cynnig Gofal Plant ar hyn o bryd, y rhesymau mwyaf cyffredin a nodwyd oedd:

- Dim plant cymwys
- Capasiti
- Yn cael ei ystyried ar hyn o bryd

Dywedodd 60 o ddarparwyr gofal dydd a 27 o warchodwyr plant bod rhieni y plant y maent yn gofalu amdanynt yn cael gofal plant di-dreth neu'n defnyddio talebau gofal plant ar adeg cwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth.

Mae 33 o ddarparwyr gofal dydd yn cael cyllid i ddarparu addysg rhan amser y Blynyddoedd Cynnar. O'r rhain, ariennir 1 gan Gonwy, a'r gweddill gan Gyngor Sir Ddinbych. Mae natur y cyllid hwn yn amrywio, ond cofnodir ei fod yn cael ei dalu yn y ffyrdd canlynol:

- Fesul plentyn fesul diwrnod

- Fesul plentyn fesul wythnos
- Fesul plentyn fesul tymor
- Trwy'r Cynnig Gofal Plant (Addysg Gynnar Sir Ddinbych) ar £4.50 yr awr fesul sesiwn 2 awr a Dechrau'n Deg yn cael ei ariannu ar gost o £13.00 am sesiwn 2.5 awr.

4.8 Darpariaeth Dechrau'n Deg

Mae 13 allan o 100 o ddarparwyr yn cael cyllid i ddarparu lleoedd Dechrau'n Deg, sy'n cynrychioli 13% o ddarparwyr. O'r darparwyr hyn, mae 3 sy'n darparu darpariaeth Dechrau'n Deg yn unig. Mae'r darparwyr Dechrau'n Deg wedi'u lleoli yn y wardiau canlynol:

- Dinbych Uchaf / Henllan
- Canol Prestatyn
- Gallt Melyd Prestatyn
- De Orllewin Prestatyn
- Dwyrain y Rhyl
- Gorllewin y Rhyl
- De'r Rhyl
- De Ddwyrain y Rhyl
- De Orllewin y Rhyl

4.9 Nifer yr achosion o dueddiadau a welwyd ers 2017

Bu i 68% o warchodwyr plant, 59% o ddarparwyr gofal dydd llawn, 40% o ddarparwyr gofal dydd sesiynol a 43% o ddarparwyr gofal y tu allan i oriau ysgol nodi eu bod wedi gweld tuedd o ran y mathau o deuluoedd / cefndiroedd teuluoedd a oedd yn manteisio ar eu darpariaeth ers yr hydref 2017. Y tueddiadau mwyaf cyffredin a welwyd, yn nhrefn eu hamlder oedd:

1. Mwy o rieni yn gweithio
2. Mwy o deuluoedd BAME a theuluoedd o ardaloedd gwahanol
3. Mwy o deuluoedd incwm isel a theuluoedd o gefndiroedd difreintiedig

Bu i 68% o warchodwyr plant, 69% o ddarparwyr gofal dydd llawn, 100% o ddarparwyr gofal dydd sesiynol a 40% o ddarparwyr gofal y tu allan i oriau ysgol nodi eu bod wedi gweld tuedd o ran y galw am fathau o leoedd a'r mathau o oriau a oedd yn cael eu cynnig yn eu darpariaeth ers yr hydref 2017. Roedd safbwyntiau ar dueddiadau nodedig yn gymysg iawn, gyda darparwyr yn nodi cynnydd mewn galw (yn enwedig ar ôl y cyfnodau clo) gyda rhieni eisiau oriau hirach, a gostyngiad mewn galw oherwydd bod mwy o rieni yn gweithio gartref, a mwy o angen am ddarpariaeth gofal estynedig ac yn ystod y gwyliau. Nodwyd gan rai, oherwydd bod gwarchodwyr plant yn gadael y proffesiwn, bod galw, yn enwedig galw am ofal plant yn Gymraeg, wedi cynyddu.

4.10 Darpariaeth Gymraeg

Mae'r tabl isod yn dangos y brif iaith a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaethau gofal plant:

Iaith	Canran y Darparwyr	Nifer y Darparwyr
Saesneg	67%	67

Cymraeg	22%	22
Y Ddwy	11%	11

Ni nodwyd unrhyw iaith arall.

O'r 71 o ddarparwyr gofal dydd a gwblhaodd y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, mae 20 yn darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg yn bennaf ac mae 8 yn darparu gofal plant dwyieithog yn bennaf. O'r 29 o warchodwyr plant sy'n gweithredu yn Sir Ddinbych, mae 2 yn darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg ac mae 3 yn ddwyieithog. Y wardiau sy'n cynnig darpariaeth Gymraeg yw:

- Dinbych Isaf
- Dinbych Uchaf / Henllan
- Efenechtyd
- Llandrillo
- Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern
- Llangollen
- Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch
- De Orllewin Prestatyn
- De'r Rhyl
- Rhuthun
- Dwyrain Llanelwy
- Tremeirchion

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y darparwyr gofal plant, yn ôl math, sydd naill ai'n cynnig neu'n gweithio tuag at Gynnig Gweithredol yr Iaith Gymraeg, o'r hydref 2021 ymlaen.

	Cynnig Gweithredol yr Iaith Gymraeg yn cael ei Ddarparu	Gweithio tuag at Gynnig Gweithredol yr Iaith Gymraeg
Darparwyr Gofal Dydd Llawn	6	9
Darparwyr Gofal Dydd Sesiynol	9	7
Gwarchodwyr Plant	5	8
Gofal y Tu Allan i'r Ysgol	0	3

4.11 Canfyddiadau am weithrediad yn y dyfodol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr, o'i gymharu â nawr, faint yn uwch neu is fydd nifer y lleoedd y maent yn disgwyl eu darparu yn 2023.

DRAFT

Y Math o Ddarparwr	Yn llawer uwch	Yn uwch	Tua'r un fath	Yn is	Yn llawer is	Ddim yn gwybod/Mae'n well gen i beidio â dweud
Gofal Dydd Llawn	6%	56%	16%	6%	3%	13%
Gofal Dydd Sesiynol	20%	20%	40%	0%	0%	20%
Gwarchodwr Plant Cofrestredig	42%	32%	16%	0%	0%	11%
Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol	43%	29%	14%	0%	0%	14%

Fel y dengys uchod, mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn rhagweld y bydd y galw'n uwch neu'n llawer uwch erbyn yr hydref 2023.

Ar hyn o bryd, mae gan 5% o warchodwyr plant, 41% o ddarparwyr gofal dydd llawn a 29% o ddarparwyr gofal y tu allan i'r ysgol, gynlluniau i gynyddu nifer y lleoedd y gallant eu cynnig dros y ddwy flynedd nesaf. Mae'r darparwyr hyn wedi'u halinio â'r ardaloedd canlynol:

- Canol Dinbych
- Dinbych Isaf
- Dinbych Uchaf / Henllan
- Llandyrnog
- Llangollen
- Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch
- Canol Prestatyn
- Gogledd Prestatyn
- De Orllewin Prestatyn
- Dwyrain y Rhyl
- De Ddwyrain y Rhyl
- De Orllewin y Rhyl
- Gorllewin y Rhyl

4.12 Canfyddiadau am ddigonolrwydd gofal plant ar hyn o bryd

Gofynnwyd i'r ymatebwyr, hyd eithaf eu gwybodaeth, os oeddent yn credu bod nifer digonol o leoedd gofal plant o fewn grwpiau oedran penodol a grwpiau penodol o fewn eu hardal ddaearyddol gyfagos ar hyn o bryd. Mae'r canlyniadau i'w gweld isod:

Gofal Dydd Llawn

	Oes	Nac oes	Ddim yn gwybod
0-2 oed	25%	61%	14%
3-4 oed	52%	41%	7%
5-14 oed	36%	30%	34%

DRAFT

Plant ag ADY	32%	41%	27%
Plant ag anghenion meddygol cymhleth	32%	41%	27%

Gwarchodwr Plant

	Oes	Nac oes	Ddim yn gwybod
0-2 oed	15%	79%	5%
3-4 oed	28%	67%	5%
5-14 oed	44%	38%	18%
Plant ag ADY	5%	69%	26%
Plant ag anghenion meddygol cymhleth	5%	69%	26%

Gofal Dydd Sesiynol

	Oes	Nac oes	Ddim yn gwybod
0-2 oed	25%	67%	8%
3-4 oed	58%	42%	0%
5-14 oed	67%	25%	8%
Plant ag ADY	33%	50%	17%
Plant ag anghenion meddygol cymhleth	33%	50%	17%

Gofal y Tu Allan i'r Ysgol

	Oes	Nac oes	Ddim yn gwybod
0-2 oed	33%	33%	33%
3-4 oed	67%	33%	0%
5-14 oed	100%	0%	0%
Plant ag ADY	33%	67%	0%
Plant ag anghenion meddygol cymhleth	0%	67%	0%

Mae'r tablau uchod yn dangos nad yw mwyafrif y darparwyr gofal dydd llawn, darparwyr gofal dydd sesiynol a gwarchodwyr plant yn credu bod digon o leoedd ar gyfer plant 0-2 oed yn eu hardal ddaearyddol. Nid yw'r mwyafrif o warchodwyr plant o'r farn bod digon o leoedd i blant 3-4 oed. Yn

ogystal, roedd canrannau yr holl fathau o ddarparwyr a oedd yn teimlo nad oedd digon o leoedd ar gyfer plant 5-14 oed, neu'n ansicr, hefyd yn nodedig.

Ystyrir bod digonolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer plant ag ADY ac anghenion meddygol cymhleth yn wendid, yn enwedig gan warchodwyr plant.

4.13 Canfyddiadau am fathau o gymorth sy'n fuddiol

Mae'r tabl isod yn dangos y graddau yr oedd darparwyr gofal dydd a gwarchodwyr plant cofrestredig yn teimlo y byddai eu darpariaeth yn elwa o fathau penodol o gymorth - o bosib drwy'r awdurdod lleol.

Math o Gymorth	Canran y darparwyr gofal dydd	Canran y gwarchodwyr plant
Recriwtio a chadw	10%	0%
Hyfforddiant staff	12%	11%
Cymorth / cyngor marchnata	12%	7%
Cymorth / cyngor modelu busnes	10%	0%
Cymorth / cyngor ar gofrestru / arolygu	7%	11%
Cefnogaeth i rwydweithio gyda darparwyr / gwarchodwyr plant eraill	9%	7%
Cymorth / cyngor ar anghenion plant ag ADY ac anableddau	14%	22%
Dim	20%	26%
Arall	12%	15%

O'r rhai hynny a nodwyd 'Arall', gofynnwyd am y mathau canlynol o gefnogaeth:

- Cyllid ychwanegol
- Mwy o gymorth â dysgu cyrsiau Cymraeg a chyrsiau Cymraeg y Blynyddoedd Cynnar.
- Cymorth â gweithredu canllawiau'r llywodraeth sy'n ymwneud â COVID
- Cymorth wrth gefnogi plant â phroblemau ymddygiad

O'r rhai hynny a ddewisodd hyfforddiant staff fel maes y maent angen cymorth ag ef, cymorth i ddisgyblion ag ADY oedd y math a ofynnwyd amdano amlaf, ynghyd â hyfforddiant yn y Gymraeg a mwy o hyfforddiant wyneb yn wyneb. Bu i'r darparwyr hefyd nodi ei bod weithiau'n anodd cael mynediad at y cyrsiau oherwydd eu bod yn cael eu cynnal yn ystod oriau gwaith a'u bod yn ddrud. Dywedodd un:

"Y peth da am COVID yw ein bod yn awr yn gallu cael mynediad at fwy o gyrsiau ar-lein. Mae'n ymddangos nad oes modd cael mynediad at unrhyw hyfforddiant oni bai eich bod yn byw yn y Rhyl neu ardal debyg."

Gofynnwyd hefyd i'r darparwyr awgrymu tri maes blaenoriaeth o wybodaeth, cymorth a hyfforddiant y gallai Cyngor Sir Ddinbych, yn ddelfrydol, eu darparu i gynorthwyo darparwyr gofal plant lleol â chefnogi a darparu lleoedd gofal plant i blant ag ADY.

Yr atebion mwyaf cyffredin, yn nhrefn eu hamlder, oedd:

1 Mwy o hyfforddiant ar ADY (wedi'i ariannu), yn cynnwys hyfforddiant ar awtistiaeth, ymddygiad ac iaith arwyddion / Makaton

2 Mwy o gymorth â gwneud atgyfeiriadau a chael gafael ar gyllid

3 Cymorth â chyflogi staff cymwys

4.14 Effaith COVID-19 ar alw a digonolrwydd

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr a wnaethant barhau i agor ar gyfer plant gweithwyr allweddol yn ystod cyfnodau clo COVID-19. Dywedodd 62.5% o ddarparwyr gofal dydd llawn eu bod wedi parhau i agor, a dywedodd 37.5% eu bod wedi cau oherwydd y canllawiau a oedd mewn grym yn ystod y cyfnod hwn. Bu i 80% o ddarparwyr gofal dydd sesiynol a 43% o ddarparwyr gofal y tu allan i'r ysgol aros ar agor yn ystod y cyfnod clo. Dywedodd 53% o warchodwyr plant eu bod wedi parhau i weithredu yn ystod y cyfnod hwn, a dywedodd 47% eu bod wedi stopio darparu gofal plant. Dywedodd y rhan fwyaf o'r holl fathau o ddarparwyr nad oedd llawer o alw i edrych ar ôl plant gweithwyr allweddol yn ystod y cyfnod hwn. Nodwyd y galw uchaf gan ddarparwyr gofal dydd llawn (atebodd 28% ohonynt eu bod yn wir wedi gweld llawer o alw i edrych ar ôl plant gweithwyr allweddol).

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd COVID-19 wedi effeithio ar eu gallu i gynyddu nifer y lleoedd y maent yn eu darparu. Dywedodd y rhan fwyaf o'r darparwyr nad oedd wedi effeithio ar hyn. O'r 15% a ddywedodd ei fod wedi cael effaith arnynt, yr effeithiau mwyaf cyffredin a nodwyd oedd:

1. Llai o alw oherwydd bod rhieni yn gweithio gartref
2. I ddechrau, roedd wedi effeithio arnynt oherwydd swigod cefnogaeth, ond mae bellach wedi dychwelyd i lefelau arferol.

Bu i rai darparwyr hefyd nodi straen ariannol cynyddol ar eu busnes; parhaodd 6% o'r ymatebwyr i godi ffi ar rieni (ar gyfradd ostyngol a weithiau dewisol) am leoedd nad oedd yn cael eu llenwi yn ystod y pandemig er mwyn talu'r costau rhedeg, gyda'r mwyafrif o'r rhain yn warchodwyr plant.

Roedd 41% o'r darparwyr gofal dydd llawn a gofal dydd sesiynol, 53% o'r gwarchodwyr plant a 57% o'r darparwyr y tu allan i'r ysgol yn teimlo bod COVID-19 wedi effeithio ar gynaliadwyedd eu busnes, gyda llawer yn gorfod cau ar ddechrau'r pandemig. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gymysg - nododd y rhai a oedd yn teimlo ei fod wedi effeithio ar gynaliadwyedd, resymau megis llai o alw oherwydd bod nifer uwch o rieni yn gweithio gartref neu ar ffyrlo, gostyngiad o ran staff i ddechrau ond yna'n gorfod cyflogi staff newydd wrth i niferoedd gynyddu, ffioedd a chostau cyffredinol cynyddol am offer glanhau / Cyfarpar Diogelu Personol a cholli refeniw oherwydd eu bod wedi gorfod cau am dros 3 mis. Cyfeiriodd rhai darparwyr at gael gafael ar grantiau drwy'r Cyngor, gan ddweud bod y rhain wedi'u helpu'n fawr, er i leiafrif ddweud nad oeddent yn gallu cael gafael ar grantiau.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn teimlo bod COVID-19 wedi cael effaith ar gadw eu staff a lles meddyliol eu staff. Roedd cyfraddau'r ymatebion fel a ganlyn:

- Dywedodd 32% o warchodwyr plant ei fod wedi cael effaith
- Dywedodd 34% o ddarparwyr gofal dydd llawn ei fod wedi cael effaith
- Dywedodd 80% o ddarparwyr gofal dydd sesiynol ei fod wedi cael effaith
- Dywedodd 47% o ddarparwyr y tu allan i'r ysgol ei fod wedi cael effaith

Roedd pryderon iechyd a newid gyrfa ymysg yr effeithiau mwyaf cyffredin a nodwyd ar gadw staff ac iechyd meddwl staff. Mae rhai o'r sylwadau a wnaed dro ar ôl tro ar y pwnc yn cynnwys:

"Mae wedi bod yn straen mawr. Rwy'n ffodus oherwydd bod staff wedi bod gyda mi ers amser hir ond rwy'n credu bod rhai ohonom yn dal i gael trafferth. Efallai y dylid cael rhyw fath o wasanaeth lles y gallent gael mynediad ato, rydym wedi bod yn cefnogi ein gilydd heb unrhyw gymorth."

"Rydym wedi gorfod cydbwyso gofal am ein plant ein hunain â dod i'r gwaith ac roedd hyn yn anodd iawn. Rwy'n teimlo bod COVID wedi cael effaith gwirioneddol ar y plant, mae'n cymryd 6 mis iddynt gyrraedd y lefel yr oedd yn arfer cymryd 6 wythnos i'w chyrraedd."

"Mae wedi bod yn anodd i staff o ran cymryd amser i ffwrdd e.e. nid yw staff wedi gallu cael gymaint o wyliau blynyddol. Mae staff wedi gweld hyfforddiant ar-lein, yn hytrach na wyneb yn wyneb, yn anodd, sydd wedi bod yn fwy problemus ers COVID."

Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr wneud sylw ar reoli eu busnes o safbwynt masnachol yn ystod y pandemig. Roedd y safbwyntiau o leoliadau yn gymysg; roedd yn straen mawr ar lawer ac yn anodd yn ariannol nes y cafwyd grantiau a chymorth ariannol, ond yn ôl eraill nid oedd wedi cael llawer o effaith neu dim effaith o gwbl. Rhai o'r sylwadau mwyaf cyffredin a rannwyd oedd:

"Roedd yn anodd iawn i mi yn ystod COVID ar ôl bron i 30 mlynedd fel gwarchodwr plant. Ychydig iawn o gymorth a gefais gan AGC, (1 e-bost mewn 6 mis). Roedd Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Ddinbych yn cynnig mwy o gymorth, roeddem yn arfer cael y newyddion diweddaraf ganddynt yn rheolaidd ar e-bost e.e. ar y grantiau ar gael, ar y rheoliadau COVID mewn grym. Heb y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd fe fydden ni wedi bod mewn trwbl."

"Roedd yn iawn, roedden yn lwcus i beidio â chael ein gadael yn y niwl. Trafodwyd yr holl bolisïau a gweithdrefnau gyda ni. Roedd yn rhaid i ni brynu mwy o Gyfarpar Diogelu Personol, deunyddiau glanhau, ac ail-hyfforddi staff ond roedd popeth yn iawn drwy gydol y cyfnod."

"Roedd yn anodd dros ben, y peth anoddaf oedd gorfod cau fel busnes. Roedd rhoi staff ar ffyrlo yn anodd, mae gorfod dod o hyd i staff cymwys newydd yn awr yn anodd."

"Roeddwn i'n teimlo'n ynysig ac wedi drysu wrth i'r rheolau newid o hyd - roeddwn yn ddiolchgar am y rhwydwaith gwarchod plant."

"Fe wnaethom ddefnydd o'r trefniadau ffyrlo a phethau eraill ac roedd hynny o gymorth, ond roedd yn straen mawr. "Roedd yn anodd cynllunio unrhyw beth oherwydd bod yn cyngor yn newid bob wythnos."

Ar adeg yr arolwg, dywedodd yr holl ymatebwyr eu bod yn parhau i ddilyn canllawiau perthnasol y llywodraeth ar COVID-19, yn cynnwys cwblhau asesiadau risg COVID, profi staff yn rheolaidd, golchi dwylo, gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol addas a glanhau teganau ac arwynebau'n rheolaidd.

4.15 Cynaliadwyedd

Gofynnwyd i'r darparwyr a oedden nhw'n teimlo y byddai COVID-19 yn parhau i effeithio ar eu cynaliadwyedd.

Y Math o Ddarparwr / Sector	Yn y 3 mis nesaf	Yn y 6 mis nesaf	Yn y 12 mis nesaf	Na
Gofal Dydd Llawn	13%	3%	9%	75%
Gofal Dydd Sesiynol	0%	0%	0%	100%
Gwarchodwr Plant Cofrestredig	16%	16%	5%	63%
Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol	14%	0%	29%	57%

Nid oedd y mwyafrif o'r farn y byddai COVID-19 yn effeithio ar eu cynaliadwyedd yn y 12 mis nesaf.

Er i bob darparwr gofal dydd nodi eu bod yn bwriadu parhau i ddarparu gofal plant am y 5 mlynedd nesaf o leiaf, dywedodd 16% o warchodwyr plant nad oeddent yn disgwyl bod yn darparu gofal plant mewn 3 blynedd. Nodwyd hyn fwyaf ym Modelwyddan a De Orllewin Prestatyn.

4.16 Trawsffiniol

Mae Sir Ddinbych yn ffinio gyda phedair sir arall - Conwy, Gwynedd, Wrecsam a Sir y Fflint. Mae gan Sir Ddinbych ymagwedd ranbarthol tuag at ofal plant, gan weithio'n agos â'r awdurdodau hyn. Mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithredu fel yr awdurdod darparu ar ran Cyngor Sir Ddinbych i brosesu'r Cynnig Gofal Plant ar draws y sir. Mae Rheolwr Datblygu Chwarae a Gofal Plant Sir Ddinbych yn mynychu holl gyfarfodydd chwarterol Swyddog Arweiniol y Cynnig Gofal Plant gyda Wrecsam a Sir y Fflint.

4.17 Datblygu a Hyfforddi'r Gweithlu

Lefelau cymhwyster, yn ôl math o ofal plant:

Gwarchodwyr Plant

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru	Teitl y Swydd	Nifer
Lefel 2	Ymarferwyr Gofal Plant	0
	Ymarferwyr Chwarae	1

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru	Teitl y Swydd	Nifer
Lefel 3	Ymarferwyr Gofal Plant	10
	Ymarferwyr Chwarae	1

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru	Teitl y Swydd	Nifer
Lefel 5	Ymarferwyr Gofal Plant	2
	Ymarferwyr Chwarae	0

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru	Teitl y Swydd	Nifer
Heb ei nodi	Ymarferwyr Gofal Plant	4
	Ymarferwyr Chwarae	3

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru	Teitl y Swydd	Nifer
Dim	Ymarferwyr Gofal Plant	2
	Ymarferwyr Chwarae	0

Gofal Dydd Llawn

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru	Teitl y Swydd	Nifer
Lefel 2	Ymarferwyr Gofal Plant	65
	Ymarferwyr Chwarae	34

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru	Teitl y Swydd	Nifer
Lefel 3	Ymarferwyr Gofal Plant	192
	Ymarferwyr Chwarae	61

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru	Teitl y Swydd	Nifer

DRAFT

Heb ei nodi	Ymarferwyr Gofal Plant	60
	Ymarferwyr Chwarae	19

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru	Teitl y Swydd	Nifer
Dim	Ymarferwyr Gofal Plant	53
	Ymarferwyr Chwarae	73

Gofal Dydd Sesiynol

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru	Teitl y Swydd	Nifer
Lefel 2	Ymarferwyr Gofal Plant	1
	Ymarferwyr Chwarae	0

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru	Teitl y Swydd	Nifer
Lefel 3	Ymarferwyr Gofal Plant	22
	Ymarferwyr Chwarae	0

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru	Teitl y Swydd	Nifer
Lefel 5	Ymarferwyr Gofal Plant	3
	Ymarferwyr Chwarae	1

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru	Teitl y Swydd	Nifer
Heb ei nodi	Ymarferwyr Gofal Plant	2
	Ymarferwyr Chwarae	0

DRAFT

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru	Teitl y Swydd	Nifer
Dim	Ymarferwyr Gofal Plant	2
	Ymarferwyr Chwarae	0

Gofal y Tu Allan i'r Ysgol

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru	Teitl y Swydd	Nifer
Lefel 2	Ymarferwyr Gofal Plant	12
	Ymarferwyr Chwarae	8

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru	Teitl y Swydd	Nifer
Lefel 3	Ymarferwyr Gofal Plant	9
	Ymarferwyr Chwarae	15

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru	Teitl y Swydd	Nifer
Lefel 5	Ymarferwyr Gofal Plant	5
	Ymarferwyr Chwarae	4

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru	Teitl y Swydd	Nifer
Heb ei nodi	Ymarferwyr Gofal Plant	17
	Ymarferwyr Chwarae	6

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru	Teitl y Swydd	Nifer

DRAFT

Dim	Ymarferwyr Gofal Plant	3
	Ymarferwyr Chwarae	6

Bu i 88% o ddarparwyr gofal dydd llawn, 77% o ddarparwyr gofal y tu allan i oriau ysgol a 90% o ddarparwyr gofal dydd sesiynol, nodi bod ganddynt aelod dynodedig o staff sy'n gyfrifol am wneud trefniadau i blant ag ADY / anghenion meddygol cymhleth. Dywedodd 34% o warchodwyr plant eu bod yn gyfrifol am hyn.

Bu i 17% o warchodwyr plant nodi eu bod yn cael hyfforddiant arbenigol ychwanegol i gefnogi plant ag ADY ac anableddau, o'i gymharu â 60% o ddarparwyr gofal dydd llawn, 70% o ddarparwyr gofal dydd sesiynol a 69% o ddarparwyr gofal y tu allan i oriau ysgol.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r darparwyr, os bydden nhw'n chwilio am gymorth â hyfforddi gweithlu, byddent yn cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, colegau lleol neu AGC.

4.18 Canfyddiadau allweddol gan ddarparwyr

- O'r gwanwyn 2022 ymlaen, yr oriau agor mwyaf cyffredin yn ystod yr wythnos i ddarparwyr gofal dydd llawn, yn gweithio yn Sir Ddinbych, oedd 7:30am – 6:00pm, ac 8:00am – 5:30pm i warchodwyr plant. Ar hyn o bryd, mae 11 o wardiau gyda darparwyr sy'n cynnig gofal plant cyn 8am ac un ward sy'n cynnig gofal plant ar ôl 6pm - Llangollen.
- Mae 13 allan o 100 o ddarparwyr yn cael cyllid i ddarparu lleoedd Dechrau'n Deg. Mae hyn yn cynrychioli 13% o ddarparwyr. O'r darparwyr hyn, mae 3 sy'n darparu darpariaeth Dechrau'n Deg yn unig. Mae darparwyr Dechrau'n Deg wedi'u lleoli mewn 9 ward, ym Mhrestatyn a'r Rhyl yn bennaf.
- Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddarparwyr yn cynnig gofal dros nos yn Sir Ddinbych, gydag un gwarchodwr plant yn nodi eu bod yn cynnig gofal plant ar ddyddiau Sadwrn.
- Yn ystod y 12 mis diwethaf, dywedodd 68% o warchodwyr plant, 34% o ddarparwyr gofal dydd llawn, 40% o ddarparwyr gofal dydd sesiynol a 14% o ddarparwyr gofal y tu allan i'r ysgol, eu bod yn cadw rhestr aros yn ystod y tymor. Nodwyd rhestrau aros gwyliau ysgol yng: Nghanol Dinbych, Dinbych Isaf, Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern, Gallt Melyd Prestatyn, De Orllewin Prestatyn, De Ddwyrain y Rhyl, De Orllewin y Rhyl, Dwyrain Llanelwy.
- Yn y gwanwyn 2022, roedd 15 o leoedd gwag gyda gwarchodwyr plant ar gyfer gofal dydd llawn, ar draws y sir. Yng Ngallt Melyd Prestatyn a Llandrillo oedd yr achosion uchaf o leoedd gwag gyda gwarchodwyr plant. Bu i ddarparwyr gofal dydd llawn gofnodi oddeutu 180 o leoedd gwag ar draws y sir, gyda 46 o'r rhain yn Ne Orllewin y Rhyl ac 20 yn Llangollen.
- Nodwyd ariannu annigonol, anallu i ddarparu cymorth 1:1 a diffyg staff hyfforddedig a / neu unigolion â chymwysterau arbenigol fel y prif resymau a oedd yn wynebu darparwyr o ran y ddarpariaeth i blant ag ADY a / neu anableddau. Roedd y canfyddiad o ddiffyg cyllid ar gyfer plant ag ADY ac anableddau yn thema a oedd yn codi dro ar ôl tro drwy gydol y cyfnod ymgynghori, ynghyd â darparwyr yn nodi mwy o angen am staff cymwys a hyfforddiant addas i staff. Teimlwyd hefyd bod y ddarpariaeth i blant ag ADY yn annigonol.
- O ran y tueddiadau a welwyd, nodwyd gan y darparwyr, ers 2017, bod mwy o rieni sy'n gweithio, teuluoedd BAME a theuluoedd o ardaloedd gwahanol, yn ogystal â mwy o

deuluoedd incwm isel a theuluoedd o gefndiroedd difreintiedig. Nodwyd hefyd bod mwy o rieni eisiau oriau hirach, gyda gostyngiad yn y galw cyffredinol oherwydd bod mwy o rieni yn gweithio gartref. Mae hefyd mwy o angen am ddarpariaeth estynedig ac yn ystod y gwyliau. Nodwyd gan rai, oherwydd bod gwarchodwyr plant yn gadael y proffesiwn, bod galw, yn enwedig galw am ddarpariaeth Gymraeg, wedi cynyddu.

- O ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg, o'r 71 o ddarparwyr gofal dydd a gwblhaodd y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, mae 20 yn darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg ac mae 8 yn darparu gofal plant dwyieithog. O'r 29 o warchodwyr plant, mae 2 yn darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg ac mae 3 yn ddwyieithog.
- O ran tueddiadau ehangach, nid yw'r mwyafrif o ddarparwyr gofal dydd llawn, darparwyr gofal dydd sesiynol a gwarchodwyr plant yn credu bod digon o leoedd ar gyfer plant 0-2 oed yn eu hardal ddaearyddol. Nid yw'r mwyafrif o warchodwyr plant o'r farn bod digon o leoedd i blant 3-4 oed.
- Yn ôl ymatebion y darparwyr, ymddengys bod llawer o wasanaethau, darpariaeth Gymraeg a'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant ar gael yn ardal y Rhyl yn bennaf, yn enwedig U002 Sir Ddinbych, sy'n cyfyngu'r hyn y gall darparwyr gofal plant o ardaloedd eraill gael mynediad ato.

DRAFT

5. Canlyniadau'r Grwpiau Ffocws ac Arolwg i Rieni

5.1 Cyd-destun

Bu i Lywodraeth Cymru ymgynghori â rhieni a gofalwyr ar draws holl Awdurdodau Lleol Cymru drwy Arolwg ar-lein a gynhaliwyd o 1 Hydref - 31 Hydref 2021. Bwriad yr arolwg oedd deall anghenion gofal plant gofalwyr / rhieni â phlant 0-17 oed, yn benodol eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau cofrestredig (h.y. gwasanaethau sydd wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru) a gofal plant heb ei gofrestru (e.e. nanis, au pairs, clybiau chwaraeon / gweithgareddau ac ati). Cafwyd 227 o ymatebion gan rieni / gofalwyr ar draws Cyngor Sir Ddinbych, a oedd yn cynrychioli 2.63% o'r holl ymatebwyr ar draws Cymru.

Roedd nifer yr ymatebion gan rieni / gofalwyr wedi gostwng o 40% ers y Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf. Hefyd, dim ond cyfran fach o 96,021 o breswylwyr y sir a gynrychiolir gan yr ymatebwyr i'r arolwg ar-lein, ac felly dylid cydnabod cyfyngiadau'r data a ddadansoddir isod.

I ategu arolwg Llywodraeth Cymru a darparu data cyfoethocach a mwy penodol ar rwystrau o ran cael mynediad at ofal plant, cynhaliodd Grŵp Cynghori Premier grwpiau ffocws a chyfweliad 1:1 manwl ar ran y Cyngor gyda rhieni / gofalwyr ar draws y sir. Fel corff ymchwilio annibynnol, roedd hyn i fod i roi cyfle i rieni/gofalwyr rannu eu safbwyntiau ar ofal plant yn agored, gyda'r sicrwydd bod yr holl ddata a oedd yn cael ei ddefnyddio i lywio'r adroddiad yn cael ei gadw'n ddi-enw. Hysbyswyd grwpiau ffocws penodol i rieni/gofalwyr a oedd yn ystyried eu hunain yn rhan o'r grwpiau canlynol:

- Rhieni sy'n gweithio a rhieni sy'n chwilio am waith neu hyfforddiant
- Rhieni BAME
- Rhieni â phlant ag ADY a / neu anableddau
- Teuluoedd ar incwm isel a rhieni di-waith
- Rhieni sengl
- Rhieni sy'n siarad Cymraeg.

Anogwyd rhieni i gofrestru'n wirfoddol drwy Eventbrite ac fe hysbysebwyd y grwpiau drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ysgolion, lleoliadau Blynyddoedd Cynnar a sefydliadau a grwpiau perthnasol eraill ar draws Sir Ddinbych a Chymru. Cynhaliwyd sesiynau'r grwpiau ffocws ar Zoom dros bedwar dyddiad gwahanol. Pan nad oedd digon o gyfranogwyr i gynnal grŵp ffocws penodol, cynhaliwyd cyfweliad ffôn 1:1 i ganfod barn rhieni / gofalwyr ar y rhwystrau ymddangosiadol i gael gofal plant. Mae'r canfyddiadau o'r ymgynghoriad ychwanegol hwn wedi'u cynnwys yn dadansoddiad isod.

5.2 Nodweddion economaidd-gymdeithasol y rhieni a ymatebodd

O ran cyfrifoldebau gofalu / rhianta, cofnodwyd yr ymatebion canlynol pan ofynnwyd i'r rhieni pa un o'r canlynol oedd yn disgrifio eu haelwyd orau.

Ymateb	Canran y Cyfanswm
Fi sy'n llwyr gyfrifol am fy mhlant	18.1%

DRAFT

Rwy'n rhannu cyfrifoldeb am fy mhlant gyda rhywun rwy'n byw gyda nhw	66.1%
Rwy'n rhannu cyfrifoldeb am fy mhlant gyda rhywun nad wyf yn byw gyda nhw	10.6%
Rwy'n ddarpar riant	0.9%
Rwy'n ofalwr maeth	3.1%
Rwy'n nain neu'n daid	1.3%

Fel y dangosir uchod, mae mwyafrif yr ymatebwyr yn rhannu cyfrifoldeb am eu plant gyda rhywun y maent yn byw â nhw, gyda 18.0% yn unig rieni. Nodwyd bod 3.0% yn ofalwyr maeth.

O ran statws cyflogaeth / hyfforddiant yr ymatebwyr, mae'r rhan helaeth ohonynt (80.6%) mewn gwaith ar hyn o bryd, gyda 5.3% yn ddi-waith ond yn chwilio am swydd (gweler y tabl isod).

Yn chwilio am swydd ond ddim yn gweithio eto	**Canran y Cyfanswm**
Chi	4.9%
Eich Partner (os yn berthnasol)	2.2%
Cyflogedig	**Canran y Cyfanswm**
Chi	80.6%
Eich Partner (os yn berthnasol)	59.5%
Hunangyflogedig	**Canran y Cyfanswm**
Chi	6.2%
Eich Partner (os yn berthnasol)	13.2%
Mewn addysg neu hyfforddiant	**Canran y Cyfanswm**
Chi	5.7%
Eich Partner (os yn berthnasol)	1.3%
Ddim yn gweithio nac yn chwilio am swydd	**Canran y Cyfanswm**

Chi	5.3%
Eich Partner (os yn berthnasol)	1.8%
Ddim yn gallu gweithio	**Canran y Cyfanswm**
Chi	5.3%
Eich Partner (os yn berthnasol)	1.3%

Pan ofynnwyd beth oedd incwm gros eu haelwyd bob wythnos, cafwyd yr ymatebion canlynol. **Ni** chafwyd llawer iawn o ymatebion ar gyfer y cwestiwn hwn

Ymateb	Canran y Cyfanswm
Mae'n well gen i beidio â dweud	18.9%
Hyd at £100	0.9%
£100 i £149	4.4%
£150 i £249	2.6%
£250 i £349	7.1%
£350 i £499	10.1%
£500 i £580	9.3%
£581 i £750	12.8%
£750 i £999	14.5%
Mwy na £1,000	12.8%

Bu i 35 o rieni nodi eu bod yn cael elfen gofal plant y Credyd Cynhwysol / Treth Gwaith. gyda 50 arall yn cael Talebau Gofal Plant / Gofal Plant Di-dreth. Roedd 1 yn cael Grant Gofal Plant i Fyfyrwyr.

Ymateb	Canran y Cyfanswm	Swm

Elfen Gofal Plant y Credyd Cynhwysol / Treth Gwaith	15.42%	35
Talebau Gofal Plant / Gofal Plant Di-dreth	22.03%	50
Grant Gofal Plant i Fyfyrwyr	0.44%	1
Cyfraniad y Cyflogwr	0.00%	0

Fel y manylir isod, roedd 95.2% o'r ymatebwyr yn ystyried eu hunain yn Gymreig/Seisnig/Albanaidd/o Ogledd Iwerddon/Prydeinig, sydd bron yn unol â demograffeg Sir Ddinbych (gweler Adran 3).

Ethnigrwydd yr ymatebwyr

Ymateb	Canran y Cyfanswm	Swm
Cymreig/ Saesnig/ Albanaidd/ o Ogledd Iwerddon/ Prydeinig	95.15%	216
Gwyn a Du Caribïaidd	1.76%	4
Asiaidd	0.44%	1
Hwngaraidd	0.44%	1
Portiwgalaidd	0.44%	1
Gwyn a Du Affricanaidd	0.44%	1
Japaneaidd	0.44%	1
Sri Lancaidd	0.44%	1
Affricanaidd	0.44%	1

5.3 Defnydd presennol o ofal plant

Fel y manylir isod, roedd bron i hanner yr ymatebion gan rieni â dau o blant, gyda 30.4% gan rieni ag un plentyn. Ni chafwyd unrhyw ymatebion gan rieni â saith o blant.

Ymateb	Canran y Cyfanswm
Dim	10.6%
Un	30.4%
Dau	40.1%
Tri	13.2%
Pedwar	4.4%
Pump	0.4%
Chwech	0.4%
Saith	0.0%
Wyth	0.4%
Amherthnasol	0.0%

Yn ôl yr ymatebion, roedd gan y rhieni blant ag ystod eang o oedrannau Fel y dangosir isod, y grŵp oedran mwyaf cyffredin o ran oed plant yr ymatebwyr oedd 5-8 oed, gyda phlant 9-11 wedi hynny. Y grŵp lleiaf oedd plant 4 oed.

DRAFT



Gofynnwyd i'r rhieni a oedd gan eu plentyn (3-4 oed) le addysg gynnar wedi'i ariannu mewn ysgol neu feithrinfa ar hyn o bryd. Yn ôl yr ymatebwyr a arolygwyd, mae gan 74.2% le o'r fath yn yr un ALl y maent yn byw ynddo, gyda dim ond un ymatebydd yn nodi bod ganddynt le addysg gynnar wedi'i ariannu mewn ALl arall.



Gofynnwyd i'r rhieni hefyd, a oedd eu plentyn 3 neu 4 oed yn cael gofal plant wedi'i ariannu gan y llywodraeth ar hyn o bryd drwy'r Cynnig Gofal Plant, dywedodd 55.4% eu bod yn cael gofal plant yn

yr ALl y maent yn byw ynddo ar hyn o bryd. Nododd 10.8% y byddent o bosib yn manteisio ar y Cynnig Gofal Plant yn y dyfodol, a nododd 10.8% nad oedd ganddynt unrhyw gynlluniau i fanteisio ar y cynnig. Darparwyd y rhesymau canlynol:

"Anhawster o ran cael penderfyniad unigol. Er bod gwybodaeth gyffredinol ar y we, byddai o gymorth pe bai yna gyswllt clir i gael cymorth / asesiad."

"Nid oes gen i hawl iddo oherwydd fy mod wedi ymddeol ac nid wyf yn gweithio."

"Ddim yn gymwys; un rhiant yn gweithio."



Nododd 70.9% o'r ymatebwyr nad oedd eu plentyn 2 neu 3 oed yn cael gofal plant Dechrau'n Deg ar hyn o bryd, gyda 8.9% yn nodi bod eu plentyn yn cael gofal plant o'r fath, a 6.3% yn 'ansicr'.

Pan ofynnwyd iddynt ymhelaethu, dywedodd 7 o'r ymatebwyr nad oeddent yn gymwys neu ddim yn gallu cael mynediad at y ddarpariaeth oherwydd yr ardal yr oeddent yn byw ynddi, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn o godau post LL18, LL15 a LL16. Mynegodd y rhieni eu pryderon ac anghytundebau â chymhwysedd Dechrau'n Deg. Er enghraifft:

"Nid oes gen i hawl iddo oherwydd fy mod wedi ymddeol ac nid wyf yn gweithio."

"Nid wyf yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg."



Pan ofynnwyd a oeddent yn dymuno cael gofal plant wedi'i ariannu gan y llywodraeth, pan fyddai eu plentyn yn gymwys yn 3 oed, roedd y cyfraddau ymateb yn isel, gyda 83.3% o ymatebwyr yn dewis peidio ag ateb. O'r rhai a ymatebodd, dywedodd 37 eu bod yn dymuno cael gofal plant wedi'i ariannu gan y llywodraeth, a dywedodd 1 nad oedd yn dymuno cael y gofal hwnnw. Darparodd yr unigolyn, nad oedd eisiau'r gofal, y rheswm canlynol am hynny:

"Cafodd fy merch ei geni ym mis Mehefin ac ni fydd yn cael y cynnig oherwydd y bydd yn dechrau yn yr ysgol ym mis Medi (yn ôl y wefan)".

O ran Anghenion Dysgu Ychwanegol a / neu anabledd neu salwch hirdymor, nid oedd gan y rhan fwyaf o'r rhieni a ymatebodd blentyn ag ADY neu anabledd (gweler isod). Fel y dangosir, nid oes gan 82.4% o rieni blentyn ag anabledd neu salwch hirdymor ac nid oes gan 80.6% o rieni blentyn ag ADY.

DRAFT





O ran y ddarpariaeth a ddefnyddiwyd gan rieni, rhestrwyd bod ystod o ddarparwyr a mathau o ofal plant wedi cael eu defnyddio drwy'r arolwg. Fel y manylir yn y tablau isod, y ddarpariaeth gofal plant mwyaf cyffredin yn ystod y tymor ac y gwyliau yw teulu / ffrindiau (di-dâl), gyda meithrinfa ddydd breifat a gofal estynedig yr ysgol wedi'u nodi fel y darpariaethau mwyaf cyffredin wedi hynny.

Math o ofal plant / addysg gynnar	Nifer y rhieni sy'n defnyddio'r math hwn o ofal plant (yn ystod y tymor)
Gwarchodwr Plant	15
Clwb Brecwast / Cyn Ysgol	66
Clwb Ar Ôl Ysgol	74
Meithrinfa Ddydd Breifat	73
Dosbarth Meithrin	19
Cylch Chwarae	16
Cylch Meithrin	21
Crèche Gollwng a Chasglu	1
Nani	2
Au Pair	0
Teulu / Ffrindiau (am dâl)	9
Teulu / Ffrindiau (di-dâl)	92
Dim yn Ystod y Tymor	24

Math o ofal plant / addysg gynnar	Nifer y rhieni sy'n defnyddio'r math hwn o ofal plant (yn ystod y gwyliau)
Gwarchodwr Plant	16
Gofal Gwyliau	32
Meithrinfa Ddydd Breifat	81
Cyn-Ysgol Baratoi (Breifat)	0

DRAFT

Cylch Chwarae	9
Cylch Meithrin	5
Crèche Gollwng a Chasglu	1
Nani	1
Au Pair	0
Cynllun Chwarae	10
Teulu / Ffrindiau (am dâl)	11
Teulu / Ffrindiau (di-dâl)	15
Dim yn Ystod Gwyliau'r Ysgol	35

Wrth benderfynu faint o oriau yr wythnos, ar gyfartaledd, mae rhieni yn defnyddio gofal plant, mae'r tabl canlynol yn darparu dadansoddiad o faint o oriau yr wythnos, ar gyfartaledd, mae rhieni yn defnyddio gofal plant yn Sir Ddinbych. Fel y dangosir, ar gyfartaledd, mae rhieni yn defnyddio 19.1 awr o ofal plant yr wythnos yn Sir Ddinbych yn ystod y tymor, a 22 awr yr wythnos yn ystod gwyliau'r ysgol.

Yn ystod y tymor	**Cyfartaledd**
O leiaf (oriau)	17.5
Ar gyfartaledd (oriau)	19.1
Ar y mwyaf (oriau)	21
Yn ystod gwyliau'r ysgol	**Cyfartaledd**
O leiaf (oriau)	19.5
Ar gyfartaledd (oriau)	22
Ar y mwyaf (oriau)	27.3

Roedd y mwyafrif o rieni yn talu rhwng £10 - £199 am eu gofal plant bob wythnos. Gyda chanran fach (2.6%) yn talu dros £300. Roedd y rhai a nododd eu bod yn talu dros £300 am ofal plant wedi'u lleoli yn y wardiau canlynol:

- De Ddwyrain y Rhyl
- De'r Rhyl
- Rhuthun



O ran ansawdd y ddarpariaeth, roedd y rhieni yn hapus ar y cyfan. Fel y dangosir isod, roedd 53.3% o rieni yn 'Fodlon Iawn' â'u darparwr gofal plant presennol, gyda 21.6% arall yn 'Eithaf Bodlon', sy'n golygu bod 74.9% o rieni yn fodlon â'r darpariaeth gofal plant. Dim ond dau o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn 'Anfodlon Iawn'.



O'r rhai hynny a oedd yn anhapus â'u trefniadau gofal plant, nodwyd y rhesymau canlynol. Fel y gellir gweld, fforddiadwyedd oedd y brif broblem, ac yna hyblygrwydd.

Ymateb	Canran y Cyfanswm	Swm
Mwy o oriau ar gael	5.0%	2
Ymestyn oriau agor - yn gynnar yn y bore	20.0%	8
Ymestyn oriau agor - gyda'r nos	17.5%	7
Ymestyn oriau agor - i gynnwys penwythnosau	10.0%	4
Ymestyn oriau agor - gofal dros nos	2.5%	1
Mwy o sesiynau hyblyg	7.5%	3
Mwy fforddiadwy	25.0%	10
Lleoliadau gwahanol	2.5%	1
Gofal plant sydd yn well am ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol fy mhlentyn	2.5%	1

Darpariaethau o ansawdd gwell	7.5%	3
Dim angen unrhyw welliannau	0.0%	0

O ran y rhieni nad ydynt yn defnyddio gofal plant, nodwyd amrywiaeth o resymau, fel y manylir yn y tabl isod.

Ymateb	Canran y Cyfanswm	Swm
Mae fy mhlentyn ar restr aros ar gyfer darparwr ac rydym yn aros am le	0.0%	0
Rwy'n defnyddio gofal plant anffurfiol megis aelod o'r teulu neu ffrind	18.8%	24
Dewisais beidio â defnyddio unrhyw fath o ofal plant	3.9%	5
Rydw i'n rhiant ac yn aros gartref ac felly does gen i ddim angen gofal plant	5.5%	7
Mae fy mhlant yn ddigon hen i edrych ar ôl eu hunain	7.8%	10
Nid oes gofal plant o ansawdd digon da	4.7%	6
Nid oes darpariaeth Gymraeg addas	0.8%	1
Nid oes darpariaeth addas yn ein hiaith ni, nad yw'n Gymraeg nac yn Saesneg	0.0%	0
Nid yw'r gofal sydd ar gael yn ddigon hyblyg i ddiwallu fy anghenion	7.0%	9
Mae'r gost yn rhy ddrud	17.2%	22
Mae'r amseroedd gofal plant yn anaddas	5.8%	72
Nid oes gofal plant ar gael sydd yn addas i oed fy mhlentyn	7.8%	10
Mae problem gyda chludiant	1.6%	2
Nid oes gofal plant yn lle rwyf ei angen	4.7%	6

Nid oed lleoliad gofal plant sy'n gallu darparu ar gyfer anghenion penodol fy mhlentyn	8.6%	11
Rwyf ond yn defnyddio gofal plant ar sail ad hoc ac mae cynllunio'n amhosib	6.3%	8

Gofynnwyd i'r rhieni a oeddent yn cael gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg, a darparwyd yr ymatebion isod.



Fel y dangosir uchod, mae 22.9% o rieni yn cael gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda lluosogrwydd (41.9%) yn dewis peidio â chael gofal plant drwy'r cyfrwng hwn. O'r rhai a ddywedodd 'Na', nododd 59.5% y byddent yn hoffi cael gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler isod).



O ran y rhwystrau i ofal plant cyfrwng Cymraeg, nodwyd y ffactorau canlynol fel y prif broblemau yr oedd yn wynebu rhieni o ran cael mynediad at y ddarpariaeth

Ymateb	Canran y Cyfanswm	Swm
Pellter	20.5%	8
Argaeledd	38.5%	15
Ansawdd Gofal	5.1%	2
Sgiliau iaith staff	12.8%	5
Cost	12.8%	5
Dim digon o oriau o ofal	10.3%	4

Yn ogystal â hyn, gofynnwyd i'r rhieni a oeddent yn gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg. Yn ôl yr arolwg, bu i 104 gofnodi eu bod yn gallu deall Cymraeg, gyda 74 yn nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg, 69 yn nodi eu bod yn gallu darllen Cymraeg a 56 yn nodi eu bod yn gallu ysgrifennu yn Gymraeg.

Ymateb	Canran yr Ymatebwyr	Swm
Deall	**45.8%**	**104**

Siarad	**32.6%**	**74**
Darllen	**30.4%**	**69**
Ysgrifennu	**24.7%**	**56**

Gofynnwyd i'r rhieni i ba raddau yr oeddent yn cytuno ag ystod o ddatganiadau o ran darpariaeth eu plentyn. Manylir ynghylch yr ymatebion isod:

Datganiad	Cytuno'n gryf	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno'n gryf	Amherthnasol
Rwy'n fodlon â fy narparwr gofal plant yn ystod y tymor	116	60	14	4	33
Rwy'n fodlon â fy narparwr gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol	86	55	22	15	49
Mae ansawdd y gofal plant yn uchel	123	55	16	2	31
Mae dewis da o ddarparwyr gofal plant yn fy ardal	51	64	51	33	28
Mae'r darparwyr gofal plant mewn lleoliad da	95	76	18	11	27
Mae'r gofal yn darparu ar gyfer anghenion fy mhlant	109	62	11	13	32
Hoffwn i fy mhlentyn gael mwy o ofal plant cofrestredig	43	43	30	20	91
Mae gofal plant yn rhy ddrud	114	59	19	6	29
Byddai'n well gen i ofyn i deulu / ffrindiau ddarparu gofal plant	17	51	74	24	61

Mae gen i broblem â threfniadau gofal plant sy'n annibynadwy (e.e. canslo sesiynau ar fyr rybudd)	3	2	6	11	39
I mi, mae gofal plant yn rwystr i gael mynediad at gyflogaeth neu hyfforddiant	49	32	33	32	81
Rwy'n gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth am ofal plant	63	80	39	19	26
Rwy'n gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant	27	49	73	40	38

Fel y dangosir yn y tabl uchod, mae cryfderau clir o ran y ddarpariaeth gofal plant, o safbwynt rhiant, ochr yn ochr â meysydd allweddol ar gyfer gwella. Er enghraifft, mae y mwyafrif helaeth o'r rhieni yn cytuno bod y ddarpariaeth gofal plant o ansawdd uchel, ac yn fodlon iawn â'u darparwr gofal plant yn ystod y tymor. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif helaeth yn cytuno bod gofal plant yn rhy ddrud.

Ymhellach, nododd 50% o rieni bod gofal plant wedi achosi problemau yn y gwaith, a nododd 21.4% arall bod problemau o ran gofal plant wedi'u hatal rhag gweithio neu gael swydd yn gyfan gwbl (gweler isod).



5.4 Galw am ofal plant

Fel rhan o'r arolwg, gofynnwyd i'r ymatebwyr ragweld a fyddent angen mwy neu lai o ofal plant yn y ddwy flynedd nesaf, a darparwyd yr ymatebion canlynol. O'r rhai hynny a oedd yn rhagweld defnyddio llai ar y ddarpariaeth gofal plant, plant yn mynd yn hŷn oedd yr ateb mwyaf cyffredin (4 allan o 5), a dywedodd un rhiant eu bod yn rhagweld y byddant yn gweithio / astudio gartref yn amlach. Fel y nodwyd eisoes, roedd nifer nodedig heb ymateb yma, yn awgrymu diffyg sicrwydd ar ran y rhieni.

Ymateb	Canran y Cyfanswm	Swm
Mwy	33.5%	76
Llai	20.7%	47
Aros yr un fath	35.2%	80
Ddim yn gwybod / Ddim yn siŵr	10.6%	24

O'r rhai hynny a oedd yn disgwyl defnyddio mwy ar y ddarpariaeth gofal plant, roedd y mwyafrif yn rhagweld y byddent angen clwb ar ôl ysgol, clwb brecwast / cyn ysgol, gyda meithrinfa ddydd breifat yn ail agos (gweler isod).

Ymateb	Canran y Cyfanswm	Swm
Gwarchodwr Plant	4.85%	11
Clwb Brecwast / Cyn Ysgol	18.50%	42
Meithrinfa Ddydd Breifat	17.62%	40
Cylch Chwarae	4.41%	10
Cylch Meithrin	5.73%	13
Crèche Gollwng a Chasglu	0.00%	0
Nani	0.00%	0
Au Pair	0.00%	0
Cyn-Ysgol Baratoi (Breifat)	0.00%	0
Clwb Gwyliau	11.01%	25
Teulu / Ffrindiau (am dâl)	4.85%	11
Teulu / Ffrindiau (di-dâl)	14.54%	33
Clwb Ar Ôl Ysgol	18.94%	43
Dosbarth Meithrin	6.17%	14
Amherthnasol	0.44%	1

Yn olaf, bu i'r rhieni a ymatebodd i'r arolwg restru'r heriau amrywiol roeddent wedi'u hwynebu'n bersonol. Darparwyd ystod o brofiadau ac fe nodwyd y canlynol fel y prif faterion:

- Nifer cyfyngedig o leoedd / argaeledd lleoliadau
- Dim gofal estynedig / gofal estynedig cyfyngedig gan ysgolion yn eu hardal
- Cyfyngiadau o ran darpariaeth gofal yn ystod y gwyliau
- Fforddiadwyedd gofal plant
- Cyfyngiadau o ran hyblygrwydd gofal plant
- Nifer cyfyngedig o leoedd / cymorth i blant ag ADY / anabl, diffyg mynediad at gymorth 1-1 yn benodol.
- Darpariaeth iaith Gymraeg gyfyngedig (h.y. dywedodd un rhiant: 'Nid yw'r gofal cyfrwng Cymraeg agosaf yn Sir Ddinbych, ond dros y ffin yn Sir y Fflint. Mae Cylch Meithrin Terrig wedi bod yn ardderchog')
- Clybiau brecwast cyfyngedig
- Darpariaeth gyfyngedig i blant hŷn
- Mynediad cyfyngedig i gyllid (h.y. dywedodd un rhiant 'mae fy nghyfeiriad ar yr ochr anghywir o'r stryd ar gyfer Dechrau'n Deg. Mae'r cyfeiriadau ar waelod y stryd yn gymwys ond nid yw ein rhan ni, felly nid ydym yn gallu manteisio ar hyn flwyddyn nesaf.')

5.5 Rhwystrau i ofal plant

Grŵp ffocws gyda rhieni â phlant ag ADY ac anableddau:

Nodiadau o'r sesiwn

Roedd cyfranogwyr y grŵp ffocws yn teimlo fel bod y Cyngor ond yn ymgynghori â rhieni pan oedd gofyniad statudol arno i wneud hynny, gan nodi eu bod wedi bod i lawr y ffordd hon o'r blaen.

Yn flaenorol, roedd rhieni yn gallu anfon eu plant at ddarpariaeth a byddent yn darparu cymorth un i un ar gyfer y plentyn, fodd bynnag, erbyn heddiw mae'n ymddangos nad yw eu plant yn cael y cymorth y maent ei angen. Soniodd un cyfranogwr am hanes eu plentyn mewn darpariaeth, cafodd y plentyn ei gynnwys mewn gweithgaredd nad oedd yn addas i'w oedran nac ychwaith yn addas i blant ag ADY. Soniodd y rhieni am y diwrnodau gweithgareddau yr oeddent wedi'u gweld yn cael eu hysbysebu gan ysgolion arbennig eraill, ac roeddent yn teimlo y byddai o fantais i gael digwyddiadau a gofal plant o'r fath yn eu hardal leol. Ar ben hynny, gallai'r ysgolion hyn ddarparu clybiau gwyliau gan y byddant wedyn yn cael eu cynnal gan staff sydd wedi cael eu hyfforddi'n briodol ac sydd â phrofiad o ddarparu gofal addas.

Roedd rhieni'n teimlo mai'r rhwystr mwyaf i gael mynediad at ddarpariaeth gofal plant addas oedd, yn syml, nad oedd yno; nid oedd unrhyw argaeledd. Roedd ysgolion yn arfer cynnig pob math o weithgareddau a chymorth i rieni, ond, erbyn hyn, os yw rhieni eisiau cael mynediad at y ddarpariaeth hon ar gyfer eu plant, mae'n rhaid iddynt drefnu gyda gweithiwr cymdeithasol. Dywedodd un cyfranogwr ei bod yn waeth y tu allan i'r ysgol gan nad oes unrhyw ofal ar gael y tu allan i oriau ysgol, ar benwythnosau neu yn ystod y gwyliau. Ar ben hynny, nid oes clybiau brecwast neu glybiau ar ôl ysgol ar gael yn yr ysgolion darpariaethau arbennig, mae hyn yn golygu mai ychydig iawn o seibiant y mae'r rhieni yn ei gael ac mae eu plant yn wynebu anghydraddoldebau o ran cymdeithasu, oherwydd diffyg cymorth gan ddarpariaethau eraill. Dywedodd un cyfranogwr bod eu

plentyn wedi bod ar y rhestr aros am ddarpariaeth arbenigol am bron i 6 blynedd, ac er eu bod bellach wedi cael lle, nid yw'r ddarpariaeth yn cynnwys yr oriau mae'r rhiant yn gweithio. Roedd rhai rhieni wedi gorfod lleihau eu horiau yn y gwaith er mwyn gallu darparu gofal plant ac roedd rhai yn credu nad yw gwarchodwyr plant wedi cael digon o hyfforddiant i ddarparu ar gyfer plant ag ADY.

Mae COVID-19 wedi gwneud sefyllfa, a oedd eisoes yn heriol, yn waeth; fodd bynnag, mae rhai rhieni yn credu bod darparwyr yn defnyddio COVID-19 fel esgus i beidio â darparu ar gyfer plant ag ADY, oherwydd roedd y ddarpariaeth yn wael cyn hyn. Byddai rhieni'n fodlon talu am bob math o ddarpariaeth, clybiau cyn ysgol, clybiau ar ôl ysgol, clybiau gwyliau ac ati, fodd bynnag, nid oes unrhyw beth ar gael. Dywedodd y cyfranogwyr bod bwlch mawr yn y ddarpariaeth, ac fe nododd un rhiant eu bod wedi wynebu sefyllfa debyg flynyddoedd yn ôl mewn ymgynghoriad fel hwn ac ni ddigwyddodd unrhyw beth. Mae rhieni'n teimlo'n ynysig ac fel eu bod yn cael eu hanwybyddu, ac nid ydynt yn hapus bod eu plant yn wynebu unigrwydd oherwydd diffyg darpariaeth addas. Dywedodd y cyfranogwyr ei fod yn effeithio ar eu bywyd proffesiynol a chymdeithasol, oherwydd eu bod yn treulio cyfran fawr o'u hamser yn poeni am les eu plant ac a yw eu hanghenion yn cael eu diwallu, y dewis arall yw lleihau eu horiau gwaith eto ond nid yw hynny ariannol hyfyw iddynt.

Grŵp ffocws gyda rhieni sy'n gweithio:

Dywedodd y cyfranogwyr eu bod yn teimlo'n gadarnhaol iawn am ble maent yn byw; fodd bynnag, mae twf enfawr wedi bod yn y boblogaeth a dim ond un feithrinfa sydd yn eu tref leol a phentref cyfagos. Mae mynediad gwael i ofal plant yn eu pentref gan nad yw pawb yn gallu gyrru, ac os ydynt yn gyrru gall gymryd awr a 45 munud i deithio yno ac yn ôl oherwydd mynediad gwael. Cytunodd y cyfranogwyr gan ychwanegu bod y ffioedd gofal plant yn Sir Ddinbych hefyd yn uchel iawn, nid ydynt yn gallu cynyddu nifer y diwrnodau mae eu plant yn y feithrinfa gan nad ydynt yn gallu fforddio i wneud hynny. Ar ben hynny, gan nad oes unrhyw gystadleuaeth am ofal plant, gall darpariaethau barhau i godi ffioedd uchel.

Mae problem o ran fforddiadwyedd ynghyd â diffyg darpariaethau lleol yn arwain at fynediad gwael. Soniodd un cyfranogwr am ei hanhawster oherwydd ei bod yn fyfyriwr llawn amser ac nid yw'n gymwys am y cynnig gofal plant 30 awr ond nid yw'n gallu ei fforddio oherwydd ei bod ar yr isafswm cyflog. Tynnwyd sylw at fater arall hefyd, sef bod rhai codau post yn yr ALl yn cael mynediad at ofal plant am ddim waeth beth yw eu trothwy incwm. Nid yw'r bwrsari sydd ar gael yn ystyried ffactorau ariannol eraill ac mae bwlch mawr o ran cymorth i bwy sy'n gymwys am ofal plant; nid yw'n ystyried gwahaniaethau sefyllfaoedd unigol.

Dywedodd y cyfranogwyr bod Prestatyn â gofal plant effeithlon, ond bod y dref yn eithaf pell i rieni deithio yno. Mae Sir Ddinbych yn wledig a dim ond ychydig iawn o gludiant cyhoeddus sydd ar gael, ac felly mynediad cyfyngedig i ofal plant. Mae diffyg darpariaeth gofal plant digonol ynghyd â diffyg mynediad yn arwain at ofal plant drud ac anfforddiadwy. Mae'r cyfranogwyr yn dibynnu'n fawr ar deulu, a dywedodd un cyfranogwr, pe na bai ganddynt deulu o'u cwmpas, byddent wedi gorfod dewis rhwng gwaith a gofal plant. Yn ogystal, roeddent yn teimlo fel nad oedd unrhyw gymhelliad i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod mamolaeth oherwydd y gost. Roedd y cyfranogwyr yn cytuno bod angen moderneiddio'r cynllun cyfan ar gyfer gofal plant. Mae dewisiadau rhieni sy'n gweithio wedi'u cyfyngu os nad yw amserlenni eu swydd yn cyd fynd ag oriau gwaith.

DRAFT

Yn ystod y pandemig, roedd y cyfranogwyr yn gallu gweithio o gartref, ond roedd yn rhaid iddynt hefyd ofalu am eu plant. Roedd hyn yn arbed arian ond yn straen mawr arnynt oherwydd bod eu patrwm gwaith yn dal yr un fath. Pan ddechreuodd pethau ailagor, fe wnaeth rheolau COVID pellach atal mynediad at ofal plant, ac roedd hyn yn golygu amhariad pellach i waith. Lleihawyd oriau agor eto, ac roedd yn rhaid i lawer symud i feithrinfeydd gwahanol i gyd-fynd â'u hamserlenni sydd yn annheg ar eu plant. Dywedodd un cyfranogwr bod y pandemig wedi cryfhau'r berthynas rhyngddyn nhw fel rhieni a'u gwarchodwr plant, oherwydd roeddent wedi bod mor anogol ac roeddent yn teimlo eu bod wedi darparu mwy na wnaeth y Cyngor.

Mae'r cyfranogwyr yn disgwyl i'r ddarpariaeth gofal plant waethygu yn y 2-5 mlynedd nesaf o ran mynediad. Mae teuluoedd ifanc yn symud i'r ardal ac mae'r ysgol gynradd agosaf newydd gau. Mae'r mynediad i ddarpariaeth yn sefydlog ond mae'r boblogaeth yn tyfu. Mae'n anodd cael lle yn unrhyw le am ofal plant, holodd un rhiant pan oedd yn disgwyl babi (roedd wedi bod yn disgwyl ers 7 mis) ac nid oedd yn gallu cael lle tan flwyddyn yn ddiweddarach. Soniodd y cyfranogwyr am drefniadau Seland Newydd a'r ffaith fod ganddynt fynediad i ofal plant am ddim a holi pam nad oedd hynny'n ymarferol yma.

5.6 Canfyddiadau allweddol o'r arolwg i rieni

- Mae rhieni'n hapus dros ben â'u darparwr gofal plant presennol; fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch fforddiadwyedd gofal plant, yn ogystal â chyfyngiadau o ran hyblygrwydd a hygyrchedd.
- Mae diffyg darpariaeth a chymorth 1-1 yn gyffredinol i blant ag ADY, gyda rhieni yn teimlo fel nad ydynt yn gallu cael mynediad at y ddarpariaeth, ac nad yw eu hanghenion yn cael sylw digonol gan yr awdurdod lleol.
- Mae fforddiadwyedd yn broblem fawr, mewn sawl achos mae'n rhwystro merched rhag dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod mamolaeth.
- Mae daearyddiaeth Sir Ddinbych yn gwneud gofal plant yn anhygyrch iawn oherwydd y pellter sy'n rhaid teithio i gyrraedd hyd yn oed y lleoliad agosaf sydd ar gael.

DRAFT

6. Canlyniadau'r Arolygon i Ysgolion

6.1 Cyd-destun

I gefnogi dealltwriaeth ynghylch darpariaeth gofal estynedig ar draws y sir, fe wnaethom arolygu ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Sir Ddinbych drwy arolwg byr, di-enw, ar-lein, ochr yn ochr ag arolwg ychwanegol ar gyfer penaethiaid amryw o leoliadau ar draws y sir. Roedd yr arolygon wedi'u seilio'n bennaf ar ddarpariaeth clwb ar ôl ysgol, gyda chwestiynau ynglŷn â mynediad, argaeledd, fforddiadwyedd ac ansawdd gofal estynedig. Mae'r canfyddiadau o bob arolwg wedi'u nodi isod.

6.2 Arolwg i Ysgolion Cynradd

Cwblhawyd yr arolwg ar-lein gan 140 o ddisgyblion o bob rhan o'r sir. Mae grŵp blwyddyn pob ymatebydd wedi'i nodi isod; fel y dangosir, roedd mwyafrif yr ymatebwyr ym mlwyddyn 5 (34.3%) a'r lleiafrif ym mlwyddyn 6.

Ymateb	Canran y Cyfanswm	Swm
Blwyddyn 1	17.14%	24
Blwyddyn 2	9.29%	13
Blwyddyn 3	11.43%	16
Blwyddyn 4	20.71%	29
Blwyddyn 5	34.29%	48
Blwyddyn 6	7.14%	10

Argaeledd darpariaeth clwb ar ôl ysgol

Yn ôl yr ymatebion i'r arolwg, mae'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion yn mynd i ysgol â darpariaeth clwb ar ôl ysgol. O'r 140 o ddisgyblion, ymatebodd 85.2% ohonynt 'Oes' pan ofynnwyd iddynt a oedd gan eu hysgol glwb ar ôl ysgol. Fodd bynnag, roedd y nifer a oedd yn mynd i glybiau ar ôl ysgol yn llawer is, gyda dim ond 43.1% yn nodi eu bod yn mynd i'w clwb ar ôl ysgol. O'r 74 o ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn mynd i glwb ar ôl ysgol, dywedodd 47 ohonynt mai rheswm am hynny oedd bod rhiant / gofalwr yn eu casglu, a dywedodd 5 arall eu bod yn cael eu casglu gan aelod o'r teulu. Rhesymau eraill a nodwyd oedd, 'Nid wyf eisiau mynd i glwb ar ôl ysgol', 'Rwy'n mynd i glwb chwaraeon' a dywedodd un plentyn bod clybiau ar ôl ysgol ar gael ond nid i blant ym mlwyddyn 3.

Presenoldeb mewn clybiau ar ôl ysgol

Pan ofynnwyd sawl diwrnod yr wythnos yr oeddent yn mynd i glwb ar ôl ysgol (o'r rhai hynny sy'n mynd i glwb), darparwyd yr ymatebion canlynol:

DRAFT



Fel y dangosir uchod, roedd 29.6% o'r disgyblion, a oedd yn defnyddio clwb ar ôl ysgol, yn mynd yno un diwrnod yr wythnos, ac roedd 22.2% yn mynd yno bum diwrnod yr wythnos.

O ran y rheswm / rhesymau dros fynd i glwb ar ôl ysgol, dywedodd y mwyafrif eu bod yno oherwydd bod eu rhieni yn gweithio (gweler y tabl isod).

Ymateb	Canran y Cyfanswm	Swm
Mae fy rhieni yn gweithio	71.15%	37
Mae fy ffrindiau'n mynd yno	1.92%	1
Rwy'n hoffi mynd i'r clwb ar ôl yr ysgol	17.31%	9
Arall	9.62%	5

O ran y rhai hynny a nododd 'Arall', roedd y rhesymau a restrwyd yn ymwneud â mwynhau'r gweithgaredd a oedd yn cael ei gynnig megis pêl-droed neu karate.

Mwynhau'r ddarpariaeth clwb ar ôl ysgol

O'r rhai hynny sy'n mynd i'w clwb ar ôl ysgol, dywedodd y mwyafrif eu bod yn 'hoff' neu'n 'hoff iawn' o'r ddarpariaeth. Yn wir, dim ond 1 ymatebydd o 49 a ddywedodd nad oedd yn hoffi eu clwb ar ôl ysgol, ar y llaw arall, dywedodd 20 o ymatebwyr eu bod yn hoff iawn o'r clwb ar ôl ysgol.

Rhestrwyd y rhesymau dros fwynhau'r clwb ar ôl ysgol fel a ganlyn:

- Ffrindiau / y bobl sy'n mynychu
- Y gweithgareddau a gynigir yn y clwb, gyda chwaraeon yn arbennig o boblogaidd
- Y clwb ar ôl ysgol yn caniatáu i'r rhiant / rhieni weithio
- Y staff.



Gweithgareddau'r clwb ar ôl ysgol

Nodwyd ystod eang o weithgareddau pan ofynnwyd i'r plant, 'pa weithgareddau wyt ti'n hoffi eu gwneud yn y clwb ar ôl ysgol?'. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Celf a chrefft, yn cynnwys tynnu llun a lliwio
- Bwyta a mwynhau byrbrydau
- Chwarae gemau a chwarae gyda theganau
- Chwarae tu allan
- Pobi
- Chwaraeon (pêl-droed yn bennaf, ond soniwyd am rygbi a phŵl hefyd)
- Chwarae gyda chyfrifiaduron a gemau fideo.

Pan ofynnwyd pa weithgareddau fyddai'r plant yn hoffi eu gwneud yn eu clwb ar ôl ysgol, crybwyllwyd ystod eang o weithgareddau, yn cynnwys y canlynol:

Ymateb	Sawl gwaith y cafodd y gweithgaredd ei grybwyll
Celf a chrefft	22
Dawns/drama/cerddoriaeth	9
Pêl-droed	15
Gemau bwrdd/gemau/hapchwarae	7
Gwylio ffilmiau	1
Pobi/coginio	3

DRAFT

Gweithgareddau chwaraeon eraill (e.e. pêl-rwyd, dringo, gymnasteg)	22
Codio	3
Gweithgareddau awyr agored (h.y. garddio)	6
Darllen/gwaith cartref/dysgu iaith newydd	5
Clwb Cymraeg	1
Clwb gwnïo	1
Clwb trafod	1

Mae'n ymddangos bod COVID-19 wedi addasu'r ffordd mae lleiafrif bach o blant yn mynd i glwb ar ôl ysgol, ond nid y mwyafrif (gweler isod). Dywedodd 22.4% o'r ymatebwyr bod COVID-19 wedi newid y ffordd maent yn mynd i glwb ar ôl ysgol, a dywedodd 77.6% nad oedd COVID-19 wedi cael unrhyw effaith ar hyn.



Nodwyd amryw o resymau dros newid sut mae plant yn defnyddio clybiau ar ôl ysgol. Gweler y rhesymau mwyaf cyffredin isod:

Ymateb	Sawl gwaith y cafodd hyn ei grybwyll
Cadw pellter cymdeithasol / swigod	4
Wedi cau neu lleihau oriau	9
Newid ym mhatrwm gwaith y rhiant, felly'n mynd yn llai aml	3
Pryderu ynglŷn â dal COVID-19	1
Wedi newid i leoliad awyr agored	2

Roedd y sylwadau ychwanegol a ddarparwyd ar ddiwedd yr arolwg yn mynegi yr hoffai'r rhieni weld mwy o glybiau ar ôl ysgol. Soniwyd hefyd bod Cool Cats yn ddarpariaeth wych i blant a oedd yn cael canmoliaeth,

6.3 Arolwg i Ysgolion Uwchradd

Cwblhawyd yr arolwg ar-lein gan 192 o ddisgyblion o bob rhan o'r sir. Mae grŵp blwyddyn pob ymatebydd wedi'i nodi isod; fel y dangosir, roedd mwyafrif yr ymatebwyr ym mlwyddyn 7 (30.2%) a'r lleiafrif ym mlwyddyn 13.

Ymateb	Canran y Cyfanswm	Swm
Blwyddyn 7	30.2%	58
Blwyddyn 8	15.6%	30
Blwyddyn 9	15.6%	30
Blwyddyn 10	15.1%	29
Blwyddyn 11	9.4%	18
Blwyddyn 12	9.9%	19
Blwyddyn 13	4.2%	8

Yn ôl yr ymatebion i'r arolwg, nid oedd 27.2% o'r 192 o ddisgyblion yn gwybod os oedd unrhyw glybiau ar ôl ysgol yn cael eu darparu yn yr ysgol, a dywedodd 47.1% bod yna 1 neu 2 o glybiau. Yr ymateb lleiaf cyffredin oedd 7-8 o glybiau a 9+ o glybiau, gydag 1 ymatebydd yr un.

DRAFT



Presenoldeb mewn clybiau ar ôl ysgol

Nid yw mwyafrif yr ymatebwyr yn mynd i glybiau ar ôl ysgol, gyda 68.3% yn datgan nad ydynt yn mynd i unrhyw ddarpariaeth ar ôl ysgol (gweler isod).



O ran y rheswm / rhesymau dros fynd i glwb ar ôl ysgol, dywedodd y rhan fwyaf bod hyn oherwydd nad oeddent eisiau mynd (gweler y tabl isod).

Ymateb	Swm
Nid wyf eisiau mynd i unrhyw glybiau ar ôl ysgol	39
Rwy'n mynd adref gyda rhiant / gofalwr	20
Rwy'n mynd i glwb nad yw'n cael ei gynnal gan yr ysgol	12
Rwy'n mynd i glwb chwaraeon	4
Rwy'n treulio amser gyda ffrindiau yn lle rwy'n byw	5
Mae'n rhaid i mi ddal y bws adref	22
Arall	29

O'r rhai hynny a nododd 'Arall', roedd y rhesymau a restrwyd yn cynnwys ddim yn hoffi'r ddarpariaeth oedd ar gael, diffyg amser, a blaenoriaethau personol eraill.

O'r rhai sy'n mynd i'w clwb ar ôl ysgol, mae'r mwyafrif helaeth (60.7%) yn mynd unwaith yr wythnos. Dim ond 1.6% sy'n mynd 4 neu 5 diwrnod yr wythnos, yn y drefn honno.



Rhestrwyd y rhesymau dros fynd i glwb ar ôl ysgol fel a ganlyn:

Ymateb	Canran y Cyfanswm	Swm

Rwy'n hoffi mynd i glybiau ar ôl yr ysgol	53.3%	32
Mae fy ffrindiau'n mynd yno	26.7%	16
Arall	20.0%	12

Y mathau o glybiau ar ôl ysgol a ddarperir

Darparwyd set amrywiol o atebion mewn ymateb i'r cwestiwn: 'Pa glybiau ar ôl ysgol wyt ti'n mynd iddyn nhw?'. Fel y dangosir isod, 5 x 60, pêl-droed, pêl-rwyd, hoci a chlwb celf yw'r clybiau ar ôl ysgol mwyaf cyffredin a ddefnyddir gan ddisgyblion yn ysgolion uwchradd Sir Ddinbych.

Ymateb	Swm
Rygbi	8
Pêl-droed	9
Pêl-rwyd	6
Clwb celf	9
Nofio	2
5 x 6 (clwb chwaraeon)	14
Celfyddydau perfformio	1

Barn disgyblion am y ddarpariaeth ar ôl ysgol

DRAFT



O'r rhai hynny sy'n mynd i glwb ar ôl ysgol, y consensws cyffredinol oedd bod y ddarpariaeth yn Dda Iawn neu'n Ardderchog, ni ddywedodd yr un ymatebydd bod eu clwb ar ôl ysgol yn 'Wael' (gweler uchod). Dywedodd 3 unigolyn bod eu clwb ar ôl ysgol angen mwy o ddarpariaethau chwaraeon.

Pan ofynnwyd 'pa weithgareddau hoffet ti eu gwneud yn y clwb ar ôl ysgol?', cafwyd ystod eang o weithgareddau.

Ymateb	Canran y Cyfanswm	Swm
Rygbi	6.4%	32
Pêl-droed	8.0%	40
Hoci	3.8%	19
Pêl-rwyd	8.0%	40
Drama	5.2%	26
Gymnasteg	3.4%	17
Clwb Cyfrifiaduron	3.4%	17
Coginio	8.0%	40
Celf a Chrefft	11.0%	55
Canu	2.8%	14

Clwb Harddwch	3.8%	19
Clwb Ffitrwydd	5.0%	25
Gwaith Cartref	3.4%	17
Gwneud Ffilm	5.0%	25
Beicio Mynydd	3.2%	16
Sgiliau DJ	3.0%	15
Rhywle i ymlacio ar ôl ysgol	9.6%	48
Arall (wedi'u hysgrifennu ar y ddalen nesaf)	6.6%	33

O'r rhai hynny a ysgrifennodd 'Arall', nodwyd yr ymatebion canlynol:

Ymateb	Swm
Badminton	2
Osgoi'r bêl	5
Pêl fasged	6
Gwaywffon	1
Clwb llyfrau	1
Beicio mynydd	1
Sgïo	1

Effaith y pandemig ar y ddarpariaeth ar ôl ysgol

I lawer o ddisgyblion, cafodd COVID-19 effaith sylweddol ar eu profiad o glybiau ar ôl ysgol. Er hyn, yr ateb mwyaf cyffredin i'r cwestiwn, 'Sut mae COVID-19 wedi newid dy brofiad o glybiau ar ôl ysgol?' oedd 'nid yw wedi newid', roedd hyn yn aml gan ddisgyblion nad oedd yn mynd i glybiau ar ôl ysgol beth bynnag. Dywedodd sawl disgybl bod COVID wedi effeithio ar feddylfryd tuag at weithgareddau, neu fod gostyngiad wedi bod yn nifer y clybiau neu eu bod wedi cael eu cau yn llwyr.

Ymateb	Sawl gwaith y cafodd hyn ei grybwyll
Ansawdd wedi dirywio	6

Wedi newid fy meddylfryd tuag at weithgareddau a chlybiau	7
Wedi cau neu leihau nifer y clybiau a'r gweithgareddau	12
Pryder ynglŷn â dal COVID-19 / ei basio ymlaen	3
Methu cymysgu â chyfoedion eraill	3
Gwisgo masgiau	4
Nid yw wedi newid	12
Ddim yn gwybod / ddim yn siŵr	8

Mae'r sylwadau ychwanegol a ddarparwyd ar ddiwedd yr arolwg yn cynnwys:

- 'Rwy'n teimlo nad yw sglefrio ar olwynion yn cael ei hysbysebu gymaint â chwaraeon eraill a byddai'n llawer mwy poblogaidd pe bai gan bobl y cyfleusterau, er enghraifft, lle ac amser penodol i sglefrio ar olwynion sydd ar gael i bawb ar ôl ysgol.'
- 'Gellid trefnu clybiau eraill fel y gallent addysgu amrywiaeth o'r cwricwlwm'.
- 'Mae arnom angen amrywiaeth ehangach o chwaraeon newydd e.e. Beicio Mynydd'.

6.3 Arolwg i Benaethiaid

Cafwyd 43 o ymatebion i'r arolwg ar-lein i benaethiaid o bob rhan o'r sir, cafwyd ymatebion gan y 38 ysgol a restrir isod.

Ysgol Caer Drewyn ac Ysgol Carrog	Ysgol Bryn Collen (x2 ymateb)
Ysgol Uwchradd Prestatyn	Ysgol Plas Cefndy
Ysgol Emmanuel	Ysgol Twm o'r Nant
Ysgol Llywelyn	Ysgol Cefn Meiriadog
Ysgol Clawdd Offa	Ysgol Gymunedol Bodnant
Ysgol Tremeirchion	YSGOL Y PARC
Ysgol Dyffryn Iâl	Ysgol Bryn Hedydd
Ysgol Melyd	Ysgol Dyffryn Iâl
Ysgol Stryd y Rhos	Ysgol Bro Cinmeirch
Ysgol y Santes Ffraid	Ysgol Gellifor a Bryn Clwyd
Ysgol Tremeirchion	Ysgol y Castell
Y Faenol	Ysgol Christchurch
Ysgol Carreg Emlyn	Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd
Ysgol Borthyn	sfca
Ysgol Clawdd Offa	Ysgol Trefnant
Ysgol Esgob Morgan	Frongoch
Ysgol Bodfari	Ysgol Fabanod Llanelwy
Ysgol Bro Dyfrdwy	Ysgol Tir Morfa

Ysgol Uwchradd y Rhyl (x3 ymateb)	Enw heb ei ddarparu

Mae cyfanswm yr ymatebion fesul ward wedi'u nodi isod; fel y dangosir, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o ysgolion yn Ne Ddwyrain y Rhyl a De Orllewin y Rhyl (4), ac yn ail agos, Dinbych Isaf a Thremeirchion (3). Ni chafwyd unrhyw ymatebion o Ddinbych Isaf, Dyserth, Gallt Melyd Prestatyn, Gogledd Prestatyn a Gorllewin y Rhyl. Ni ddarparodd un pennaeth eu cod post.

Wardiau Sir Ddinbych	Penaethiaid
Bodelwyddan	1
Corwen	2
Canol Dinbych	0
Dinbych Isaf	3
Dinbych Uchaf / Henllan	0
Dyserth	0
Efenechtyd	2
Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla	2
Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	2
Llandrillo	1
Llandyrnog	1
Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	1
Llangollen	2
Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	1
Canol Prestatyn	1
Dwyrain Prestatyn	1
Gallt Melyd Prestatyn	0
Gogledd Prestatyn	0
De Orllewin Prestatyn	2
Rhuddlan	1

Dwyrain y Rhyl	1
De'r Rhyl	2
De Ddwyrain y Rhyl	4
De Orllewin y Rhyl	4
Gorllewin y Rhyl	0
Rhuthun	2
Dwyrain Llanelwy	1
Gorllewin Llanelwy	1
Trefnant	2
Tremeirchion	3
Heb ei nodi	1

Gofynnwyd i'r Penaethiaid a oedd unrhyw un o'r darpariaethau canlynol ar waith yn eu hysgol ar adeg ateb yr arolwg. Mae'r manylion wedi'u nodi yn y tabl isod.

Fel y dangosir isod, ar hyn o bryd, mae 85.4% o ysgolion yn darparu clwb brecwast am ddim, a 63.4% yn darparu clwb ar ôl ysgol. Fodd bynnag, dim ond oddeutu traen o'r ysgolion sy'n darparu cylch chwarae a gofal plant yn ystod y gwyliau, gydag ychydig dros draean yn darparu gofal estynedig a grŵp brecwast wedi'i dalu amdano a dim ond 4.88% o ysgolion sy'n darparu Dechrau'n Deg.

Math o ddarpariaeth	Ar gael yn yr ysgol ar hyn o bryd?	Canran yr ysgolion sy'n cynnig y ddarpariaeth
Gofal plant ar ôl ysgol	26	63.41%
Gofal plant estynedig	16	39.02%
Cylch chwarae	14	34.15%
Gofal plant dros y gwyliau	14	34.15%
Clwb Brecwast am ddim	35	85.37%
Clwb brecwast wedi'i dalu amdano	16	39.02%
Dechrau'n Deg	2	4.88%

Barn Penaethiaid am ddigonolrwydd gofal plant

Gofynnwyd i benaethiaid, yn eu barn nhw, oes yna ofal plant digonol ar gael yn lleol i ddarparu ar gyfer anghenion gofal plant y teuluoedd sy'n dod i'ch ysgol. Mae'r ymatebion yn dangos bod y mwyafrif yn credu bod yna ofal plant digonol ar gael. Fodd bynnag, mae 21.1% hefyd yn ansicr

ynghylch a oes yna ofal plant digonol ar gael, sy'n awgrymu bwlch mewn gwybodaeth yn rhai o ysgolion Sir Ddinbych.



Sylwadau am ddarpariaeth gofal plant

Pan ofynnwyd iddynt ddarparu sylwadau pellach, dywedodd llawer o'r ymatebwyr nad oedd gofal plant digonol ar gael i ateb y galw oherwydd bod lleoliadau eisoes yn llawn; nodwyd bod meithrinfeydd, gwarchodwyr plant a Chylch Meithrin / darpariaeth gofal estynedig eisoes wedi derbyn mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael. Yn yr un modd, nodwyd bod costau yn broblem. Meddai un ymatebydd o Gorwen:

"Dim ond un darparwr gofal plant sydd yn yr ardal leol ond nid ydynt yn casglu disgyblion y feithrinfa o ysgolion ac mae eu ffioedd yn rhai o'r uchaf yn Sir Ddinbych".

Dywedodd nifer o benaethiaid mai diffyg capasiti neu adnoddau oedd y prif reswm nad oeddent yn gallu darparu gofal plant. Dywedodd un ymatebydd o Ddinbych:

"Byddem yn elwa'n fawr o allu cynnig gofal estynedig. Ond ar hyn o bryd nid ydym yn gallu fforddio hynny."

Mynegodd ymatebydd arall o Brestatyn bryderon y byddai eu hanallu i ddarparu gofal plant, oherwydd diffyg capasiti, yn golygu y byddent yn colli disgyblion:

“Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael yn y cylch chwarae oherwydd argaeledd lle yn yr adeilad. Mae gennym restr aros ac yn y tymor hir, mae’n fy mhoeni y gallem golli disgyblion i’n hysgol gan nad yw rhieni’n gallu cael gofal estynedig yn YCO.”



Yn y ddwy flynedd diwethaf, roedd rhieni wedi cysylltu â 61.1% o’r penaethiaid ynglŷn â darpariaeth gofal plant. Roedd deg o’r ymatebion yn sôn am rieni yn gwneud cais am ofal ar ôl ysgol neu ofal estynedig, gyda dau yn gwneud cais am ofal dydd llawn a chwech yn gwneud cais am wybodaeth ychwanegol neu gymorth ynghylch gofal plant nad yw’n ymwneud â’r ysgol, yn cynnwys meithrinfeydd dydd a gwarchodwyr plant yn yr ardal.

Fodd bynnag, nododd un ymatebydd eu bod wedi treialu darpariaeth yn ystod y gwyliau, yn seiliedig ar y galw gan rieni, ond ni wnaeth lawer fanteisio ar y ddarpariaeth pan oedd ar waith:

“Cysylltodd lawer o rieni â’r ysgol am ddarpariaeth yn ystod y gwyliau. Fe wnaethom gynnal arolwg i rieni, a dywedodd 51 ohonynt eu bod eisiau darpariaeth yn ystod y gwyliau. Fe wnaethom dreialu’r ddarpariaeth am brynhawn a manteisiodd 3 o’r rhieni ar y cynnig.”

Nodwyd gan ymatebydd arall eu bod wedi gorfod cau eu clwb ar ôl ysgol, oherwydd COVID-19, ac ei fod bellach yn cael ei gynnal gan ddarparwr preifat:

“Roeddem yn arfer cynnal clwb ar ôl ysgol ac fe wnaethom ei gau yn ystod Covid. Mae bellach yn cael ei gynnal gan ddarparwr preifat. Hwn oedd y gofal plant a ofynnwyd amdano amlaf.”

Nid oes gan 68.6% o'r penaethiaid a holwyd, y lle ar gael yn eu hysgol i ddatblygu darpariaeth gofal plant (gweler isod), a dywedodd 14.3% nad oeddent yn gwybod. Dim ond 17.1% a ddywedodd bod lle ar gael.

Ymateb	Canran y Cyfanswm	Swm
Oes	17.14%	6
Nac oes	68.57%	24
Ddim yn gwybod	14.29%	5

O'r rhai hynny a ddywedodd bod digon o le, dywedodd 6 ohonynt bod digon o le i adeiladu cyfleusterau gofal plant newydd yn eu hysgol ond roeddent naill ai heb gyllid neu byddent angen cymeradwyaeth gan y Cyngor cyn y gallent ei ddarparu.

O ran fforddiadwyedd gofal plant, darparodd yr ymatebwyr ystod o ymatebion i ba mor debygol ydi teuluoedd o fanteisio ar ofal plant pe bai darpariaeth o'r fath ar gael. Roedd wyth o'r ymatebion yn nodi fforddiadwyedd fel problem fawr yn effeithio ar alw; pe bai darpariaeth am ddim, neu o leiaf yn rhad, byddent disgwyl galw uchel. Dywedodd bedwar ar ddeg o'r penaethiaid y byddai galw parhaus, neu gynyddol, pe bai mwy o ddarpariaeth gofal plant ar gael. Nodwyd gan dri arall na fyddai digon o alw, naill ai oherwydd darpariaeth leol sy'n bodoli eisoes neu ddim digon o alw.

Effaith COVID-19 ar ddarpariaeth gofal plant

O ran effaith COVID-19, roedd yr effaith ar ddarpariaeth gofal plant yn gymysg. Nododd 20 o'r ymatebwyr bod y ddarpariaeth gofal plant bellach heb ei heffeithio, er soniodd 10 o'r rhain bod COVID-19 wedi cael effaith dros dro ar ddarpariaeth. Nododd 13 o'r ymatebwyr bod y ddarpariaeth wedi cael ei lleihau, a dywedodd 8 o'r ymatebwyr mai staffio oedd y prif reswm am hyn. Dywedodd un ymatebydd bod y pandemig wedi cael effaith fawr ar gylch chwarae'r ysgol:

"Mae'r niferoedd yn is nag oedden nhw cyn y pandemig. O safbwynt ariannol, cafodd y pandemig effaith negyddol iawn ar y cylch chwarae oherwydd i'r cylch chwarae aros ar agor yn ystod tymor y gwanwyn 2021 pan nad oedd llawer o ddysgwyr yn bresennol gan nad oedd eu brodyr a chwiorydd hŷn yn mynd i'r ysgol."

Pan ofynnwyd a oeddent wedi sylwi ar unrhyw dueddiadau yn y galw am ofal plant dros y ddwy flynedd diwethaf, dywedodd 47.1% nad oeddent wedi sylwi, dywedodd 38.2% eu bod wedi sylwi; a dywedodd 14.7% nad oeddent yn gwybod. O'r rhai hynny a ddywedodd eu bod wedi sylwi ar dueddiadau, roedd pedwar o'r farn bod y galw cynyddol oherwydd bod dau riant yn gweithio a bod hyn yn fwy cyffredin nag oedd yn y gorffennol. Nododd un ymatebydd ddirywiad difrifol o ran y galw am ofal plant dros y ddwy flynedd ddiwethaf ers Covid.

DRAFT



Yn olaf, roedd y sylwadau ychwanegol a wnaed ar ddiwedd yr arolwg yn sôn am amrywiaeth o faterion pwysig a wynebir gan bob ardal leol. Mynegodd un ymatebydd bryderon ynghylch staffio mewn perthynas â chynigion Llywodraeth Cymru am ddiwrnodau ysgol hirach a gwyliau ysgol byrrach, oherwydd bod athrawon wedi mynegi nad oeddent yn fodlon gweithio oriau hirach a chael llai o wyliau. Roedd y Pennaeth yn cytuno â'r athrawon, gan nodi na ellid disgwyl i athrawon dderbyn yr oriau newydd heb adolygiad cyflog.

Dywedodd un ymatebydd o Dremeirchion:

"Nid ydym yn gallu darparu sesiynau cylch chwarae drwy'r dydd oherwydd diffyg staff a chyllid. Mae'r cylch chwarae ar agor o 12:30 i 15:10. Gyda mwy o staff, gallem ddarparu mwy o leoedd am gyfnodau hirach o amser."

Mynegodd ymatebydd arall o Dremeirchion awydd i'r cyngor ymweld â'u hysgol er mwyn siarad â'r pennaeth am gymeradwyo cynlluniau i ddefnyddio gofod yn yr ysgol i ddarparu gofal plant, gan adael eu henw ar yr arolwg.

Yn olaf, roedd un ymatebydd o'r Rhyl eisiau tynnu sylw at yr angen i ddarparu mwy o glybiau ar ôl ysgol a darpariaeth yn ystod y gwyliau i ddisgyblion ag anghenion meddygol cymhleth.

6.5 Canfyddiadau allweddol o'r arolygon i ysgolion

4. Mae clybiau ar ôl ysgol yn boblogaidd ac mae llawer o ddisgyblion cynradd ac uwchradd yn bresennol.
5. Mae darpariaeth y clwb ar ôl yr ysgol yn hanfodol i blant cynradd, gyda llawer o rieni yn dibynnu ar y ddarpariaeth hon er mwyn gallu gweithio.
6. Mae rhai plant wedi sylwi ar effaith COVID-19 ar ddarpariaeth, er dim ond ychydig o blant oedran ysgol gynradd, a phenaethiaid hefyd yn cydnabod y straen y mae hyn wedi'i gael ar adnoddau.

7. Darperir clybiau brecwast am ddim mewn nifer fawr o leoliadau, ochr yn ochr â bron i ddau draean o ysgolion sy'n darparu gofal ar ôl ysgol.
8. Mae Penaethiaid, ar y cyfan, yn credu bod digon o ddarpariaeth ar gael yn lleol i fodloni'r galw am ofal plant; fodd bynnag, mae llawer o benaethiaid yn dal i gael rhieni yn dod atynt yn chwilio am ddarpariaeth ychwanegol.

DRAFT

7. Canlyniadau o'r Arolygon i Fudd-ddeiliaid a Chyflogwyr

7.1 Cyd-destun

Fel rhan o'r ymgynghoriad, fe wnaethom arolygu budd-ddeiliaid (yn cynnwys aelodau o Gyngor Sir Ddinbych a phartneriaid CWLWM), i gael dealltwriaeth mwy cyflawn o ddarpariaeth gofal plant ar draws y sir. Roedd yr arolygon yn gofyn i'r ymatebwyr roi eu barn am ystod eang o feysydd, yn cynnwys hygyrchedd i fathau penodol o rieni / teuluoedd, ochr yn ochr â'u barn am sut y gellid gwella gofal plant yn Sir Ddinbych. Yn ogystal, arolygwyd cyflogwyr ar draws Sir Ddinbych er mwyn cael eu barn am y ddarpariaeth gofal plant a'r ffordd orau y gallai'r cyngor gefnogi cyflogwyr i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio.

7.2 Arolwg i Fudd-ddeiliaid

Ymateb	Canran y Cyfanswm	Swm
Aelod Etholedig	29.6%	8
Cynrychiolydd ar ran un o bartneriaid CWLWM	18.5%	5
Cynrychiolydd adran ALl/sefydliad/grŵp arall	40.7%	11
Mae'n well gen i beidio â dweud	7.4%	2
Cynrychiolydd Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Ddinbych	3.7%	1

Bu i 27 o fudd-ddeiliaid gwblhau'r arolwg. Roedd 5 o'r ymatebwyr yn gynrychiolwyr ar ran partneriaid CWLWM, 11 o adran ALl/sefydliad/grŵp arall, 8 yn aelodau etholedig ac un o Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Ddinbych. Roedd yn well gan ddau beidio â dweud. O'r rhai hynny gan bartneriaid CWLWM, roedd ymatebion gan bob un o'r canlynol:

- Clybiau Plant Cymru
- NDNA
- Blynyddoedd Cynnar Cymru
- Mudiad Meithrin
- PACEY Cymru.

O'r rhai hynny a oedd yn gynrychiolwyr adran ALl, cynrychiolwyd y canlynol:

- Grŵp Llafur
- Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae
- Dechrau'n Deg
- Cyngor Sir y Fflint
- Addysg Gynnar
- Cynllunio Strategol a Thai
- Addysg
    - Gwasanaethau Addysg a Phlant
    - Pennaeth
    - Cyn-Ysgolion Iach
- Atal ac Ymyrraeth Gynnar / Anableddau
- Blynyddoedd Cynnar
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Ardal	Ardderchog	Da	Boddhaol	Gwael	Ddim yn gwybod
Ansawdd y ddarpariaeth	5	8	3	2	7
Ystod o ddarparwyr	6	8	3	2	6
Nifer y lleoedd	3	7	3	3	9
Fforddiadwyedd	0	8	5	2	10
Hyblygrwydd y ddarpariaeth a'r sesiynau	0	9	3	3	10
Addasrwydd	2	9	3	2	9
Lleoliad a hygyrchedd y gofal plant	3	9	3	2	8
Darpariaeth ddwyieithog (Cymraeg)	3	2	6	3	11

Gofynnwyd i'r budd-ddeiliad am eu barn ar ofal plant a sut y byddent yn sgorio pob agwedd o'r ddarpariaeth yn y sir. Rhestrir yr ymatebion uchod. Fel y manylwyd, yr ymateb mwyaf cyffredin ar gyfer y rhan fwyaf o'r meysydd yw 'Ardderchog', 'Da' neu 'Boddhaol', sy'n dangos darlun cyffredinol cadarnhaol o ran y ddarpariaeth gofal plant yn Sir Ddinbych. Fodd bynnag, cafodd bob ardal o leiaf 2 sgôr 'Gwael'. Mae yna hefyd ansicrwydd clir ynghylch fforddiadwyedd, hyblygrwydd a darpariaeth Gymraeg, fel y dangoswyd gan nifer yr ymatebion 'Ddim yn gwybod' ar gyfer y meysydd hyn. Yn yr un modd, cytunwyd bod ansawdd y ddarpariaeth a'r ystod o ddarparwyr yn feysydd gyda darpariaeth sydd o leiaf o safon 'Dda'.

O ran y rhwystrau i ofal plant a wynebir gan rieni sy'n gweithio, nodwyd ystod o resymau fel y manylir yn y siart isod. Fforddiadwyedd, hyblygrwydd, hygyrchedd a diffyg lleoliadau cyfrwng Cymraeg oedd y prif rwystrau yn ôl ymatebwyr (ac eithrio 'Arall').



Ymhelaethodd yr ymatebwyr, gan nodi bod diffyg darpariaeth dros y penwythnos, yn enwedig i blant ag ADY, yn rwystr allweddol i rieni sy'n gweithio. Cyfeiriwyd at hygyrchedd i blant ag ADY yn

ehangach hefyd. Nodwyd gan eraill y diffyg lleoedd yn ogystal â nifer o achosion o deuluoedd mewn gwaith yn 'llithro drwy'r rhwyd' a ddim yn bodloni'r meini prawf a fyddai fel arall yn eu helpu i leihau eu taliadau gofal plant (er enghraifft, y rhai hynny sy'n byw ar gyrion dalgylch Dechrau'n Deg).

O ran rhieni sy'n chwilio am waith neu hyfforddiant, nodwyd diffyg gofal plant fforddiadwy fel y prif rwystr i ofal plant, a soniwyd hefyd am ddiffyg hyblygrwydd. Y prif resymau a nodwyd oedd diffyg lleoedd a rotas hyblyg, a hefyd y ffaith nad yw gofal plant am ddim ar gael i rieni sydd dan hyfforddiant. Ysgrifennodd ymatebydd arall:

'Unwaith eto, mae'n ymwneud â'r ffaith nad yw teuluoedd ar incwm isel yn byw yn y dalgylch ar gyfer rhai cronfeydd cyllid. Ar hyn o bryd, (ond mae'r mater yn cael sylw) nid yw teuluoedd ag un rhiant / gofalwr sy'n gweithio a rhiant / gofalwr arall mewn hyfforddiant / addysg yn gallu cael y cynnig gofal plant, neu os yw eu plentyn yn rhy ifanc…maent wedyn yn gorfod dewis rhwng parhau â'r hyfforddiant a thalu'r ffioedd neu ohirio pethau - nid yw hwn yn fater i Sir Ddinbych yn unig.'



Y rhwystrau a wynebir gan rieni di-waith yw diffyg fforddiadwyedd yn bennaf (gweler isod), gydag un ymatebydd yn nodi nad yw rhieni'n gallu fforddio talu am ofal plant oherwydd incwm aelwyd isel neu ddibyniaeth ar fudd-daliadau. Roedd yr ymatebion a ddarparwyd yn amlinellu'r angen i adolygu Dechrau'n Deg, ochr yn ochr â diffyg cyfathrebu'n gyffredinol ynghylch y dewisiadau ar gael i rieni.

Dywedodd ymatebydd arall: *'Fforddiadwyedd yw'r brif broblem fel arfer, mae cynlluniau i gefnogi lleoliadau wedi'u hariannu neu wedi'u hariannu'n rhannol, ond yn aml mae mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael ac mae'r arian yn dod i ben.'*



O ran y rhwystrau a wynebir gan deuluoedd incwm isel, nodwyd fforddiadwyedd a diffyg darpariaethau gofal plant gwahanol fel y prif faterion gan yr ymatebwyr (gweler isod), gyda'r ymatebwyr yn nodi bod llawer o weithwyr ar incwm is yn aml yn gweithio patrymau sifftiau annodweddiadol, ac felly gall diffyg argaeledd gofal plant cofrestredig yn ystod yr oriau hyn barhau hyn.



Amlygodd eraill nad yw rhai ardaloedd yn cael gofal plant am ddim oherwydd lle maent yn byw, ac mae hyn yn cael effaith niweidiol ar deuluoedd ar incwm isel yn enwedig. Dywedodd ymatebydd arall:

'Mae'n bosib bod llawer o deuluoedd ar incymau isel yn gweithio llai na 16 awr ac felly nid ydynt yn cael gofal plant am ddim.'

O ran teuluoedd unig rieni, fforddiadwyedd a hyblygrwydd oedd y prif rwystrau a nodwyd gan ymatebwyr (gweler isod), gyda llawer o'r rhesymau a nodwyd uchod yn berthnasol i deuluoedd unig rieni, megis bod ar incwm isel, neu fod angen gofal mwy hyblyg oherwydd dim ond rhiant sengl sydd yn yr aelwyd.



O ran teuluoedd o leiafrifoedd ethnig, roedd ystod o ymatebion yn nodi mathau a graddau amrywiol o rwystrau i ofal plant. Nododd un ymatebydd:

'Mae rhai teuluoedd o gefndiroedd gwahanol yn teimlo'n nerfus am ddefnyddio gofal plant, mae rhai'n wynebu rhwystrau ieithyddol ac i eraill, nid yw defnyddio gofal plant yn rhan arferol o'u diwylliant. Yn aml, mae ar y teuluoedd hyn angen mwy o gymorth i chwalu'r rhwystrau.'

Fodd bynnag, nodwyd hefyd nad oedd llawer o broblemau, os o gwbl, yn cael eu hwynebu gan deuluoedd o leiafrifoedd ethnig, gydag un ymatebydd yn datgan nad oedd erioed wedi cael unrhyw gyswllt gan deulu o leiafrif ethnig mewn perthynas â gofal plant. Ysgrifennodd un arall:

'Nid wyf yn ymwybodol o broblem sy'n benodol i leiafrifoedd ethnig, mae pob darparwr gofal plant yn Sir Ddinbych yn gynhwysol.



O ran teuluoedd gyda phlant ag ADY neu anableddau, nodwyd fforddiadwyedd a diffyg darpariaeth gofal plant gwahanol fel y prif rwystrau i ofal plant. Dywedodd un ymatebydd fod angen rhoi mwy o gefnogaeth i'r sector gofal plant, i gynorthwyo â phlant sydd angen gofal un i un, gydag ymatebydd arall yn nodi nad oedd nifer digonol o staff i ddarparu'r gofal angenrheidiol i ddiwallu anghenion yr holl blant ag ADY. Roedd anallu i ddarparu cymorth un i un yn thema gyffredin drwy'r holl ymatebion.

Roedd sylwadau pellach yn sôn am y diffyg cymorth arbenigol ar gael. Er enghraifft, yn ôl un ymatebydd, dim ond ychydig iawn sydd ar gael i ddisgyblion ag awtistiaeth ac felly maent yn aml yn ymddangos yn 'heriol' neu fel eu bod angen cymorth arbenigol. Nododd yr ymatebydd hefyd bod cyfraddau prydau ysgol am ddim eu hysgol (ysgol arbennig i blant ag awtistiaeth) bob amser rhwng 30%-40%, gyda'r disgyblion hyn wedi'u gwasgaru dros ardal ehangach na charfan debyg.

Yn olaf, o ran rhwystrau i deuluoedd Cymraeg eu hiaith, nodwyd diffyg gofal plant dwyieithog / cyfrwng Cymraeg fel y prif rwystr i ofal plant, gyda fforddiadwyedd, diffyg amrywiaeth o ddarpariaethau, a hygyrchedd hefyd wedi'u nodi fel materion allweddol.

Yn ôl yr ymatebion, mae'r ddarpariaeth yn aml yn dibynnu ar ble mae rhiant yn byw. Er enghraifft, dywedodd un ymatebydd bod diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn rhan ogleddol y sir. Dywedodd ymatebydd arall:

'Mae'r rhan fwyaf o ofal plant cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddarparu drwy'r Cylchoedd Meithrin. Nid ydynt yn gallu cynnig yr hyblygrwydd mae meithrinfa neu warchodwr plant yn gallu ei gynnig. Mae llawer o Gylchoedd Meithrin yn cael eu cynnal yn sesiynol ac nid ydynt yn darparu gwasanaeth gofal dydd llawn o 9 - 5 sy'n golygu bod rhaid i rhieni ddewis gofal plant cyfrwng Saesneg sy'n gallu darparu gofal dydd llawn. Mae problemau staffio hefyd yn golygu efallai nad yw Cylchoedd yn gallu gweithredu hyd eithaf eu gallu ac felly nid ydynt yn gallu cynnig yr holl leoedd mae plant eu heisiau.'





O ran awgrymiadau penodol ar gyfer gwella, roedd yr ymatebwyr yn barod i gynnig sawl awgrym i ddiwallu anghenion y grwpiau a nodwyd uchod yn well. I ddechrau, nodwyd bod cymorth ariannol (i deuluoedd a darparwyr) yn hanfodol i leihau rhwystrau i ofal plant. Awgrymodd un ymatebydd y dylid ymestyn y 30 awr i gyfradd fesul awr well er mwyn cefnogi'r isafswm cyflog / cyflog byw fel nad yw gofal plant yn anfforddiadwy. Dywedodd un arall bod cyllid ychwanegol i deuluoedd sy'n gweithio a thâl uwch i staff hefyd yn hanfodol i fodloni'r gofynion o ran galw a chyflenwad.

Ysgrifennodd ymatebydd arall y dylai gofal plant am ddim fod ar gael o oedran llawer iau (oherwydd bod rhaid i rieni ddychwelyd i'r gwaith ar ôl 12 mis fel arfer). Yn yr un modd, dylid darparu gofal plant am ddim yn gyffredinol, gyda grantiau penodol i ganiatáu i ddarparwyr gofal plant presennol ehangu i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio.

Soniodd yr ymatebwyr hefyd am y posibilrwydd o ymestyn yr ystod oedran y gall plant gael lleoedd gofal plant wedi'u hariannu (e.e. y Cynnig Gofal Plant i Gymru). Fel y dywedodd un ymatebydd, nid yw anghenion gofal plant yn dechrau ac yn gorffen rhwng 3 a 4 oed a gall costau gofal plant gyfrannu at y tlodi mewn gwaith y mae rhai teuluoedd sy'n gweithio yn ei brofi. Mae hyn wedi'i ddwysau gan y ffaith fod rhai cynlluniau cyfredol yn ddibynnol ar feini prawf cymhwyso penodol (e.e. mae Dechrau'n Deg yn defnyddio codau post fel procsi ar gyfer cymhwysedd) sydd ddim yn cynnwys rhai teuluoedd ar incwm isel.

Nodwyd ymhellach fod y Gofal Plant Di-dreth yn cael effaith gadarnhaol ar fforddiadwyedd gofal plant, ond gall y balans sy'n weddill barhau i greu pwysau ariannol i deuluoedd sy'n gweithio ac atal rhieni / gofalwyr rhag cynyddu eu horiau gwaith, neu gyfleoedd i gamu ymlaen yn eu gyrfa.

Nododd un ymatebydd ymhellach:

"Ar ôl Covid-19, mae hefyd yn hanfodol bod y ddarpariaeth gofal plant sy'n aros ar agor yn cael ei chefnogi i barhau i gynnig gwasanaethau i deuluoedd lleol, a bod digon o gyllid a chymorth i atal codi ffioedd yn ddiangen (a fyddai'n cael effaith negyddol ar deuluoedd) - mae hyn yn cynnwys cadw ethos sy'n canolbwyntio ar y gymuned pan mae ysgolion / adeiladau cymunedol / awdurdodau lleol yn ystyried taliadau rhent ar gyfer darparwyr gofal plant."

Tu hwnt i fforddiadwyedd a chyllid, nodwyd cynigion amrywiol i wella hyblygrwydd y ddarpariaeth. Nododd un ymatebydd bod angen gofal plant mwy hyblyg i helpu rhieni ar incwm isel / di-waith i gael gwaith ychwanegol / cyrsiau sydd fel arfer yn golygu oriau o waith gyda'r nos. Ar ben hyn, gofynnodd yr ymatebwyr am fwy o ofal estynedig a darpariaeth fwy hyblyg, sy'n cefnogo darparwyr gofal plant i agor gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Un datrysiad posib, a nodwyd gan un ymatebydd, oedd hyrwyddo darpariaeth gofal gwarchodwr plant ac annog gwarchod plant fel dewis gyrfa. Gall gofalwyr plant fod mewn sefyllfa dda i ddarparu gofal plant hyblyg ac o ansawdd i deuluoedd sy'n gweithio oriau annodweddiadol, shifftiau neu ddarparu gofal dros nos. Nodwyd gan gynrychiolydd PACEY Cymru fod PACEY wedi bod yn canolbwyntio ar hyrwyddo gwarchod plant fel dewis gyrfa a dewis gofal plant i deuluoedd, i gefnogi cynaliadwyedd, niferoedd gwarchodwyr plant ac argaeledd y dewis gofal plant i rieni.

Roedd ymatebion amrywiol yn nodi camau gweithredu posibl i wella hygyrchedd i blant ag ADY, er enghraifft, mwy o sesiynau gofal plant i blant iau o dan 5 oed. Yn fwy cyffredinol, mae angen mwy o ddarpariaeth a hygyrchedd i blant ag ADY ar draws y sir. Ar un llaw, roedd yr ymatebion yn awgrymu bod angen sicrhau bod cyllid a chymorth ar gael i ddatblygu a chynnal darpariaeth i blant ag anghenion cymhleth, yn ogystal â chyllid a chymorth i sicrhau bod y ddarpariaeth gofal plant yn gynhwysol ac yn hygyrch (e.e. cyllid ar gyfer cymorth un i un / hyfforddiant ychwanegol i staff).

Ar y llaw arall, yr ymateb a gafwyd gan PACEY Cymru oedd y gallai Nanis Cymeradwy fod yn opsiwn i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio a sydd hefyd â phlant ag anableddau, gan y byddent yn gofalu am y plant yn eu cartref eu hunain, a gall rhieni barhau i gael yr elfen Ddi-dreth a thalebau gofal plant gan gyflogwyr.

Yn olaf, dywedodd un ymatebydd:

'Byddai'n dda gweld darparwyr gofal plant yn cymryd rhan yn y nifer o gynlluniau sicrhau ansawdd sydd ar gael iddynt. Mae'r cynlluniau hyn yn ystyried mwy na'r safonau gofynnol yn unig, gan roi cyfle i ddarparwyr gofal plant gael cydnabyddiaeth am y buddsoddiadau a'r cyfraniadau y maen nhw a'u staff yn eu gwneud i'w gwasanaeth gofal plant.'

Dadleuodd un arall y dylid cysylltu'n uniongyrchol â'r rhai hynny sy'n defnyddio gofal plant er mwyn casglu eu hadborth.

Ymwybyddiaeth o Gyllid Gofal Plant

Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr am y cynlluniau ar gael i rieni / gofalwyr, roedd 76.2% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r Cynnig Gofal Plant i Gymru, a dau draean yn ymwybodol o'r cynllun Gofal Plant Di-dreth.

Fforddiadwyedd Gofal Plant

O ran pryderon ynghylch fforddiadwyedd gofal plant, roedd 65% o'r ymatebion yn mynegi pryderon am ddarpariaeth yn Sir Ddinbych.Nodwyd bod costau rhedeg a staffio yn achosi anawsterau difrifol i leoliadau gofal plant, sydd yn cael effaith ar ffioedd. Dywedodd ymatebydd arall, gan fod llawer o blant bellach yn dechrau yn yr ysgol yn ddwy oed, fod hyn yn gwaethygu'r sefyllfa.

Mae'r cynnydd mewn ffioedd yn arwain at broblemau pellach i rieni a theuluoedd, yn enwedig y rhai hynny sydd ar incymau isel a / neu'n anghymwys am gyllid megis Dechrau'n Deg, o ran fforddio gofal plant. Dywedodd dau o'r ymatebwyr:

'Mae teuluoedd incwm isel a di-waith yn cysylltu â mi yn rheolaidd i ddweud pa mor anodd yw fforddio gofal plant.'

'Mae llawer o ferched yn dewis peidio â dychwelyd i'r gwaith oherwydd costau gofal plant, mae rhai o'r meithrinfeydd preifat yn codi ffi o £52 am ddiwrnod llawn.'

Nodwyd gan yr ymatebwyr hefyd, bod gofal plant yn ddrud mewn ardaloedd heb unrhyw gystadleuaeth gan leoliadau gofal plant eraill. Fodd bynnag, dywedodd un ymatebydd, er bod y ffioedd yn Sir Ddinbych yn uchel ac yn mynd yn ddrutach, mae hwn ymhell o fod yn fater i Sir Ddinbych yn unig, ac mae llawer o awdurdodau lleol yn gweld ffioedd yn cynyddu.

O ran hygyrchedd gofal plant, unwaith eto, mynegodd y mwyafrif bryder am y ddarpariaeth i bob grŵp rhieni, gyda 15 allan o 20 ymateb yn lleisio pryderon. O'r rhain, nodwyd oriau'r ddarpariaeth a diffyg darpariaeth ar gyfer patrymau gweithio amgen fel y materion allweddol yn effeithio ar hygyrchedd. Yn ogystal, nodwyd gan ymatebwyr bod y ddarpariaeth i blant ag ADY neu anableddau yn annigonol.

DRAFT



O ran cynaliadwyedd, codwyd safbwyntiau cyferbyniol am gyflenwad gofal plant yn Sir Ddinbych. Fel y nodir yn y siart isod, mae traean o'r ymatebwyr yn pryderu am gynaliadwyedd, a 38.1% 'Ddim yn siŵr'. O'r rhai hynny a oedd yn mynegi pryderon, nodwyd costau staff cynyddol ac effaith / effeithiau COVID-19 fel problemau mawr yn effeithio ar gynaliadwyedd. Dywedodd PACEY Cymru bod costau tanwydd cynyddol a'r angen i awyru yn ystod misoedd y gaeaf yn ychwanegu at y pwysau ariannol ar y sector, ac ysgrifennodd un arall bod diffyg cyllid ar gael i gynyddu cyflogau i gynorthwyo â chadw staff; a bod grantiau fel arfer am gyfalaf, yn hytrach na gwariant refeniw.

Nododd cynrychiolydd PACEY Cymru hefyd bod 6 gwarchodwr plant wedi dadgofrestru yn y chwe mis rhwng Ebrill 2021 a Medi 2021 yn Sir Ddinbych, ac ni chafwyd unrhyw gofrestriadau newydd yn ystod yr un cyfnod.

Dywedodd ymatebydd arall:

'Mae llawer o ddarparwyr wedi gorfod cau dros y blynyddoedd diwethaf, yn rhannol oherwydd problemau cyllido a phresenoldeb isel. Weithiau mae arnynt angen cyllid cynaliadwyedd i oroesi, ond mae'n anodd dod o hyd i'r math yma o gyllid yn Sir Ddinbych. Mae recriwtio a chadw staff hefyd yn broblem, yn enwedig os oes arnoch angen rhywun sy'n siarad Cymraeg.'

DRAFT



O ran y lleoedd gofal plant ar gael ac effaith COVID-19, dywedodd hanner yr ymatebwyr eu bod wedi gweld gostyngiad o ran niferoedd. Fel y dangosir isod, dim ond 15% oedd yn anymwybodol o achosion o gau, ac roedd 35% yn ansicr. Nododd yr ymatebwyr bod maint lleoliadau ac argaeledd cymorth wedi cael effaith ar gau.

Ymateb	Canran y Cyfanswm	Swm
Ydw	50.00%	10
Nac ydw	15.0%	3
Ddim yn siŵr	35.0%	7

O ran effaith COVID-19 ar nifer y rhieni sy'n dymuno defnyddio'r ddarpariaeth gofal plant oherwydd eu bod yn gweithio gartref, roedd traean o'r ymatebwyr yn ansicr, a dywedodd 42.9% nad oeddent eisiau defnyddio'r ddarpariaeth. Nododd un bod rheini yn awr yn gweithio gartref a bod hyn wedi cael effaith niweidiol ar gynaliadwyedd y ddarpariaeth gofal plant yn Sir Ddinbych. Fodd bynnag, er gwaethaf yr effaith yma, dywedodd un fod pethau'n dechrau gwella erbyn hyn.

Ymateb	Canran y Cyfanswm	Swm
Ydw	23.81%	5
Nac ydw	42.9%	9
Ddim yn siŵr	33.3%	7

Pan ofynnwyd os oeddent yn ymwybodol o unrhyw broblemau yn y sector gofal plant oherwydd bod staff ar ffyrlo yn ystod pandemig COVID-19, roedd yr ymatebion wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng 'Ddim yn siŵr', 'Ydw' a 'Nac ydw' ar 33.3%, gyda y rhan fwyaf o'r problemau oherwydd prinder staff a phroblemau recriwtio. Wrth esbonio eu hymatebion, dywedodd un ymatebydd bod llawer o staff

cymwys wedi symud i'r ysbyty lleol am fwy o arian a llai o oriau. Atgyfnerthwyd hyn gan ymateb arall a oedd yn nodi bod llawer o staff wedi gadael lleoliadau gofal plant ac wedi mynd i weithio i'r GIG yn barhaol.

Ysgrifennodd ymatebydd arall:

'Mae yna staff sydd wedi gadael y sector a sydd wedi dod o hyd i waith gyda sectorau eraill megis addysg, manwerthu. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar ddarparwyr cofrestredig Arolygiaeth Gofal Cymru sydd angen aros yn weithredol mewn cymarebau a chymwysterau. Mae her genedlaethol o ran recriwtio a chadw gweithwyr chwarae a gofal plant.'

Soniodd un ymatebydd am y llwyddiant cymharol yn ystod y cyfnod ffyrlo, gan nodi:

'Roedd lleoliadau dan bwysau mawr wrth wneud cais am ffyrlo ar ddechrau'r pandemig ond fe gynhyrchodd Tîm Gofal Plant ALl Sir Ddinbych adnodd da iawn i'w cynorthwyo â chyfrifo arian gan y llywodraeth.'

Pan ofynnwyd os oeddent yn ymwybodol o unrhyw broblemau eraill yn y sector gofal plant o ganlyniad i bandemig COVID-19, roedd yr ymatebion fwy neu lai yn gyfartal, gyda 52.6% yn nodi 'Ydw' a 47.4% yn nodi 'Na'. Gan ymhelaethu ar eu hymatebion, nododd bedwar ymatebydd ddiffyg staff (a staff cymwys) oherwydd prinder staff cronig wedi'i waethygu gan COVID-19. Yn ôl un ymateb, mae lleoliadau yn adrodd yn gyson nad ydynt yn gallu recriwtio i swyddi gwag neu eu bod yn cael ceisiadau o ansawdd gwael. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd bod y rheolau hunan-ynysu wedi effeithio ar y gymhareb staffio, gan waethygu problemau. Wrth i blant ddychwelyd i leoliadau gydag oedi o ran eu lleferydd ac iaith, mae'r amser sydd ei angen gan staff wedi ychwanegu at bwysau presennol. Yn ogystal, mae effaith amlwg wedi bod ar les staff, gyda morâl y staff yn isel iawn.Nododd un:

'Mae'r staff gofal plant wedi gweithio drwy gydol y pandemig ac nid ydynt wedi cael y gydnabyddiaeth y maen nhw'n ei haeddu.'

Mae costau gweithredu hefyd wedi gwaethygu o achos COVID-19, gyda swigod staff ychwanegol, cyfarpar diogelu personol a deunyddiau glanhau ychwanegol yn effeithio ar gyllidebau meithrinfeydd. Mae'r costau hyn wedi eu gwaethygu ymhellach gan gostau trefnu staff llanw yn absenoldeb staff sydd wedi bod yn hunan-ynysu, yn ogystal â cholli incwm oherwydd gostyngiad yn nifer y plant sy'n cael gofal oherwydd COVID-19. Fodd bynnag, dywedodd un bod llawer o grantiau ar gael i gefnogi lleoliadau gyda'r costau ychwanegol hyn.

Soniodd ymatebydd arall am y pwysau sydd wedi cael ei roi ar leoliadau, gan nodi bod:

'Dryswch wedi bod mewn perthynas â'r rheolau a'r rheoliadau, maent yn cael yr holl ddiweddariadau ond yn aml nid ydynt yn deall beth ddylent a beth na ddylent ei wneud.'

DRAFT





Yn olaf, pan ofynnwyd a oeddent yn gallu darparu unrhyw awgrymiadau i gynorthwyo â datblygu gofal plant mwy cynaliadwy, hygyrch neu fforddiadwy yn Sir Ddinbych yn ystod y 12-18 mis nesaf, cafwyd ymatebion amrywiol. Sef:

- Mae digon o leoedd gwag o fewn y ddarpariaeth bresennol; byddai annog *mwy* o ddarparwyr yn debygol o wanhau ansawdd y rhain ac achosi problemau cynaliadwyedd mawr.
- Cynyddu cyfradd y Cynnig Gofal Plant a pharhau â chyllid grant i gefnogi adfer ar ôl y pandemig.
- Mwy o grantiau cynaliadwyedd ar gyfer darparwyr sy'n cael trafferth, pryd a phan fo angen. Ar hyn o bryd, mae grantiau amrywiol ar gael ar draws y sir ar gyfer offer, atgyfeiriadau, eitemau cyfalaf, atgyweiriadau, adnoddau ac ati, ond mae diffyg refeniw. Mae llawer o'r rhain ynghlwm wrth ddarparu'r Cynnig Gofal Plant (ac mae'r rhain wedi cael eu croesawu, gan ganiatáu ar gyfer gwelliannau mawr), ond mae rhai sy'n dal i lithro drwy'r rhwyd.
- Cynyddu cyllid a chael mwy o staff arbenigol er mwyn cefnogi plant ag anghenion mwy cymhleth.
- Cefnogi recriwtio drwy gynlluniau prentisiaeth a gweithio'n agos gyda cholegau ac ysgolion i recriwtio staff. Dylai buddsoddiad pellach hefyd gynnwys hyfforddiant ar gyfer cymwysterau staff angenrheidiol.
- Byddai parhau i sicrhau bod grantiau LlC mewn lle ar ddechrau'r flwyddyn ariannol yn galluogi'r ALl i ddarparu rhaglenni cyson i gefnogi cynaliadwyedd y sector gofal plant, yn hytrach na chael eu darparu i gyd ar unwaith tua diwedd y flwyddyn.

7.3 Arolwg i Gyflogwyr

Ymgynghorodd y Cyngor ag ystod o gyflogwyr lleol a'r unigolion yn eu cynrychioli, a sefydliadau cyflogwyr, i gasglu eu barn am yr economi leol, rhwystrau i ofal plant a all effeithio ar y gweithlu a thueddiadau newydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Rhoddwyd y cyfle i ystod o gyflogwyr, ar draws gwahanol ddiwydiannau, ddarparu adborth, i sicrhau'r sampl mwyaf cynrychioliadol posibl o fewn yr amserlen. Fodd bynnag, pedwar cyflogwr a ymatebodd, sy'n golygu nad yw'r canfyddiadau isod yn hollol gynrychioliadol o'r patrymau gwaith ar draws y sir, a dylid ystyried hyn wrth ddefnyddio'r data i weithredu newidiadau i ofal plant.

Cynhaliwyd ymgynghoriad â chyflogwyr drwy arolwg ar-lein a oedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dyluniwyd yr arolwg ar-lein yn defnyddio Survey Monkey a'i e-bostio at gyflogwyr a nodwyd drwy ymarfer mapio budd-ddeiliaid.

O'r 4 cyflogwr a ymatebodd, roedd gan eu hanner lai na 10 o weithwyr, roedd gan draean ohonynt 11-49 o weithwyr a methodd un chweched â darparu ymateb i'r cwestiwn hwn. Dywedodd 25% o'r ymatebwyr bod y gweithwyr hyn yn gweithio llai na 16 awr yr wythnos, a dywedodd 50% o'r ymatebwyr bod eu gweithwyr yn gweithio rhwng 16 a 30 awr. Dywedodd y pedwar ymatebydd bod ganddynt weithwyr sy'n gweithio 30 awr neu fwy.

Mae'r siart isod yn dangos y mathau o drefniadau gweithio hyblyg mae cyflogwyr yn eu cynnig ar hyn o bryd.



Dywedodd hanner yr ymatebwyr bod eu gweithwyr yn gweithio gartref ar hyn o bryd, dywedodd yr holl ymatebwyr eu bod yn caniatáu gweithio rhan-amser ac amser hyblyg. Dywedodd un ymatebydd fod eu gweithwyr, ar hyn o bryd, yn gweithio gartref yn rhannol neu'n gyfan gwbl oherwydd y pandemig.

Mae'r tabl isod yn dangos oriau gwaith gweithwyr y cyflogwyr a ymatebodd:

Atebion Posibl	Ymatebion	
Yn gynnar yn y bore (cyn 8am)	66.67%	2
Gyda'r nos (ar ôl 9pm)	33.33%	1
Nos (rhwng 10pm a 8am)	33.33%	1
Penwythnosau	100%	3

Mae ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn credu bod gofal plant wedi cael effaith ar bresenoldeb yn y gweithle dros y pedair blynedd diwethaf.

O ran gofal plant, mae'r tabl isod yn dangos y buddion y mae cyflogwyr wedi'u darparu yn y gorffennol, y rhai sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd neu'r rhai y bwriedir eu cynnig i weithwyr/ rhieni sy'n gweithio:

Budd	Yn cael ei gynnig ar hyn o bryd	Yn ystyried ei ddarparu	Wedi cael ei ddarparu yn y gorffennol ond nid ar hyn o bryd	Cyfanswm
Meithrinfa yn y gweithle	0	0	2	2

Cefnogaeth meithrinfa yn rhywle arall	0	0	2	2
Aberthu cyflog i helpu gweithwyr â gofal plant a chostau cysylltiedig e.e. cynllun talebau	1	0	1	2
Cynllun chwarae yn ystod gwyliau'r haf	0	0	2	2
Amser i ffwrdd ar gyfer rhesymau teuluol brys	3	0	0	3

Dywedodd un ymatebydd eu bod yn 'fodlon iawn' â'r cynllun talebau a dywedodd un arall 'nad oedd yn fodlon nac yn anfodlon'.

Mae pob un o'r cyflogwyr a ymatebodd yn cynnig amser i ffwrdd ar gyfer rhesymau teuluol brys ar hyn o bryd. Nid yw'r un o'r cyflogwyr yn darparu'r canlynol ar hyn o bryd:

- Meithrinfa yn y gweithle
- Cefnogaeth meithrinfa yn rhywle arall
- Cynllun chwarae yn ystod y gwyliau

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae gweithwyr yn trefnu amser i ffwrdd o'r gwaith ar fyr rybudd pan mae'n rhaid iddynt ddelio â phroblemau gofal plant brys:

Atebion Posibl	Canran	Ymatebion
Amser i ffwrdd – ei wneud i fyny'n nes ymlaen	33.33%	1
Gwyliau arbennig (â thâl)	100%	3
Gwyliau arbennig (heb dâl)	33.33%	1
Gwyliau blynyddol	33.33%	1
Absenoldeb salwch	33.33%	1

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cynnig gwyliau â thâl. Cafwyd un ymateb ar gyfer pob un o'r dulliau gwahanol eraill y gall rhieni eu defnyddio i drefnu amser i ffwrdd, ond yn y pen draw, bydd yn dibynnu ar y sefyllfa.

Pan ofynnwyd a oedd y buddion wedi cael eu haddasu neu eu newid ers dechrau'r pandemig, dywedodd 66.67% nad oeddent wedi cael eu haddasu neu eu newid a dywedodd 33.33% eu bod wedi cael eu haddasu neu eu newid. Gall hyn fod oherwydd bod canran o'r gweithwyr eisoes yn gweithio gartref. Cafwyd ymateb cymysg pan ofynnwyd os yw argaeledd gofal plant wedi effeithio ar recriwtio, gyda nifer cyfartal o ymatebion ar gyfer 'ydi', 'nac ydi' a 'ddim yn siŵr'.

Roedd un ymatebydd yn teimlo bod argaeledd gofal plant wedi effeithio ar recriwtio neu gadw staff. Roedd y meysydd lle'r oedd cyflogwyr o'r farn y gellid gwella argaeledd gofal plant i hyrwyddo trefniadau recriwtio gwell, wedi'u rhestru fel a ganlyn, yn nhrefn eu hamlder:

- Gofal plant mwy fforddiadwy
- Clybiau gwyliau gwell
- Cyfleusterau ar ôl ysgol gwell
- Sesiynau gofal plant mwy hyblyg e.e. galw heibio neu am ychydig oriau

Dywedodd 66.67% o'r ymatebwyr bod rhai o'u gweithwyr yn ymwybodol o'r credyd treth gwaith sydd ar gael am ofal plant, a bod y gweddill yn ansicr.

Mae'r tabl isod yn dangos y canlyniadau pan ofynnwyd a yw gwella cymorth gofal plant i weithwyr yn nod.

Atebion Posibl	Ymatebion	
Ydi	0	0
Nac ydi	66.67%	2
Ddim yn siŵr	33.33%	1

Nid oedd gan yr un cyflogwr a ymatebodd gynlluniau i wella'r gwasanaethau gofal plant maent yn eu darparu.

7.4 Canfyddiadau allweddol a chasgliad

- Ar y cyfan, caiff y ddarpariaeth o ofal plant ei hystyried yn gadarnhaol gan fudd-ddeiliaid, yn enwedig o ran ansawdd y ddarpariaeth a'r ystod o ddarparwyr. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch darpariaeth ddwyieithog a fforddiadwyedd y ddarpariaeth.
- Mae fforddiadwyedd, ynghyd â hyblygrwydd, yn rhwystrau allweddol i deuluoedd incwm isel a rhieni di-waith sy'n chwilio am ofal plant yn benodol.
- Mae angen sicrhau bod trefniadau ariannu mwy cadarn ar waith i rieni a theuluoedd incwm isel, ochr yn ochr â chymorth i ddarparwyr eu hunain, er mwyn sicrhau nad yw costau'n parhau i gynyddu. Mae hefyd angen mwy o hyblygrwydd (megis gofal dros nos ac ar benwythnosau.
- Mae angen i'r ALl fod yn fwy gweithredol o ran hybu recriwtio ym maes gofal plant, gyda phwyslais penodol ar warchod plant.
- Mae staffio, yn enwedig o ran recriwtio a chadw staff, yn broblem fawr sydd angen ei datrys gan CSDd; mae prinder staff, ynghyd ag ymgyrchoedd recriwtio aflwyddiannus yn cael effaith niweidiol ar y ddarpariaeth sydd ar gael.

DRAFT

8. Dadansoddiad o'r Bylchau a Meysydd ar gyfer Gwella

8.1 Bylchau newydd

Gofal plant o ansawdd uchel, ond fe allai hygyrchedd fod yn well

Ar y cyfan, roedd rhieni a budd-ddeiliad yn ystyried ansawdd gofal plant ar draws Sir Ddinbych yn uchel. Fodd bynnag, nododd y rhieni hefyd nad oedd gofal plant yn addasu i ddiwallu eu hanghenion o ran cynyddu oriau gwaith oherwydd bod llawer o rieni sengl a theuluoedd â dau riant yn gweithio yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at ofal plant a oedd yn caniatáu iddynt weithio'n llawn amser.

Nifer isel yn manteisio ar hawliau a ariennir

Ar draws Sir Ddinbych, dywed darparwyr eu bod wedi cynnig dros 600 o leoedd y Cynnig Gofal Plant, fodd bynnag, dim ond 314 o'r rhain oedd wedi'u llenwi yng ngwanwyn 2022. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn cynnig lleoedd y Cynnig Gofal Plant, ac mae dros 10% o ddarparwyr yn cynnig lleoedd Dechrau'n Deg. Dylid rhoi ystyriaeth i sut mae'r cynigion hyn yn cael eu marchnata i rieni a sut mae rhieni yn cael eu hannog i fanteisio ar y cynigion hyn. Cyfeiriodd sawl darparwr at y nifer cynyddol o deuluoedd mewn gwaith a theuluoedd incwm isel a oedd yn defnyddio eu gwasanaethau a allai elwa o'r mathau hyn o ofal plant a ariennir.

Canfyddiad o ddiffyg darpariaeth Gymraeg

Nodwyd gan ddarparwyr a rhieni bod canfyddiad o ddiffyg darpariaeth Gymraeg ar draws rhannau o'r sir, yn enwedig y tu allan i ardal y Rhyl. Nodwyd hefyd ei bod yn anodd cael mynediad i hyfforddiant yn Gymraeg neu i gefnogi plant sy'n siarad Cymraeg, a'u bod yn cael anhawster wrth recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg.

Angen cymorth gyda recriwtio a chadw staff

Dywedodd nifer o ddarparwr gofal dydd bod eu staff wedi gadael yn ystod cyfnodau clo'r COVID, ar ôl mynd ar ffyrlo neu i newid gyrfaoedd. Soniodd y darparwyr hefyd am fwy o alw am ofal plant oherwydd bod gwarchodwyr plant yn ymddeol neu'n newid proffesiwn, a'u bod yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff o ansawdd uchel. Dylid rhoi ystyriaeth i hysbysebu swyddi a strategaeth gadw i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol da y Blynyddoedd Cynnar yn aros yn y swydd.

Un thema a oedd yn codi dro ar ôl tro drwy gydol y cyfnod ymgynghori oedd canfyddiad o ddiffyg cyllid i ddarparwyr gofal plant. Er i lawer gydnabod bod y grantiau a gynigiwyd yn ystod COVID-19 wedi bod o gymorth mawr, nid oeddent, yn gyffredinol, yn ddigon i gefnogi'r rhan fwyaf o leoliadau i gynnal lefelau staff neu gynyddu nifer y plant y gallent ofalu amdanynt. Nodwyd yn benodol gan leoliadau bod diffyg arian ar gyfer plant ag ADY neu anghenion meddygol cymhleth, gan arwain at anallu i ddarparu cymorth 1:1 i blant sydd ei angen.

Darpariaeth annigonol mewn perthynas ag ADY

Roedd rhieni a darparwyr o'r farn bod diffyg cymorth 1-1 a darpariaeth yn gyffredinol i blant ag ADY, gyda diffyg hyblygrwydd, fforddiadwyedd a lleoedd ar gael. Roedd rhieni o'r farn bod y ddarpariaeth yn anhygyrch, ac nid oedd yr ALl yn rhoi digon o ystyriaeth i anghenion plant. Dywedwyd bod angen buddsoddi mwy i ddiwallu anghenion plant ag ADY, yn enwedig o ran cynnig darpariaeth 1-1 ddigonol.

8.2 Camau a awgrymir

[Dolen i'r Cynllun Gweithredu]

DRAFT

9. Cynllun Gweithredu

I’w gwblhau yn dilyn y cynllun ymgynghori.

DRAFT

Atodiad

Tabl 1:

Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Uwch	Ward
Sir Ddinbych U001	Dwyrain Llanelwy
	Gorllewin Llanelwy
	Canol Prestatyn
	Dwyrain Prestatyn
	Gallt Melyd Prestatyn
	Gogledd Prestatyn
	De Orllewin Prestatyn
	Dyserth
	Tremeirchion
	Trefnant
Sir Ddinbych U002	Dwyrain y Rhyl
	De'r Rhyl
	De Ddwyrain y Rhyl
	De Orllewin y Rhyl
	Gorllewin y Rhyl
	Bodelwyddan
	Rhuddlan
Sir Ddinbych U003	Canol Dinbych
	Dinbych Isaf
	Dinbych Uchaf / Henllan
	Llandymog/Llandyrnog
	Corwen
	Rhuthun
	Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern
	Llangollen
	Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch
	Efenechtyd
	Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla
	Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal
	Llandrillo

Tabl 2:

DRAFT

Ardal	Ward	Nifer y preswylwyr 0-1 oed sy'n cael gofal plant	Nifer y preswylwyr 2 oed sy'n cael gofal plant	Nifer y preswylwyr 3-4 oed sy'n cael gofal plant
Sir Ddinbych U001	Dwyrain Llanelwy	11	17	25
	Gorllewin Llanelwy	0	0	0
	Canol Prestatyn	0	15	31
	Dwyrain Prestatyn	33	42	45
	Gallt Melyd Prestatyn	46	34	92
	Gogledd Prestatyn	18	18	30
	De Orllewin Prestatyn	2	15	75
	Dyserth	0	7	31
	Tremeirchion	0	13	15
	Trefnant	2	5	36
	Cyfanswm	**112**	**166**	**380**
Sir Ddinbych U002	Dwyrain y Rhyl	40	39	64
	De'r Rhyl	0	11	30
	De Ddwyrain y Rhyl	4	12	32
	De Orllewin y Rhyl	109	131	210
	Gorllewin y Rhyl	10	8	76
	Bodelwyddan	0	4	29
	Rhuddlan	42	28	70
	Cyfanswm	**205**	**233**	**511**
Sir Ddinbych U003	Canol Dinbych	Dim gwybodaeth	Dim gwybodaeth	Dim gwybodaeth
	Dinbych Isaf	51	41	147
	Dinbych Uchaf / Henllan	6	26	46
	Llandymog/Llandyrnog	0	8	13
	Corwen	23	14	24
	Rhuthun	25	28	149
	Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	16	22	60
	Llangollen	19	25	86
	Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	8	9	43
	Efenechtyd	10	31	38
	Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla	Dim gwybodaeth	Dim gwybodaeth	Dim gwybodaeth
	Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	0	7	14
	Llandrillo	0	9	6
	Cyfanswm	**158**	**220**	**626**
Cyfanswm Sir Ddinbych		**475**	**619**	**1517**

DRAFT

DRAFT

Tabl 3:

Ardal	Ward	Nifer y preswylwyr 0-1 oed	Nifer y preswylwyr 2 oed	Nifer y preswylwyr 3-4 oed
Sir Ddinbych U001	Dwyrain Llanelwy	34	12	44
	Gorllewin Llanelwy	35	13	36
	Canol Prestatyn	54	37	60
	Dwyrain Prestatyn	70	39	66
	Gallt Melyd Prestatyn	34	24	44
	Gogledd Prestatyn	135	48	127
	De Orllewin Prestatyn	65	39	76
	Dyserth	77	19	46
	Tremeirchion	33	14	23
	Trefnant	29	15	25
	Cyfanswm	**566**	**260**	**547**
Sir Ddinbych U002	Dwyrain y Rhyl	70	48	82
	De'r Rhyl	49	30	56
	De Ddwyrain y Rhyl	184	77	229
	De Orllewin y Rhyl	151	71	181
	Gorllewin y Rhyl	176	82	156
	Bodelwyddan	57	27	56
	Rhuddlan	55	31	71
	Cyfanswm	**742**	**366**	**831**
Sir Ddinbych U003	Canol Dinbych	43	31	39
	Dinbych Isaf	72	38	89
	Dinbych Uchaf / Henllan	62	37	78
	Llandymog/Llandyrnog	52	24	45
	Corwen	42	18	36
	Rhuthun	102	64	121
	Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	43	28	46
	Llangollen	56	44	60
	Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	23	19	36
	Efenechtyd	23	14	33
	Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla	29	11	43
	Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	28	16	26
	Llandrillo	27	6	24
	Cyfanswm	**602**	**350**	**676**
	Cyfanswm Sir Ddinbych	**1910**	**976**	**2054**

Tabl 3:

Ward	Economaidd Weithgar	Di-waith	% sy'n Economaidd Weithgar
Bodelwyddan	1057	55	76.5%
Corwen	1141	71	76.5%
Canol Dinbych	1062	84	73%
Dinbych Isaf	2307	89	81.1%
Dinbych Uchaf / Henllan	1403	135	70.1%
Dyserth	1108	83	77.5%
Efenechtyd	847	33	82.4%
Llanarmon-yn-lâl/Llandegla	1267	42	81.5%
Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	680	24	78.3%
Llandrillo	570	21	82.8%
Llandyrnog	1035	47	77.9%
Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	1181	52	82.2%
Llangollen	1886	122	75.9%
Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	935	41	82.1%
Canol Prestatyn	1466	121	72.3%
Dwyrain Prestatyn	1750	126	73.5%
Gallt Melyd Prestatyn	865	77	71.7%
Gogledd Prestatyn	2328	186	72.6%
De Orllewin Prestatyn	1475	115	73.7%
Rhuddlan	1653	126	76%
Dwyrain y Rhyl	1639	159	70%
De'r Rhyl	1514	111	73%
De Ddwyrain y Rhyl	3693	256	76.7%
De Orllewin y Rhyl	2177	334	65.9%
Gorllewin y Rhyl	1847	418	62.6%
Rhuthun	2588	143	79.2%
Dwyrain Llanelwy	782	34	80%
Gorllewin Llanelwy	773	55	74.5%
Trefnant	868	32	75.5%
Tremeirchion	818	37	78.3%

Tabl 4:

Ward	Nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra ym mis Mai 2017					
	Oedran 0 – 4 oed	Oedran 5 – 10 oed	Oedran 11 – 15 oed	Oedran 16 – 18 oed	Oedran 0 – 15 oed	Oedran 0 – 18 oed
Bodelwyddan	25	25	25	10	75	85
Corwen	20	20	10	10	50	60
Canol Dinbych	20	15	15	5	50	55
Dinbych Isaf	15	10	15	10	40	50
Dinbych Uchaf / Henllan	75	80	50	15	205	220
Dyserth	5	15	20	15	40	55
Efenechtyd	0	5	5	5	10	15
Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla	5	5	10	0	20	20
Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	0	5	0	0	5	5
Llandrillo	0	10	0	0	10	10
Llandyrnog	5	5	10	0	20	20
Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	10	10	5	5	25	30
Llangollen	10	20	10	10	40	50
Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	5	5	10	5	20	25
Canol Prestatyn	35	45	30	20	110	130
Dwyrain Prestatyn	50	40	20	10	110	120
Gallt Melyd Prestatyn	35	45	25	15	105	120
Gogledd Prestatyn	80	80	50	20	210	230
De Orllewin Prestatyn	70	50	35	25	155	180
Rhuddlan	35	25	15	5	75	80
Dwyrain y Rhyl	45	55	50	25	150	175
De'r Rhyl	30	40	25	20	95	115
De Ddwyrain y Rhyl	115	105	65	35	285	320
De Orllewin y Rhyl	205	220	180	55	605	660
Gorllewin y Rhyl	215	230	170	75	615	690
Rhuthun	35	30	25	10	90	100
Dwyrain Llanelwy	10	15	15	5	40	45
Gorllewin Llanelwy	15	15	10	0	40	40
Trefnant	5	15	10	5	30	35
Tremeirchion	5	10	10	0	25	25

Tabl 5:

DRAFT

	Plant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel absoliwt	
Ward	**Nifer**	**Canran**
Bodelwyddan	45	10.8%
Corwen	79	20.2%
Canol Dinbych	26	7.7%
Dinbych Isaf	76	8.6%
Dinbych Uchaf / Henllan	95	14.7%
Dyserth	46	11.9%
Efenechtyd	31	9.5%
Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla	27	7.0%
Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	5	2.6%
Llandrillo	23	11.5%
Llandyrnog	36	9.7%
Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	61	15.2%
Llangollen	99	16.0%
Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	52	15.7%
Canol Prestatyn	78	12.3%
Dwyrain Prestatyn	62	9.6%
Gallt Melyd Prestatyn	61	15.6%
Gogledd Prestatyn	155	16.0%
De Orllewin Prestatyn	110	17.1%
Rhuddlan	79	13.6%
Dwyrain y Rhyl	119	15.7%
De'r Rhyl	92	17.9%
De Ddwyrain y Rhyl	220	13.9%
De Orllewin y Rhyl	257	16.9%
Gorllewin y Rhyl	290	26.3%
Rhuthun	61	6.0%
Dwyrain Llanelwy	31	10.2%
Gorllewin Llanelwy	33	12.6%
Trefnant	23	8.9%
Tremeirchion	17	6.1%
Cyfanswm Sir Ddinbych	**2,389**	**13.77%**

Tabl 6: Cost gofal plant ar gyfer plant 0-1 oed, yn ôl Ward

Ardal	Ward	Cost fesul awr ar gyfartaledd	Cost fesul sesiwn ar gyfartaledd	Cost fesul diwrnod ar gyfartaledd
Sir Ddinbych U001	Dwyrain Llanelwy	Amherthnasol	Amherthnasol	£46.00

	Gorllewin Llanelwy	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Canol Prestatyn	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Dwyrain Prestatyn	Amherthnasol	£32.50	£49.50
	Gallt Melyd Prestatyn	Amherthnasol	£25.00	£39.00
	Gogledd Prestatyn	Amherthnasol	£24.00	£33.50
	De Orllewin Prestatyn	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Dyserth	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Tremeirchion	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Trefnant	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Cyfartaledd	**Amherthnasol**	**£27.17**	**£42.00**
Sir Ddinbych U002	Dwyrain y Rhyl	Amherthnasol	£32.00	£43.50
	De'r Rhyl	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	De Ddwyrain y Rhyl	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	De Orllewin y Rhyl	£4.50	£22.19	£36.50
	Gorllewin y Rhyl	Amherthnasol	£27.00	£40.00
	Bodelwyddan	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Rhuddlan	Amherthnasol	£28.50	£43.00
	Cyfartaledd	**£4.50**	**£27.42**	**£40.75**
Sir Ddinbych U003	Canol Dinbych	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Dinbych Isaf	Amherthnasol	£38.33	Amherthnasol
	Dinbych Uchaf / Henllan	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Llandymog/Llandyrnog	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Corwen	Amherthnasol	Amherthnasol	£50.00
	Rhuthun	Amherthnasol	£43.43	£43.58
	Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	Amherthnasol	£30.00	£47.00
	Llangollen	£4.00	£27.00	£47.00
	Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Efenechtyd	Amherthnasol	£30.00	£47.00
	Llanarmon-yn-lâl/Llandegla	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Llandrillo	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Cyfartaledd	**£4.00**	**£33.75**	**£46.91**
	Cyfartaledd Sir Ddinbych	**£4.25**	**£29.45**	**£43.22**

Tabl 7: Cost gofal plant ar gyfer plant 1 oed, yn ôl Ward

Ardal	Ward	Cost fesul awr ar gyfartaledd	Cost fesul sesiwn ar gyfartaledd	Cost fesul diwrnod ar gyfartaledd
Sir Ddinbych U001	Dwyrain Llanelwy	Amherthnasol	Amherthnasol	£40.50

	Gorllewin Llanelwy	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Canol Prestatyn	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Dwyrain Prestatyn	Amherthnasol	£32.50	£42.25
	Gallt Melyd Prestatyn	Amherthnasol	£25.00	£39.00
	Gogledd Prestatyn	Amherthnasol	£24.00	£38.50
	De Orllewin Prestatyn	Amherthnasol	£30.00	Amherthnasol
	Dyserth	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Tremeirchion	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Trefnant	Amherthnasol	Amherthnasol	£35.00
	Cyfartaledd	**Amherthnasol**	**£27.88**	**£39.05**
Sir Ddinbych U002	Dwyrain y Rhyl	Amherthnasol	£33.00	£43.50
	De'r Rhyl	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	De Ddwyrain y Rhyl	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	De Orllewin y Rhyl	£4.50	£22.31	£36.50
	Gorllewin y Rhyl	Amherthnasol	£27.00	£40.00
	Bodelwyddan	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Rhuddlan	Amherthnasol	£28.50	£43.00
	Cyfartaledd	**£4.50**	**£27.70**	**£40.75**
Sir Ddinbych U003	Canol Dinbych	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Dinbych Isaf	Amherthnasol	Amherthnasol	£34.80
	Dinbych Uchaf / Henllan	£4.50	£40.00	£38.50
	Llandymog/Llandyrnog	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Corwen	Amherthnasol	Amherthnasol	£50.00
	Rhuthun	Amherthnasol	£43.43	£43.58
	Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	Amherthnasol	£30.00	£47.00
	Llangollen	£4.00	£27.00	£47.00
	Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	Amherthnasol	Amherthnasol	£35.00
	Efenechtyd	Amherthnasol	£30.00	£47.00
	Llanarmon-yn-lâl/Llandegla	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Llandrillo	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Cyfartaledd	**£4.50**	**£34.09**	**£42.86**
	Cyfartaledd Sir Ddinbych	**£4.50**	**£29.89**	**£40.89**

Tabl 8: Cost gofal plant ar gyfer plant 2 oed, yn ôl Ward

Ardal	Ward	Cost fesul awr ar gyfartaledd	Cost fesul sesiwn ar gyfartaledd	Cost fesul diwrnod ar gyfartaledd
Sir Ddinbych U001	Dwyrain Llanelwy	Amherthnasol	£10.00	£40.50

	Gorllewin Llanelwy	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Canol Prestatyn	Amherthnasol	£14.50	£24.50
	Dwyrain Prestatyn	Amherthnasol	£20.75	£39.00
	Gallt Melyd Prestatyn	Amherthnasol	£18.50	£36.75
	Gogledd Prestatyn	Amherthnasol	£29.50	£34.00
	De Orllewin Prestatyn	£4.25	£13.50	£24.33
	Dyserth	£3.50	£10.50	£21.00
	Tremeirchion	Amherthnasol	£9.00	Amherthnasol
	Trefnant	Amherthnasol	£11.25	£27.25
	Cyfartaledd	**£3.87**	**£15.28**	**£30.92**
Sir Ddinbych U002	Dwyrain y Rhyl	£6.50	£28.50	£37.75
	De'r Rhyl	£4.50	£10.00	Amherthnasol
	De Ddwyrain y Rhyl	Amherthnasol	Amherthnasol	£34.00
	De Orllewin y Rhyl	£4.50	£20.70	£34.92
	Gorllewin y Rhyl	£6.50	£27.00	£40.00
	Bodelwyddan	Amherthnasol	£8.00	£35.00
	Rhuddlan	Amherthnasol	£28.50	£43.00
	Cyfartaledd	**£5.50**	**£20.45**	**£37.45**
Sir Ddinbych U003	Canol Dinbych	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Dinbych Isaf	Amherthnasol	Amherthnasol	£31.30
	Dinbych Uchaf / Henllan	£4.50	£12.83	£34.00
	Llandymog/Llandyrnog	Amherthnasol	£12.20	£28.00
	Corwen	Amherthnasol	Amherthnasol	£50.00
	Rhuthun	Amherthnasol	£28.50	£43.00
	Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	£4.50	£19.00	£42.50
	Llangollen	£4.25	£15.33	£28.67
	Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	Amherthnasol	£12.50	£38.50
	Efenechtyd	Amherthnasol	£16.67	£47.00
	Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	Amherthnasol	£18.00	£30.00
	Llandrillo	£4.00	Amherthnasol	Amherthnasol
	Cyfartaledd	**£4.31**	**£16.88**	**£37.29**
	Cyfartaledd Sir Ddinbych	**£4.56**	**£17.54**	**£35.22**

Tabl 9: Cost gofal plant ar gyfer plant 3 oed, yn ôl Ward

Ardal	Ward	Cost fesul awr ar gyfartaledd	Cost fesul sesiwn ar gyfartaledd	Cost fesul diwrnod ar gyfartaledd
Sir Ddinbych U001	Dwyrain Llanelwy	£4.50	£10.00	£46.00
	Gorllewin Llanelwy	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol

	Canol Prestatyn	Amherthnasol	£14.50	£24.50
	Dwyrain Prestatyn	Amherthnasol	£26.25	£39.00
	Gallt Melyd Prestatyn	Amherthnasol	£19.50	£36.75
	Gogledd Prestatyn	Amherthnasol	£24.00	£33.50
	De Orllewin Prestatyn	£4.25	£9.00	£24.33
	Dyserth	£3.50	£12.25	Amherthnasol
	Tremeirchion	Amherthnasol	£9.00	Amherthnasol
	Trefnant	Amherthnasol	£11.25	£29.83
	Cyfartaledd	**£4.08**	**£15.08**	**£33.42**
Sir Ddinbych U002	Dwyrain y Rhyl	£6.50	£20.75	£31.00
	De'r Rhyl	£4.50	£14.00	Amherthnasol
	De Ddwyrain y Rhyl	Amherthnasol	Amherthnasol	£35.00
	De Orllewin y Rhyl	£4.50	£18.20	£32.33
	Gorllewin y Rhyl	£5.75	£18.25	£35.50
	Bodelwyddan	Amherthnasol	£9.00	£22.00
	Rhuddlan	Amherthnasol	£20.00	£37.00
	Cyfartaledd	**£5.31**	**£16.70**	**£32.14**
Sir Ddinbych U003	Canol Dinbych	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Dinbych Isaf	£4.50	£18.69	£32.33
	Dinbych Uchaf / Henllan	£4.50	£9.53	£35.67
	Llandymog/Llandyrnog	Amherthnasol	£12.20	£28.00
	Corwen	Amherthnasol	Amherthnasol	£50.00
	Rhuthun	Amherthnasol	£16.60	£35.21
	Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	£4.50	£19.00	£42.50
	Llangollen	£4.25	£16.33	£22.00
	Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	Amherthnasol	£12.50	£38.50
	Efenechtyd	Amherthnasol	£16.67	£47.00
	Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	Amherthnasol	£18.00	£30.00
	Llandrillo	£4.00	Amherthnasol	Amherthnasol
	Cyfartaledd	**£4.35**	**£15.50**	**£36.12**
	Cyfartaledd Sir Ddinbych	**£4.58**	**£15.76**	**£33.89**

Tabl 10: Cost gofal plant ar gyfer plant 4 oed, yn ôl Ward

Ardal	Ward	Cost fesul awr ar gyfartaledd	Cost fesul sesiwn ar gyfartaledd	Cost fesul diwrnod ar gyfartaledd
Sir Ddinbych U001	Dwyrain Llanelwy	£4.50	£5.00	£32.50
	Gorllewin Llanelwy	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Canol Prestatyn	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol

	Dwyrain Prestatyn	Amherthnasol	£22.50	£37.67
	Gallt Melyd Prestatyn	Amherthnasol	£19.50	£36.75
	Gogledd Prestatyn	Amherthnasol	£24.00	£30.75
	De Orllewin Prestatyn	£4.50	£12.75	£22.00
	Dyserth	£3.50	£12.25	Amherthnasol
	Tremeirchion	Amherthnasol	£10.00	Amherthnasol
	Trefnant	£4.50	£11.25	£27.25
	Cyfartaledd	**£4.25**	**£14.66**	**£31.15**
Sir Ddinbych U002	Dwyrain y Rhyl	£6.50	£16.50	£31.00
	De'r Rhyl	£4.50	£11.50	Amherthnasol
	De Ddwyrain y Rhyl	Amherthnasol	Amherthnasol	£35.00
	De Orllewin y Rhyl	£4.50	£12.30	£23.23
	Gorllewin y Rhyl	£5.75	£18.25	£30.50
	Bodelwyddan	Amherthnasol	£11.00	£22.00
	Rhuddlan	Amherthnasol	£20.00	£37.00
	Cyfartaledd	**£5.31**	**£14.93**	**£29.79**
Sir Ddinbych U003	Canol Dinbych	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Dinbych Isaf	£4.50	£14.55	£32.67
	Dinbych Uchaf / Henllan	Amherthnasol	£9.30	£30.00
	Llandymog/Llandyrnog	Amherthnasol	£12.20	£28.00
	Corwen	Amherthnasol	Amherthnasol	£50.00
	Rhuthun	£4.50	£26.20	£43.32
	Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	£4.50	£22.25	£47.00
	Llangollen	£4.00	£14.00	£25.00
	Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	Amherthnasol	£11.00	£35.00
	Efenechtyd	Amherthnasol	£11.00	Amherthnasol
	Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	Amherthnasol	£14.33	£30.00
	Llandrillo	£4.00	Amherthnasol	Amherthnasol
	Cyfartaledd	**£4.30**	**£14.98**	**£35.67**
	Cyfartaledd Sir Ddinbych	**£4.62**	**£14.86**	**£32.20**

Tabl 11: Cost gofal plant ar gyfer plant 5-7 oed, yn ôl Ward

Ardal	Ward	Cost fesul awr ar gyfartaledd	Cost fesul sesiwn ar gyfartaledd	Cost fesul diwrnod ar gyfartaledd
Sir Ddinbych U001	Dwyrain Llanelwy	Amherthnasol	£5.00	£32.50
	Gorllewin Llanelwy	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Canol Prestatyn	Amherthnasol	£14.50	£26.00
	Dwyrain Prestatyn	Amherthnasol	£10.50	£28.50

	Gallt Melyd Prestatyn	Amherthnasol	£10.75	£33.00
	Gogledd Prestatyn	£3.50	£15.00	£25.50
	De Orllewin Prestatyn	£4.50	£12.00	£22.50
	Dyserth	£2.00	Amherthnasol	Amherthnasol
	Tremeirchion	Amherthnasol	£8.00	Amherthnasol
	Trefnant	£5.00	£11.25	£30.00
	Cyfartaledd	**£3.75**	**£10.87**	**£25.07**
Sir Ddinbych U002	Dwyrain y Rhyl	£4.00	£10.75	£30.00
	De'r Rhyl	Amherthnasol	£9.00	Amherthnasol
	De Ddwyrain y Rhyl	£4.50	Amherthnasol	£30.00
	De Orllewin y Rhyl	£4.50	£12.10	£24.83
	Gorllewin y Rhyl	£5.00	£10.50	£28.00
	Bodelwyddan	Amherthnasol	£10.00	£16.00
	Rhuddlan	Amherthnasol	£28.50	£37.00
	Cyfartaledd	**£4.50**	**£13.48**	**£27.64**
Sir Ddinbych U003	Canol Dinbych	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Dinbych Isaf	£5.00	£10.25	£30.00
	Dinbych Uchaf / Henllan	£4.50	Amherthnasol	£34.00
	Llandymog/Llandyrnog	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Corwen	Amherthnasol	Amherthnasol	£50.00
	Rhuthun	£4.50	£16.00	£33.88
	Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	Amherthnasol	£26.00	£28.50
	Llangollen	£4.17	£14.00	£22.50
	Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	Amherthnasol	£8.00	£12.00
	Efenechtyd	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	Amherthnasol	£7.00	Amherthnasol
	Llandrillo	£4.00	Amherthnasol	Amherthnasol
	Cyfartaledd	**£4.43**	**£13.54**	**£30.12**
	Cyfartaledd Sir Ddinbych	**£4.23**	**£12.63**	**£27.61**

Tabl 12: Cost gofal plant ar gyfer plant 8-11 oed, yn ôl Ward

Ardal	Ward	Cost fesul awr ar gyfartaledd	Cost fesul sesiwn ar gyfartaledd	Cost fesul diwrnod ar gyfartaledd
Sir Ddinbych U001	Dwyrain Llanelwy	Amherthnasol	£25.00	£29.17
	Gorllewin Llanelwy	£4.50	Amherthnasol	£24.00
	Canol Prestatyn	Amherthnasol	£14.50	£26.00
	Dwyrain Prestatyn	Amherthnasol	£10.50	£28.50
	Gallt Melyd Prestatyn	Amherthnasol	£10.75	£27.50

	Gogledd Prestatyn	Amherthnasol	£15.00	£18.00
	De Orllewin Prestatyn	£4.50	£12.00	£25.00
	Dyserth	£2.00	Amherthnasol	Amherthnasol
	Tremeirchion	Amherthnasol	£8.00	Amherthnasol
	Trefnant	£5.00	£11.25	£30.00
	Cyfartaledd	**£4.00**	**£13.38**	**£26.02**
Sir Ddinbych U002	Dwyrain y Rhyl	£4.00	£10.75	£30.00
	De'r Rhyl	Amherthnasol	£9.00	Amherthnasol
	De Ddwyrain y Rhyl	£4.00	£4.00	£26.00
	De Orllewin y Rhyl	£4.50	£12.10	£24.83
	Gorllewin y Rhyl	£5.00	£10.50	£28.00
	Bodelwyddan	Amherthnasol	£10.00	£16.00
	Rhuddlan	Amherthnasol	£28.50	£37.00
	Cyfartaledd	**£4.38**	**£12.12**	**£26.97**
Sir Ddinbych U003	Canol Dinbych	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Dinbych Isaf	£5.00	£10.20	£33.00
	Dinbych Uchaf / Henllan	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Llandymog/Llandyrnog	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Corwen	Amherthnasol	Amherthnasol	£50.00
	Rhuthun	£4.50	£16.00	£34.75
	Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	Amherthnasol	£26.00	£37.00
	Llangollen	£4.50	Amherthnasol	£20.00
	Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	Amherthnasol	£8.00	£12.00
	Efenechtyd	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	Amherthnasol	£7.00	Amherthnasol
	Llandrillo	£4.00	Amherthnasol	Amherthnasol
	Cyfartaledd	**£4.50**	**£13.44**	**£31.13**
	Cyfartaledd Sir Ddinbych	**£4.29**	**£12.98**	**£28.04**

DRAFT